

# Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
[ceredigion.gov.uk](http://ceredigion.gov.uk)

## Annwyl Syr / Fadam

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach yn rhithiol ar Zoom, Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)  
Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswilt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
3. Polisi Grantiau a Benthyciadau (Tudalennau 3 - 78)
4. Adolygu Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor - Bysus a dynnar gan geffylau (Tudalennau 79 - 188)
5. Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, Cwarter 1 2021.2022 (Tudalennau 189 - 220)
6. Adroddiad Blynnyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol (Tudalennau 221 - 268)
7. Cyd-Bwyllgor Canolborth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal - Adroddiad diweddariad Hydref 2021 (Tudalennau 269 - 288)
8. Blaenraglen Waith Ddrafft 2021-2022 (Tudalennau 289 - 294)
9. Cofnodion Cyfarfod 6.10.21 a 20.10.21 (Tudalennau 295 - 304)

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach  
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach

**Dyddiad y cyfarfod:** 16 Rhagfyr 2021

**Teitl:** Adolygu Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor - Bysus a dynnir gan geffylau

**Pwrpas yr Adroddiad:** I'w graffu o ran:

1. Ystyried adolygu Polisi Cyffredinol y Cyngor ar Gerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat ac yn benodol trwyddedu bysus a dynnir gan geffylau, ac
2. Ystyried yr angen i fabwysiadu amodau trwyddedu newydd yn ogystal â mabwysiadu is-ddeddf newydd ar gyfer trywydd penodol arfaethedig a/ neu unrhyw drywydd yn y dyfodol ar gyfer bysus a dynnir gan geffylau (omnibws)

**I'w benderfynu:** .

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Lloyd – Amddiffyn y Cyhoedd

### Cefndir

Mae unigolyn wedi cysylltu â'r Awdurdod yn mynegi diddordeb i ddefnyddio cart a cheffyl i fynd â theithwyr ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth.

Nid yw'r Polisi Cyfredol ar Gerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn cynnwys cart a cheffyl / omnibws ac ar hyn o bryd nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion unrhyw is-ddeddfau mewn lle ar gyfer rheoleiddio omnibysus.

Ni all cart a cheffyl sy'n darparu cludiant cyhoeddus gael ei drwyddedu fel cerbyd hurio preifat am fod yr elfen yma'n gaeth i gerbydau modur yn unig. Gall cart a cheffyl gael ei drwyddedu i'w ddefnyddio fel 'omnibws' o dan Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1889 fod bynnag er mwyn trwyddedu a defnyddio omnibysus o'r fath bydd yn ofynnol i'r Awdurdod yn gyntaf:

- 1) Diwygio ei Bolisi Cyffredinol er mwyn cyflwyno amodau trwyddedu newydd a phenodol ar gyfer y math yma o gludiant, a
- 2) Mabwysiadu is-ddeddf newydd i reoleiddio ceirt a cheffylau / omnibysus.

### Rheoliadau ac Is-ddeddfau

Bydd yn rhaid trwyddedu cerbydau hacni / omnibysus o dan y ddeddfau canlynol:

- Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847
- Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1889 a

- Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Mae'n ddyletswydd felly ar Gyngor Sir Ceredigion fel yr Awdurdod Trwyddedu i ymgymryd â'i ddyletswyddau trwyddedu o ran cerbydau hacni gan roi i'r Awdurdod y pŵer i osod amodau ar drwydded cerbyd neu'r gyrrwr fel y bydd yn ystyried hynny'n rhesymol angenheidol.

Bydd Adran 6 Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1889 yn rhoi'r awdurdod i'r Cyngor lunio is-ddeddfau ar gyfer gosod rheoliadau ar ddefnydd omnibus. O dan Ddeddf Traffig y Ffordd 1930 a Deddf Trafnidiaeth 1985 bydd y darpariaethau yma'n parhau mewn grym ar gyfer cerbydau difodur

O dan y ddeddfwriaeth hen yma byddai cart a cheffyl yn dod o dan ddiffiniad 'omnibws'. Caiff omnibws ei ddiffinio fel un o'r cerbydau canlynol: omnibws, char-a-banc, *wagonette, brake, coets* fawr neu gerbyd arall (difodur)

Bydd yn ofynnol i omnibusus ddilyn trywydd penodol y penderfynwyd arno ymlaen llaw ac nid oes hawl gan y gyrrwr na'r cerbyd weithredu heb drwydded.

Nid oes unrhyw sgôp yn y ddeddfwriaeth i gynnwys amodau mewn ffordd gyfreithiol i unrhyw drwydded. Felly er mwyn gosod amodau ar drwydded fydd yn sicrhau diogelwch y cyhoedd, diogelwch teithwyr a'r gyrrwr, lles anifeiliaid ac arferion da o ran y math yma o gludiant yr unig ffordd o reoleiddio fydd gwneud is-ddeddfau.

## Ymgynghoriad

Mewn ymateb i'r cais a dderbyniwyd gan y Tîm Gweithredu bu i Swyddogion ddrafftio set newydd o amodau trwyddedu ar gyfer cart a cheffyl / omnibusus y gellir eu cynnwys ym Mholisi Cyffredinol yr Awdurdod o ran Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Bwriad yr amodau drafft newydd fydd eu hatodi i reolau'r Polisi cyfredol a darparu canllawiau ar ba mor addas fydd unrhyw gais a dderbynir ar gyfer cerbyd hacni ceffyl hynny yw omnibws gan geisio hyrwyddo'r canlynol:

- Amddiffyn lechyd a diogelwch y cyhoedd
- Amddiffyn lles anifeiliaid a ddefnyddir yn y math yma o fusnes
- Hyrwyddo busnes cerbydau hacni ceffylau sy'n uchel ei barch.

Bydd y newidiadau arfaethedig hefyd yn cynnwys y canlynol;

- Galluogi'r broses o drwyddedu cerbydau hacni ceffylau hynny yw omnibusus yn Awdurdod Ceredigion
- Clustnodi'r trywydd penodol y dylid ei ddefnyddio rhwng y Promenâd newydd a Rhodfa'r Môr Aberystwyth;
- Newid y Safle Tacsis ar y Promenâd newydd i ganiatáu au cerbydau hacni ceffylau yn unrhyw rhwng 6am - 6pm;

Mae'r amodau drafft ynghlwm i'r adroddiad yma (gweler Atodiad A). Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ar y newidiadau yma ar 2 Awst 2021, a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 31 Awst 2021.

## **Ymatebion Ymgynghori**

Bu i'r Gwasanaeth dderbyn cyfanswm o 216 ymateb i'r ymgynghoriad yma. Ceir dadansoddiad cryno o'r ymatebion ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad yma.

Bu i'r ymgynghoriad diweddar ein galluogi i gael syniad o'r lefel o gefnogaeth neu wrthwynebiad neu farn arall i'r is-ddeddf ac amodau trwyddedu newydd wrth drafod cart a cheffyl / omnibusus.

O'r 216 o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ychydig iawn wnaeth ymateb yn bositif ac nid oeddent o blaid mabwysiadu'r argymhelliaid trwyddedu newydd.

Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebion yn erbyn yr argymhelliaid o fabwysiadu system trwyddedu omnibws. Y prif reswm dros wrthwynebiadau pobl oedd pryderon cyffredinol parthed llif traffig ar hyd ardal y Promenâd ayb, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf yn ogystal â phryderon cyffredinol am les anifeiliaid a cheffylau yn rhannu'r ffordd gyda cherbydau'r ffordd.

Pan ofynnwyd a oedd y trywydd arfaethedig yn addas ar gyfer cludo teithwyr mewn cart a cheffyl, bu i 69% naill ai anghytuno'n gryf neu anghytuno; a phan ofynnwyd pa drywydd y byddent yn ei argymhell a pham bu i'r mwyafrif o ymatebion nodi dim trywydd o gwbl.

Hefyd derbyniwyd adborth oddi wrth Wasanaethau Priffydd a Gwasanaethau Economi ac Adfywio Cyngor Sir Ceredigion.

Yn gyffredinol ar wahân i elfennau economaidd ac adfywio, bu i'r Gwasanaethau Priffydd fynegi pryderon parthed defnyddio'r briffordd a risg i ddiogelwch y cyhoedd ac roeddent o'r farn y byddai angen trafodaethau helaeth pellach rhwng gwasanaethau cyn y gellir mabwysiadu'r polisi hwn.

## **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi Oes ei gwblhau? Os nad oes, esboniwr pam**

**Llesiant  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol**

**Crynodeb  
Hirdymor:**

Ystyri'r hi'n arfer dda i awdurdodau lleol adolygu eu Ddatganiad o Bolisi Trwyddedu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â newidiadau deddfwriaethol, newidiadau a argymhellwyd gan y llywodraeth neu lle y bo awdurdod trwyddedu yn ystyried bod newidiadau yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo diogelwch y cyhoedd.

Mae Amddiffyn y Cyhoedd yn ddyletswydd statudol ar yr awdurdod ac yn cyfrannu tuag

# Tudalen 6

at nodau llesiant o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## Cydweithio:

Bu i'r Awdurdod weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill wrth ystyried y polisi yma er mwyn sicrhau cysondeb sy'n cyflawni anghenion y Sir.

## Cynnwys:

Bu i'r cynnwys a'r ymgynghoriad gynnwys partneriaid amrywiol, asiantaethau a'r cyhoedd a gwaned y gwaith ymgysylltu gyda'r Tîm Trwyddedu er mwyn sicrhau bod polisi mewn lle sy'n addas at ei bwrpas. Bydd cynnwys yr ochr fasnach a'r cyhoedd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod masnach / busnes sydd wedi ei drwyddedu'n briodol yn ffynnu ac yn ddiogel yng Ngheredigion.

## Atal:

Mae'r amcanion trwyddedu'n hollol gyson â'r elfen o 'atal' a gefnogir gan safonau'r diwydiant a deddfwriaeth ac y mae'r polisi arfaethedig yma'n ceisio hyrwyddo pob un o'r amcanion yma cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosib.

## Integreiddio:

Mae'r Polisi Trwyddedu'n un o'r nifer o bolisiâu a weithredir gan yr awdurdod er mwyn cynnal y gwaith o amddiffyn y cyhoedd.

## Argymhelliaid:

Gofynnir i graffu felly ystyried cynnwys yr adroddiad yma a'r ymatebion i'r ymgynghori ac argymhell i'r Cabinet naill ai:

1. nad yw'r newid i'r polisi arfaethedig yn angenrheidiol ac y dylai'r Awdurdod ystyried parhau fel sir "heb omnibusus".  
neu
2. mae'r newid arfaethedig i'r polisi yn angenrheidiol er mwyn caniatáu omnibusus yn Aberystwyth a/neu unrhyw ardal arall o'r sir lle bydd angen:
  - a) mabwysiadu'r amodau trwyddedu newydd, a
  - b) mabwysiadu'r is-ddeddf newydd ar gyfer y trywydd penodol newydd a/neu unrhyw drywydd omnibws arfaethedig yn y dyfodol er mwyn gweithredu'n effeithiol unrhyw camau sy'n groes i amodau'r drwydded.

## Tudalen 7

<b>Rheswm dros y penderfyniad:</b>	Gwella diogelwch y cyhoedd ac eglurer o ran masnach trwyddedig yng Ngheredigion.
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach; trafodwyd hefyd yn y Pwyllgor Trwyddedu.
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022
<b>Blaenoriaethau Corfforaethol</b>	Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	O fewn y gyllideb
<b>Goblygiadau Cyfreithiol:</b>	Mae angen i Awdurdodau Lleol ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r Polisi Trwyddedu.
<b>Goblygiadau Staffio:</b>	Dim
<b>Goblygiadau Eiddo / Asedau</b>	Dim
<b>Risg (au):</b>	Os na fydd polisi clir ar y mater ni fydd penderfyniadau trwyddedu yn gadarn ac yn agored i'w herio.
<b>Pwerau Statudol:</b>	Deddf Plismona a Thrwyddedu 2017, Deddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1976, Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847
<b>Papurau Cefndir :</b>	Gweler yr atodiadau
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Alun Williams (Polisi a Pherfformiad)
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu)
<b>Dyddiad:</b>	19 Hydref 2021

### Atodiadau

A: Amodau Cerbydau Hacni Ceoffylau a Chart ac Amodau Polisi Gyrwyr  
B: Ymatebion a Dadansoddi'r Ymgyghori ar y Polisi Cart a Cheffyl 2021.



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Tudalen 8



# Polisi Cymorth Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai

Rhagfyr 2021



## Cynnwys

1. CYFLWYNIAD .....	3
2. DIBEN Y POLISI.....	5
3. AMCANION Y POLISI.....	6
4. MATERION ALLWEDDOL.....	7
5. Y CYMORTH ARIANNOL SYDD AR GAEL A'R AMODAU SYDD YNGHLWM.....	8
6. ASIANTAETHAU GWELLA CARTREFI .....	15
7. GRANTIAU/BENTHYCIADAU A YSTYRIR MEWN AMGYLCHIADAU ARBENNIG.....	16
8. GWAITH SY'N GYMWYS AR GYFER GRANT/BENTHYCIAD YNG NGHEREDIGION.....	16
9. CYLLID .....	17
10. FFIOEDD A THALIADAU.....	17
11. CWYNION .....	19
12. TREFNIADAU PONTIO A'R POLISI BLAENOROL .....	19
13. DATBLYGU'R POLISI YMHELLACH.....	19
ATODIAD A – HWYLUSO – CYMORTH I FYW'N ANNIBYNNOL .....	21
ATODIAD B – GRANTIAU A BENTHYCIADAU YN ÔL DISGRESIWN AR GYFER CYMORTH GYDA CHYNNAF A CHADW AC ATGYWEIRIO .....	28
ATODIAD C – GWEITHDREFN BENTHYCIADAU AWDURDOD LLEOL .....	39
PWERAU I DDYFARNU BENTHYCIADAU .....	39
YR AWDURDOD YMDDYGIAD ARIANNOL (FCA).....	39
SAFONAU GWEINYDDU MORGEISI .....	40
CYMORTH GWLADWRIAETHOL .....	41
CYNHYRCHION BENTHYCIAD PRESENNOL .....	42
CAMAU YN Y BROSES .....	43
CAMAU ASESU ARIANNOL .....	44

## 1. CYFLWYNIAD

Ym mis Gorffennaf 2002 gwnaeth y Llywodraeth newidiadau pwysig i ddeddfwriaeth grantiau tai, gan gyflwyno Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002. Mae'r gorchymyn hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol lunio eu polisiau cymorth ariannol hyblyg eu hunain i dargedu eu cyllid er mwyn rhoi sylw i anghenion penodol am fenthyciadau a blaenorriaethau strategol.

Erbyn hyn, y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yw'r unig grant cenedlaethol mandadol, ac mae pob math arall o gymorth yn cael ei gynnig yn ôl disgrifiwn y Cyngor.

Yn sgil cyflwyno'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio, cyn y gall Awdurdod Lleol ddarparu unrhyw gymorth o dan y gorchymyn, rhaid ei fod wedi mabwysiadu polisi ar gyfer rhoi cymorth, a rhaid ei fod wedi dweud wrth y cyhoedd am y polisi hwnnw<sup>1</sup>. Hefyd, rhaid iddo sicrhau bod copi llawn o'r polisi ar gael ar bob adeg resymol, a'i fod ar gael trwy'r post am dâl rhesymol. Yna rhaid darparu unrhyw gymorth yn unol â'r polisi hwnnw. O ganlyniad, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod eu polisi cymorth ariannol yn cael ei ddiweddar i adlewyrchu telerau'r cynllun hwn ac unrhyw gymorth arall y maent yn ei gynnig.

Mae'r dibenion posibl ar gyfer darparu'r cymorth wedi eu hamlinellu yn Erthygl 3 yn y gorchymyn. Mae hynny at y diben o wella amodau byw yn eu hardal, a gall Awdurdodau ddarparu cymorth uniongyrchol neu anuniongyrchol at y diben o alluogi rhywun i:

- gael llety preswyl (waeth a yw yn yr ardal neu'r tu allan i'r ardal) – dim ond lle mae'r Awdurdod wedi caffaol neu yn cynnig caffaol (yn orfodol neu fel arall) y llety y mae'n byw yn ddo, neu yn fodlon y byddai caffaol llety arall i fyw yn ddo yn darparu budd tebyg i'r budd a gawsai'r person hwnnw o wneud gwaith ar ei lety presennol;
- mabwysiadu neu wella llety preswyl (boed hynny trwy addasu, trawsnewid neu helaethu);
- atgyweirio llety preswyl;
- dymchwel adeiladau sy'n cynnwys llety preswyl;
- lle mae adeiladau sy'n cynnwys llety preswyl wedi cael eu dymchwel, i godi adeiladau sy'n cynnwys llety preswyl yn eu lle.

Diffinnir 'llety preswyl' yn Rhan 2 y Gorchymyn fel adeilad neu ran o adeilad, carafán, cwch neu strwythur tebyg y mae rhywun yn byw yn ddo neu sydd ar gael at ddibenion preswyl.

Mae'r Gorchymyn yn datgan ymhellach<sup>2</sup> y gellir darparu'r 'cymorth' ar unrhyw ffurf, a gall fod yn ddiamond neu'n ddarostyngedig i amodau, gan gynnwys amodau ynghylch ad-dalu'r

<sup>1</sup> Erthygl 4 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002

<sup>2</sup> Erthygl 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002

cymorth neu ei werth (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), neu gyfrannu at y gwaith a gwblhawyd gyda chymorth.

Yn sgil cyflwyno **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, mae mwy o ffocws ar yr awdurdod lleol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei breswylwyr. Trwy alluogi i dai gael eu darparu a'u gwella, mae'r awdurdod lleol yn cyfrannu at nifer o'r saith nod llesiant, gan gynnwys Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus.

Deddfwriaeth allweddol newydd sy'n effeithio ar y rheiny y mae arnynt angen cymorth yw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf yw:

**Llais a rheolaeth** – rhoi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddynt er mwyn cyrraedd y canlyniadau sy'n eu helpu i gael llesiant.

**Atal ac ymyrryd yn gynnar** – cynyddu gwasanaethau ataliol o fewn cymunedau er mwyn lleihau uwchgyfeirio i fod yn angen critigol.

**Llesiant** – cefnogi pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth

**Cyd-gynhyrchu** – annog unigolion i chwarae mwy o ran wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

Yn ychwanegol at hyn, creodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 bŵer disgrifiwn y cyfeirir ato fel 'y pŵer llesiant' sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i wneud popeth sydd, yn eu barn nhw, yn debygol o wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal a/neu'r bobl ynddi, ar yr amod nad yw deddfwriaeth arall yn cyfyngu ar eu gallu i wneud hynny<sup>3</sup>.

Serch hynny, nid yw Adran 2 yn galluogi'r Awdurdod Lleol i wneud unrhyw beth na all ei wneud oherwydd gwaharddiad neu gyfyngiad ar ei bwerau yn sgil unrhyw ddeddf (pryd bynnag y cafodd ei chadarnhau neu ei deddfu)<sup>4</sup>.

Felly, rhaid i Awdurdodau Tai Lleol roi sylw i Adran 24, Deddf Llywodraeth Leol 1988<sup>5</sup> (yn amodol ar Adran 25) sy'n rhoi'r pŵer i'r Awdurdod Tai Lleol roi cymorth ariannol i unrhyw berson at y diben o gaffael, adeiladu, trawsnewid, adsefydlu, gwella, cynnal a chadw neu reoli (gan y person hwnnw neu rywun arall) unrhyw eiddo, sy'n cael ei osod yn breifat fel llety tai, neu y bwriedir ei osod yn breifat fel llety tai, neu mewn cysylltiad â hyn.

<sup>3</sup> Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000

<sup>4</sup> Adran 3, Deddf Llywodraeth Leol 2000

<sup>5</sup> Adran 24, Deddf Llywodraeth Leol 1988

Diffinnir llety preswyl sy'n cael ei osod yn breifat fel 'unrhyw gyfnod y mae'n cael ei ddefnyddio fel llety tai yn unol â les neu drwydded, o unrhyw ddisgrifiad, dan denantiaeth statudol, ac mae'r landlord agosaf yn rhywun heblaw Awdurdod Lleol'.

Nodir yn Adran 25, Deddf Llywodraeth Leol 1988, fod angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidog cyn darparu cymorth ariannol, oni bai bod<sup>6</sup> y cymorth neu'r budd yn cael ei roi wrth arfer unrhyw bŵer a gyflwynir gan Erthygl 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002<sup>7</sup>.

O ganlyniad, ac oherwydd natur eang Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 a'r pwerau 'llesiant' cyffredinol a geir yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, bydd Awdurdodau Lleol yn gallu rhoi cymorth ariannol trwy ddarparu cynlluniau grantiau a benthyciadau yn ôl disgrifiwn ar gyfer yr amrediad llawn o ymgeiswyr, a gallant osod unrhyw amodau neu delerau sy'n briodol yn eu barn nhw yn yr amgylchiadau.

## 2. DIBEN Y POLISI

Diben y polisi hwn yw nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn tai a dangos sut y bydd y buddsoddiad hwn yn cynorthwyo i gyfrannu at y weledigaeth a geir yn Strategaeth Dai'r Cyngor, Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Strategaeth Gorforaethol y Cyngor, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru a/neu Orllewin Cymru e.e. Tyfu Canolbarth Cymru (ar gyfer adfywio) a/neu Fwrdd Cynllunio Rhanbarthol Gorllewin Cymru (ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol).

Dylid darllen y Polisi law yn llaw â'r cynlluniau strategol hyn ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill.

Felly, mae'r Polisi hwn yn rhoi gwybodaeth i drigolion Ceredigion am y gwasanaeth cyngor a chymorth ariannol a allai fod ar gael gan y Cyngor i sicrhau bod y tai sy'n cael eu darparu yn ddiogel, yn ynni-effeithlon ac yn helpu i gynnal iechyd a llesiant preswylwyr. Mae'r polisi hwn ar gael i'r rheiny sy'n datblygu tai, perchnogion cartrefi yn y sector preifat a thenantiaid (yn amodol ar feini prawf penodol) ar draws y sir.

Bydd y Polisi hwn yn disgrifio'n fanwl:

- Y dewis llawn o gymorth a allai fod ar gael
- Pwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwn
- Faint o gymorth sy'n cael ei gynnig
- Amodau cyfreithiol sydd ynghlwm
- Sut y dylent ymgeisio

<sup>6</sup> Adran 25 (1)(f) Deddf Llywodraeth Leol 1988

<sup>7</sup> Cylchlythr 20/02 Cynlliaid Cenedlaethol Cymru, Cyfarwyddyd Adnewyddu

Bydd y cymorth yn cael ei dargedu at yr aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf oherwydd eu hoed, anabledd neu anfantais ariannol, neu'n canolbwytio ar ardaloedd wedi'u targedu yn ôl diffiniad y Cyngor fel y rhai sydd â'r angen mwyaf.

Y bwriad gyda'r polisi hwn, felly, yw amlinellu'r grantiau mandadol a'r grantiau yn ôl disgrifiwn sydd ar gael gan yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys y meini prawf cymhwystera, yr â'r amodau a'r telerau y mae'r Awdurdod Lleol yn eu gosod ar gyfer y rheiny sy'n dymuno cael y cyllid hwn. Bydd y Polisi hwn yn disodli'r polisiau hynny sydd eisoes ar waith ar gyfer grantiau a benthyciadau y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnig ar hyn o bryd, a daw i rym ar 1 Ionawr 2022.

## 3. AMCANION Y POLISI

Mae'r polisi hwn yn cyfateb â nodau strategol y Strategaeth Dai Leol sy'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau y mae gwasanaethau tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai yn eu hwynebu yng Ngheredigion. Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod y gallai tai fforddiadwy, cynaliadwy, o ansawdd da, gael effaith positif a hirdymor ar iechyd, ffyniant economaidd a chynaliadwyedd cymunedol Ceredigion. Mae'r strategaeth hefyd yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran angen, cyflenwad, mynediad a fforddiadwyedd, ac yn edrych ar safonau tai, a gofynion Ceredigion yn y dyfodol. At hynny, mae'r polisi cymorth ariannol hwn yn galluogi gweithgareddau sy'n cyfrannu at flaenoriaethau Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor sy'n ymwneud yn benodol â Hwyluso Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd trwy 'hyrwyddo llesiant unigolion a theuluoedd o fewn cartrefi diogel, fforddiadwy a hygyrch.'

Felly, prif amcanion Polisi Cymorth Ariannol y Cyngor ar gyfer Benthyciadau a Grantiau Tai yw:

- Gwella cyflwr a diogelwch tai yn y Sir gyda'r nod sylfaenol o wella iechyd a llesiant preswylwyr.
- Cynyddu'r ddarpariaeth tai trwy wella neu drawsnewid adeiladau sydd eisoes yn bodoli at ddefnydd preswyl.
- Hyrwyddo'r gallu i fyw'n annibynnol trwy addasu eiddo yn y Sir, gan alluogi pobl ag anableddau i aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Hwyluso cartrefi cynhesach a mwy diogel y gall mwy o breswylwyr oedrannus a hyglwyf y Sir barhau i fyw ynddynt.
- Cynorthwyo i ostwng y nifer o aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd, trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, ac ar yr un pryd gweithio ar ran preswylwyr i ddenu cyllid allanol o amrywiaeth o ffynonellau (Llywodraeth Cymru, Cwmnïau Cyflenwi Ynni a yb) i gadw cost mesurau effeithlonrwydd ynni i'r lleiaf posibl ar gyfer perchentywyr.
- Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i wneud gwelliannau tai ar gyfer y rheiny sydd â'r angen mwyaf.

## 4. MATERION ALLWEDDOL

**Newid Diwylliant** – O ganlyniad i ostyngiad yn y cyllid cyfalaf a fu ar gael gan Lywodraeth Cymru dros y blynnyddoedd diwethaf, mae argaeledd cyllid ar gyfer grantiau tai wedi gostwng yn sylweddol ac wedi dod i ben yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Felly, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael a sicrhau bod y stoc tai'n cael ei wella'n barhaus yn y sir, cydnabyddir bod angen defnyddio adnoddau prin mewn ffordd sy'n fwy cynaliadwy ac effeithiol. Mae'r polisi hwn, felly, yn cadarnhau'r angen i newid diwylliant cymorth grant trwy annog perchentywyr i gynnal a chadw ac atgyweirio eu cartrefi eu hunain, yn y lle cyntaf, trwy eu dulliau eu hunain, gan ddefnyddio cymorth trwy fenthyciadau gwella cartrefi lle maent ar gael ac, mewn amgylchiadau penodol ar gyfer pobl hyglwyf a/neu'r henoed, trwy'r cymorth grant sydd ar gael.

**Cyflwyno HWYLUSO – Cymorth i Fyw'n Annibynnol** – Er mis Ebrill 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio HWYLUSO sy'n dod â'r trefniadau presennol ar gyfer darparu addasiadau at ei gilydd trwy adeiladu ar y dewis o raglenni unigol a ffrydiau cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd. Cafodd ei ddylunio i gynnig yr un addasiadau syml, a gwasanaeth safonol, i unigolion ni waeth beth yw eu daliadaeth. Gwna hyn trwy fynd i'r afael â'r cysyniad o ddarparu addasiadau i'r cartref ar gyfer y defnyddiwr/cleient mewn tri categori neu fath cyffredinol – bach, canolig, mawr. Ni waeth beth yw'r ddaliadaeth, neu sut y mae'r addasiadau'n cael eu hariannu, bydd y ffordd sylfaenol y bydd y defnyddiwr yn cael yr addasiadau y mae arno eu hangen yn dilyn un o'r tri categori yma. Mae'r gwaith a ddiffinnir o fewn pob un o'r categorïau addasiadau'n cynnwys tri categori cyffredinol o gymorth:

- "Bach" e.e. rheiliau cydio a rheiliau grisiau, tapiau lifer. Ni fydd prawf modd ar gyfer y grant hwn
- "Canolig" e.e. addasiadau fel cawodydd cerdded-i-mewn, liffiau ar y grisiau a rampiau. Ni fydd prawf modd ar gyfer y grant hwn
- "Mawr" e.e. addasiadau sy'n gofyn am newidiadau strwythurol mawr i eiddo a/neu estyniad i eiddo. Bydd prawf modd ar gyfer y grant hwn

Mae'r diwygiad polisi hwn, felly, yn ymgorffori'r categorïau addasiadau newydd hyn.

**Cronfa Benthyciadau** – Mae LIC yn cefnogi ac yn annog y dulliau arloesol hyn gan gynnwys cyfuniadau o grant/benthyciad, benthyciadau a rhyddhau ecwiti. Bydd benthyciadau gwella cartrefi yn darparu incwm gwerthfawr y gall yr Awdurdod ei ailddefnyddio wedi i'r benthyciad gael ei ad-dalu. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dull hwn ac wedi sicrhau bod nifer o gynnrych benthyciadau ar gael – Benthyciadau Canol Trefi, Tro Tai'n Gartrefi, a Benthyciadau Gwella Cartrefi. Gwelir y Cynlluniau hyn fel ffordd o ddarparu arian ychwanegol er mwyn i unigolion a busnesau wneud gwelliannau i gartrefi a gwaith trawsnewid a fydd yn cyfrannu at y rhaglen gyffredinol o wella ansawdd cartrefi a chynyddu'r cyflenwad tai. Gwelir y cronfeydd hyn fel ffordd newydd o ddarparu cyllid ar gyfer awdurdodau lleol, yn hytrach na darparu cyllid grant traddodiadol. Gall Awdurdodau Lleol fenthyg y cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy'r 'trafodiad ariannol' y mae'n rhaid ei ad-dalu i LIC o fewn cyfnod penodol o amser.

**Rhwyd Diogelwch** – Cydnabyddir y bydd angen rhyw fath o gymorth ariannol uniongyrchol mewn achosion lle na fydd perchentywyr sy'n amlwg yn agored i niwed yn gallu helpu eu hunain trwy ddefnyddio eu dulliau ariannol eu hunain. Bydd cymorth ariannol uniongyrchol ar gael ar gyfer cyfleusterau i'r anabl, ac er mwyn delio â materion atgyweirio brys, gan gynnwys gwaith a wneir yn ddiofyn, lle bu angen i'r awdurdod lleol gamu i mewn i wneud gwaith ar ran preswylydd/perchennog yr eiddo.

**Model Llesiant Gydol Oed a Llesiant – datblygu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar** – wrth ddatblygu a ffurfioli gwasanaethau integredig ar gyfer gofal cymdeithasol ac iechyd, mae ffocws cynyddol ar sicrhau bod pobl yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain lle bo hynny'n bosibl. Gan gofio hyn, daw addasrwydd y cartrefi hyn ar gyfer perchentywyr, o ran eu cyflwr ac i ba raddau y gellir eu haddasu, yn fwyfwy pwysig. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan y dyletswyddau a geir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015.

Mae'r Cyngor wrthi'n ceisio newid ar raddfa fawr i greu Model Gydol Oed a Llesiant newydd. Gweledigaeth y model yw 'sicrhau y bydd pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn. Sicrhau mynediad teg i bawb at wasanaethau cyffredinol ac wedi'u targedu rhagorol sy'n cynnal iechyd a llesiant yr holl ddinasyddion. Datblygu sgiliau a gwydnwch a fydd yn para oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau y gallant eu hwynebu.' Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach y ffocws ar wella annibyniaeth a mynediad at wasanaethau.

**Eiddo Gwag** – Mae canran sylweddol o eiddo gwag yn y Sir. Mae eiddo gwag yn adnodd gwastraff. Cynnig allweddol yn Strategaeth Dai'r Cyngor yw gweithio'n agos gyda phartner i brynu, adnewyddu a/neu rentu eiddo fu unwaith yn wag.

**Cynlluniau adfywio ar sail ardal a/neu effeithlonrwydd ynni** – Mae'n amlwg bod ardaloedd yn y sir lle mae angen mabwysiadu dull mwy strategol ar gyfer gwella tai. O bryd i'w gilydd, bydd cyllid ar gael megis Cartrefi Clyd Arbed sy'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni'r stoc tai neu gydnabod effaith allweddol tai ar waith adfywio ardaloedd. Ymdrecha'r awdurdod lleol i geisio am gyllid o'r fath, er mwyn sicrhau bod cyllid yn parhau i gael ei ddenu i'r ardal ar gyfer gwelliannau cyfalaf adfywio a/neu dai.

## 5. Y CYMORTH ARIANNOL SYDD AR GAEL A'R AMODAU SYDD YNGHLWM

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ystyried pob cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) mandadol, a weinyddir dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (fel y'i diwygiwyd) a cheir manylion penodol am y grant yn y Ddeddf Seneddol honno ac mewn cyfarwyddyd cysylltiedig. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu pedwar grant arall ar gyfer cyfleusterau i'r anabl – Cymorth gyda Chyfleusterau i'r Anabl, Grant Adleoli, Grant Cyfleusterau i'r Anabl (gwaith canolig) a Grant Cyfleusterau i'r Anabl (gwaith bach). Bydd pob cais am gymorth yn

ddarostyngedig i asesiad o angen gan aelodau o Borth Cynnal a Phorth Gofal y Cyngor. Rho'r polisi hwn y meini prawf i sicrhau bod grantiau'n cael eu dyfarnu gyda thegwch a chysondeb.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau bod anghenion y rheiny fu'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn cael eu cydnabod. Bydd y Polisi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl hwn yn sicrhau y rhoddir blaenorriaeth i'r ceisiadau hynny a ddaw gan y rheiny fu'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, lle y mae eu hanabledd yn ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

At hynny, er mwyn gwireddu amcanion y polisi hwn ac, yn sgil hynny, nodau strategol ehangach Amcanion Corfforaethol yr Awdurdod Lleol a Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a dogfennau cysylltiedig, mae'r Cyngor yn rhoi'r cymorth canlynol fel grantiau a benthyciadau (mae'r rheiny sydd wedi eu labelu fel rhai sydd 'yn ôl disgresiwn' yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael).

## **HWYLUSO – Addasiadau Mawr (cyllid mandadol)**

- Grant Cyfleusterau i'r Anabl (Mawr)

## **HWYLUSO – Addasiadau Bach a Chanolig (cyllid yn ôl disgresiwn)**

- Cymorth Addasiadau ar gyfer Pobl Anabl
- Grant Addasiadau i'r Anabl (Canolig)
- Grant Addasiadau i'r Anabl (Bach)
- Grant Adleoli

## **Atgyweiriadau Brys i'r Cartref (yn ôl disgresiwn)**

- Cymorth ar gyfer atgyweiriadau brys
- Benthyciad Oes
- Cymorth ategol gydag iechyd a thai

## **Benthyciadau Gwella Cartrefi (yn ôl disgresiwn)**

- Benthyciad Gwella Cartrefi (Diogel, Cynnes a Saff)
- Benthyciad Troi Tai'n Gartrefi (Cynllun Benthyciadau Eiddo Gwag)

Bydd argaeledd unrhyw gymorth Grant neu Fenthyciad yn amodol ar weithdrefn gosod cyllideb flynyddol y Cyngor. Cynigir pob grant/benthyciad nad yw'n fandadol yn ôl disgresiwn y Cyngor, ac mae'r fframwaith ar gyfer y grantiau/benthyciadau hyn yn amodol ar y Polisi hwn.

Ceir manylion pob grant/benthyciad yn yr Atodiadau.

Dyfernir rhai grantiau a/neu fenthyciadau ar yr amod y bydd yr ymgeisydd yn ad-dalu'r grant/benthyciad i'r Cyngor yn llawn os yw'r eiddo'n cael ei werthu neu os nad yw'n cael ei ddefnyddio yn ôl y bwriad o fewn cyfnod penodol o amser. Rhoddir manylion llawn amodau'r grant/benthyciad i'r ymgeisydd, yn ysgrifenedig, adeg cymeradwyo'r grant/benthyciad.

Mae cyfnod amodau'r grant/benthyciad yn dechrau ar y dyddiad y cwbllheir y gwaith i fod rhwng y Cyngor. Gan ddibynnu ar y math o grant neu fenthyciad, cyflwynir pridiannau gyda'r Gofrestrfa Tir cyn cymeradwyo'r grant/benthyciad neu fel Pridiant Tir Lleol pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau (gan ddibynnu ar y math o grant/fenthyciad) a'i werth.

Cofrestrir Pridiant Tir Lleol yn erbyn yr eiddo mewn perthynas â Grantiau a Benthyciadau sy'n llai na £5,000 pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau. Bydd y pridiant tir hwn yn gwarantu'r arian a geir gan yr awdurdod lleol, ac yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir. Cofrestrir unrhyw grant/benthyciad a delir dros £5,000 yn uniongyrchol fel Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir.

Mewn rhai amgylchiadau, gellir ystyried hepgor amodau ar y grant/benthyciad. Y Rheolwr Tîm fydd yn gwneud unrhyw benderfyniadau ar hepgor ad-daliad wedi dod i gytundeb gyda'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Aelod Cabinet priodol mewn cydweithrediad â'r Gwasanaethau Ariannol, gyda disgrifiwn i ddwyn y penderfyniadau hyn gerbron y Panel Grantiau/Benthyciadau perthnasol fel y bo'n briodol.

Mae amodau Grant Cyfleusterau i'r Anabl a osodir o dan y Polisi hwn yn parhau fel y diffinnir yn Neddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ac unrhyw Reoliadau cysylltiedig a wneir o dan y Ddeddf hon, yn ogystal â'r rheiny y manylir arnynt yn y Polisi hwn. Er bod y Polisi hwn yn rhoi arweiniad ar yr amodau, mae cyfarwyddyd manwl a datganiad cyfreithiol ar gael ynghylch y ddeddfwriaeth hon.

Ar gyfer rhai mathau o grantiau a benthyciadau yn ôl disgrifiwn, gosodir amodau ar grant/benthyciad naill ai trwy bridian tir lleol neu Bridiant Cyfreithiol llawn gyda'r Gofrestrfa Tir, gan ddibynnu ar werth y benthyciad/grant. Diffinnir y pwerau sy'n galluogi'r awdurdod lleol i sicrhau'r pridiannau hyn o fewn Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002, a chânt eu hamlinellu at sylw'r sawl sy'n ymgeisio am y grant/benthyciad o fewn y llythyr sy'n Cynnig y Grant/Benthyciad a/neu'r Cytundeb. Fel amod ar gyfer y cynnig o grant/benthyciad bydd yn rhaid i'r ymgeisydd gytuno bod pridiant tir lleol neu bridian cyfreithiol yn cael ei warantu ar yr eiddo, ac unrhyw olynwyr â theitl os na ad-dalwyd yr arian cyn yr amser hwn.

## Tudalen 18

<b>5.1 Tabl o Amodau Grant/Benthyciad Math o Grant</b>	<b>Cyfnod yr Amod</b>	<b>Amodau Grant/Benthyciad</b>
<b>ADDASIADAU HWYLUSO</b>		
Grant Cyfleusterau i'r Anabl Mandadol (Mawr)	10 mlynedd	<p>Uchafswm Grant = £36,000            Rhaid i'r ymgeisydd barhau i fyw yn yr eiddo fel ei unig breswylfa am gyfnod cyfan yr amod ar y grant.</p> <p>Rhaid defnyddio gwasanaethau'r gwasanaeth gwella cartrefi mewnol ar gyfer pob GCA mandadol.</p> <p>Rhaid i asesiad ac argymhelliaid Therapydd Galwedigaethol gefnogi cymorth i addasu.</p>
Cymorth Addasiadau ar gyfer Pobl Anabl (yn ôl disgresiwn)	Adeg gwerthu/trosglwyddo/gwaredu'r eiddo	<p>Uchafswm cymorth ariannol o £15,000 (gyda'r gallu yn ôl disgresiwn i gynyddu hyn gyda chytundeb y Panel Grantiau). DS, nid yw hwn yn gymorth grant, ond yn gymorth ariannol a ddarperir am y cyfnod y mae'r sawl sy'n ei dderbyn yn byw yn yr eiddo.</p> <p>Cymorth ariannol i'w ad-dalu wedi gwerthu/trosglwyddo'r eiddo. Bydd Pridian Cofrestrfa Tir yn gymwys. Rhaid defnyddio gwasanaethau'r Gwasanaeth Gwella Cartrefi Mewnol er y gellid ystyried eithriadau.</p> <p>Rhaid i asesiad ac argymhelliaid Therapydd Galwedigaethol gefnogi cymorth i addasu.</p>
Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ôl Disgresiwn (Canolig)	Dim amod:	<p>Uchafswm Grant = £36,000            Rhaid defnyddio gwasanaethau'r Gwasanaeth Gwella Cartrefi Mewnol ar gyfer pob GCA yn ôl disgresiwn.</p> <p>Rhaid i asesiad ac argymhelliaid Therapydd Galwedigaethol, Cynorthwydd Therapydd Galwedigaethol neu Aseswyr Dibynadwy gefnogi cymorth i addasu.</p>

## Tudalen 19

Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ôl disgresiwn (Bach)	Dim amod:	<p>Uchafswm Grant = £5,000</p> <p>Rhaid i'r ymgeisydd fyw yn yr annedd fel ei unig neu brif breswylfa.</p> <p>Rhaid i asesiad ac argymhelliaid Therapydd Galwedigaethol, Cynorthwydd Therapydd Galwedigaethol neu Aseswyr Dibynadwy gefnogi cymorth i addasu.</p>
Grant Adleoli	10 mlynedd	<p>Uchafswm Grant = £10,000</p> <p>Mae rhagdybiaeth yn erbyn dyfarnu Grant Cyfleusterau i'r Anabl lle nad yw'r eiddo'n addas yn y tymor hir i anghenion yr ymgeisydd.</p> <p>Er mwyn cynorthwo person anabl i symud i eiddo sy'n fwy addas lle y mae'n fwy cost-effeithiol nag addasu'r cartref presennol, ystyrir talu costau cyfreithiol a symud yn ychwanegol at y costau addasu.</p>
<b>Cymorth ar gyfer Atgyweiriadau Brys (yn ôl disgresiwn)</b>		
Cymorth ar gyfer atgyweiriadau brys (yn ôl disgresiwn)	Adeg gwerthu/trosglwyddo/gwaredu'r eiddo	<p>Uchafswm cymorth ariannol = £5,000.</p> <p>DS, nid yw hwn yn gymorth grant, ond yn gymorth ariannol a ddarperir am y cyfnod y mae'r derbynnydd yn byw yn yr eiddo.</p> <p>Rhaid i'r ymgeisydd fyw yn yr annedd fel ei unig neu brif breswylfa a rhaid bod ganddo fudd perchenog yn yr annedd, neu raid ei fod yn denant yr annedd hwn fel unigolyn neu ar y cyd ag eraill ac yn meddu ar 'ddyletswydd pŵer' i gyflawni'r holl waith dan sylw (e.e. yn achos tenantiaid, fel arfer mae dyletswydd neu 'rwymedigaeth i atgyweirio' ar y landlord ac nid y tenant), neu feddiannu'r annedd o dan deitl ecsgliwsif i feddiannu a roddwyd am oes.</p>

## Tudalen 20

		Mewn perthynas â chartref symudol, rhaid i'r meddiannyydd fodloni cyfnod cymhwysyo preswylio o 3 blynedd.
Benthyciad Oes	Adeg gwerthu/trosglwyddo/gwaredu'r eiddo	<p>Uchafswm benthyciad = £15,000</p> <p>Ar gyfer benthyciadau hyd at £5,000 caiff pridian tir lleol ei warantu ar yr eiddo a bydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl. Cofrestrir y pridian hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.</p> <p>Ar gyfer benthyciadau dros £5,000 cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir.</p>
Cymorth ategol gydag iechyd a thai	Adeg gwerthu/trosglwyddo/gwaredu'r eiddo	<p>Dim uchafswm ond yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.</p> <p>Ar gyfer benthyciadau hyd at £5,000 caiff pridian tir lleol ei warantu ar yr eiddo a bydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl. Cofrestrir y pridian hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.</p> <p>Ar gyfer benthyciadau dros £5,000 cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir.</p>
Grantiau nad ydynt ar gael mwyach er bod amodau'r grantiau mewn grym o hyd.		
Grantiau Menter Arbennig (Ardal Adnewyddu Aberystwyth yn unig) <ol style="list-style-type: none"> <li>Effeithlonrwydd ynni</li> <li>Trawsnewid – defnydd un aelwyd</li> <li>Trawsnewid – fflatiau hunangynhaliol</li> </ol>	10 mlynedd	Gosodir swm y grant fel Pridiant Tir Lleol ar yr eiddo am gyfnod o 10 mlynedd.
<b>BENTHYCIADAU</b>		
Troi Tai'n Gartrefi (Cynllun Benthyciad Eiddo Gwag)	Am gyfnod cyfan y benthyciad	Uchafswm benthyciad = £25,000 yr uned o lety Gwarantir benthyciadau fel pridian cyntaf neu ail bridian yn erbyn Teitl y Gofrestrfa Tir.

		Uchafswm benthyciad lle mae rhenti yn seiliedig ar Gyfradd Lwfans Tai Lleol = £35,000 yr uned o lety.
Benthyciad Gwella Cartrefi	Am gyfnod cyfan y benthyciad	<p>Uchafswm benthyciad = £35,000 yr uned o lety</p> <p>Ar gyfer benthyciadau hyd at £5,000 caiff pridiant tir lleol ei warantu ar yr eiddo a bydd yn rhwymo'r ymgeisyyd ac unrhyw olynwyr â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.</p> <p>Ar gyfer benthyciadau dros £5,000 cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir.</p>

## 5.2 Hepgor Amodau'r Grant/Benthyciad

Mewn rhai amgylchiadau, gall y Cyngor ddefnyddio'i ddisgresiwn i hepgor ad-daliad grant/benthyciad. Caiff pob achos ei ystyried yn unigol ac mae'n gyfrifoldeb ar y sawl sy'n ymgeisio am y grant/benthyciad i brofi bod rhesymau cyfreithlon dros ei anallu i gadw at yr amodau. Bydd y Rheolwr Corfforaethol â chyfrifoldeb dros grantiau a benthyciadau ar gyfer addasiadau yn gwneud penderfyniad ar y cyd â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Aelod Cabinet priodol mewn cydweithrediad â'r Gwasanaethau Ariannol pan dderbynnyr cais ysgrifenedig sy'n cynnwys y dogfennau ategol gofynnol.

Gellir cael copi o amodau'r grant/benthyciad gan y Gwasanaeth Tai o dan y Porth Gofal ac maent yn benodol i'r math o grant/benthyciad a dderbynnyr.

Mae pethau penodol y mae'r Cyngor yn eu hystyried cyn gorfodi'r gofyniad i ad-dalu Grant Cyfleusterau i'r Anabl mawr. Un o'r pethau hyn yw ei fod yn fodlon ei bod yn rhesymol gofyn am ad-daliad, a bydd yn ystyried y canlynol yn unol â Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996/Caniatâd Cyffredinol Grant Cyfleusterau i'r Anabl (Amodau'n ymwneud â chymeradwyo neu dalu'r Grant) 2008: -

- i ba raddau y byddai'r sawl sy'n derbyn y grant yn dioddef caledi ariannol petai gofyn iddo ad-dalu cyfran o'r grant neu'r cyfan ohono;
- a fyddai gwaredu'r eiddo yn galluogi i dderbynnyd y grant gymryd swydd, neu newid lleoliad cyflogaeth y derbynnyd;

- a fyddai'r eiddo'n cael ei waredu am resymau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu lesiant meddwl derbynnydd y grant neu breswylydd anabl yr eiddo; ac
- a fyddai'r eiddo'n cael ei waredu i alluogi derbynnydd y grant i fyw gyda, neu gerllaw, unrhyw un sy'n anabl neu'n eiddil ac arnynt angen gofal y mae derbynnydd y grant yn bwriadu ei ddarparu, neu y mae'r person y mae derbynnydd y grant wedi symud i fyw gydag ef neu hi yn bwriadu darparu gofal y mae ar dderbynnydd y grant ei angen oherwydd anabledd neu eiddilwch.
- Yn ogystal, ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn ôl disgrifiwn, ystyrir adeg derbyn y cais gan yr ymgeisydd/aelod o'r teulu petai amodau'r grant yn cael eu gorfodi a fyddai'n arwain at galedi ariannol diangen; gwaredir yr eiddo am resymau sy'n gysylltiedig ag iechyd neu lesiant corfforol neu feddyliol derbynnydd y grant neu feddiannwr anabl yr eiddo/aelod o'r teulu.

## 6. ASIANTAETHAU GWELLA CARTREFI

Yn aml, gall fod yn anodd dod o hyd i gcontractwr adeiladu dibynadwy, cael amcanbrisiau a chomisiynu cynlluniau. Felly, mae'r Cyngor yn annog y rheiny sy'n ymgeisio am grant/benthyciad i ddefnyddio Gwasanaeth Goruchwyliau Gwasanaeth Tai neu wasanaeth Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, i'w helpu gyda'r broses o ymgeisio am grant. Gall y Cyngor a Gofal a Thrwsio benodi contractwyr a goruchwyliau unrhyw waith a wneir gyda chymorth grant, ar ran cleientiaid, fel bod y broses mor hwylus â phosib.

Fel arall, gall penseiri neu syrfewyr adeiladau â'r cymwysterau priodol ddarparu'r gwasanaeth hwn yn breifat i ymgeiswyr y grantiau. Gellir ystyried ffioedd gwasanaethau goruchwyliau (hyd at uchafswm penodol) fel cost sy'n gymwys ar gyfer y grant, a'i gynnwys yn swm y grant a ddyfernir.

### 6.1 Gwasanaeth Goruchwyliau Gwelliannau i Gartrefi Ceredigion

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn hygrych ac yn caniatáu i bob aelwyd dderbyn y grantiau yn effeithiol, gan gynnwys aelwydydd pobl hyglwyf a/neu oedrannus, mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth goruchwyliau llwyr yn fewnol.

Daw mwyafrif y ceisiadau am grant gan y Cyngor o aelwydydd hyglwyf neu oedrannus, ac wrth ddewis defnyddio Gwasanaeth Goruchwyliau'r Cyngor, mae'n cael gwared ar y pryder a'r straen sy'n gallu codi wrth geisio am grant a goruchwyliau gwaith adeiladwr wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae nifer uchel o ymgeiswyr am grantiau wedi defnyddio gwasanaethau'r Gwasanaeth Goruchwyliau i weithredu ar eu rhan. Bydd staff yn trefnu prawf perchnogaeth, darlunio cynlluniau, cyflwyno ceisiadau ar gyfer Caniatâd Adeiladu a Rheoliadau Adeiladu a gwneud yr holl waith ffurfiol wrth benodi contractwr adeiladu addas (ar ran preswylwyr). Caiff y gwaith adeiladu ei wneud i amserlen y cytunir arni a chaiff ei oruchwyliau gan ein syrfewyr cymwys hyd nes iddo gael ei gwblhau i safon foddhaol

## 6.2 Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

Gweithia'r Cyngor yn agos gyda Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, sy'n bodoli er mwyn cynorthwyo pobl hŷn a phobl anabl i atgyweirio a gwella eu cartrefi. Mae Gofal a Thrwsio yn arbenigo mewn helpu preswylwyr dros 65 oed i ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau. Maent hefyd yn gweinyddu'r Rhaglen Addasiadau Cyflym, Cynllun Diogelwch yn y Cartref, Cynllun Tasgmon ac yn cynnig help a chyngor ar fudd-daliadau, cynnal a chadw'r cartref a chyllid llesiannol posibl.

Mae Gofal a Thrwsio hefyd yn cyflwyno ymholiadau yngylch grantiau ar gyfer eu cleientiaid ac, mewn rhai amgylchiadau, yn cynnig gwasanaeth i benodi a goruchwyllo contractwyr sy'n gallu gwneud gwaith y telir amdano gydag arian preifat.

Mae'r Cyngor yn falch o weithio mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Gofal a Thrwsio, sy'n darparu gwasanaethau atgyweirio, gwybodaeth ac eiriolaeth gwerthfawr sy'n rhan annatod o nodau'r polisi hwn. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gofal a Thrwsio ar 01970 639920.

## 7. GRANTIAU/BENTHYCIADAU A YSTYRIR MEWN AMGYLCHIADAU ARBENNIG

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd achlysuron pan na fydd ei bolisi cyffredinol yn darparu fframwaith ar gyfer amgylchiadau arbennig neu unigryw sy'n codi. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen ystyried darparu cymorth y tu allan i gwmpas y polisi. Mae'r enghreifftiau o amgylchiadau arbennig yn cynnwys gwella a thrwsio eiddo drws nesaf i'w gilydd, ynghyd ag addasiadau, trawsnewid, estyniadau, cynlluniau gwella tai ynni-effeithlon ac ailadeiladu waliau cynnal. Dyfernir cymorth ariannol mewn amgylchiadau arbennig ar argymhelliad swyddog yn unig, a rhaid cytuno iddo ymlaen llaw trwy broses penderfyniadau'r Cabinet y cytunodd y Cyngor arni, trwy awdurdod dirprwyedig a geir o fewn Cyfansoddiad y Cyngor i'r Swyddog Corfforaethol Arweiniol priodol a/neu Reolwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am addasiadau tai a benthyciadau; a'r Aelodau priodol o'r Cabinet ar gyfer y gwasanaethau hyn.

## 8. GWAITH SY'N GYMWYS AR GYFER GRANT/BENTHYCIAD YNG NGHEREDIGION

Swyddogion Addasiadau a Gwelliannau Tai, Safonau Tai ac Effeithlonrwydd Ynni'r Cyngor sy'n penderfynu ar yr holl waith sy'n gymwys ar gyfer grant/benthyciad, a byddant yn llunio manyleb ar gyfer y gwaith cymwys ymhob achos unigol. Bydd cost y gwaith yn cael ei phennu trwy ddefnyddio trefnlen safonol o brisiau, a chymharu hyn gyda dyfynbrisiau a geir gan adeiladwyr ar gyfer y gwaith hwn. Bydd hyn yn sylfaen i ddyfarniad y grant/benthyciad. Ceir eithriad i hyn ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl lle mae Therapydd Galwedigaethol, Cynorthwydd Therapydd Galwedigaethol neu Aseswyr Dibynadwy yn argymhell y gwaith cymwys yn unol ag anghenion yr ymgeisydd. Wrth ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, mae'r Cyngor wedi ymgymryd â phroses gaffael lle y mae pob GCA yn cael ei ddarparu trwy gontract Fframwaith Mân Waith corfforaethol arbennig a adolygir bob dwy flynedd. Mae hyn

yn golygu y gall y Cyngor ddefnyddio contractwr arbennig sydd â'r arbenigrwydd a'r sensitifrwydd angenrheidiol i wneud y gwaith ar gyfer GCA, ac yn ei dro mae hyn yn sicrhau y darperir gwasanaethau cwsmeriaid o safon uchel iawn. Lle y bo'n briodol, cyfrifir cyfraniad cleientiaid tuag at y gwaith a chaiff ei nodi yn ystod y broses gymeradwyo. Cesglir y cyfraniadau ymlaen llaw, cyn cychwyn y contract, a bydd y Cyngor yn ei gadw i sicrhau y telir yn brydlon wedi cwblhau'r gwaith.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond gwaith cymwys sy'n gallu cael ei ystyried ar gyfer cymorth grant/benthyciad, a bydd swyddogion y Cyngor yn gallu rhoi cyngor penodol i ymgeiswyr ar eu cais grant unigol, gan ddibynnu ar gyflwr yr eiddo.

Gall y perchentywr gomisiynu gwaith heb gymorth grant/benthyciad ar yr un pryd, ond byddai'n gorfol ariannu'r costau hyn ei hun. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw waith a wneir ochr yn ochr â gwaith y grant/benthyciad, ond nid yw'r grant neu'r benthyciad yn talu amdano.

Rhaid gwneud yr holl waith yn ôl y fanyleb a osodir gan yr awdurdod lleol ac i'r safon ofynnol yn unol â safonau Rheoli Adeiladu.

Gellir cynnig gwaith effeithlonrwydd ynni gyda mathau eraill o gymorth grant/benthyciad os yn briodol, a gallai'r gwaith a nodwyd ddenu cymorth grant/benthyciad gan y Cyngor, neu o ffynonellau cyllid allanol y gallai'r Cyngor ddod o hyd iddynt a'u hawlio ar ran y preswylydd. Rhoddir cyngor ymhob achos unigol.

**Nid** yw cymorth grant ar gael tuag at gost symud dodrefn, costau llety arall dros dro neu gostau addurno fel papuro'r waliau a pheintio nac, ar gyfer ailiosod cofi, rheiliau lluniau, rhosynnau nenfwd ayb, ar ôl cwblhau'r gwaith atgyweirio hanfodol. Yr unig eithriad i hyn yw'r Grant Adleoli a all dalu am gost dodrefn, symud a storio.

Rhaid i ymgeiswyr ystyried y costau ychwanegol fydd yn codi cyn derbyn cynnig grant a chyn symud ymlaen gyda'r gwaith â chymorth grant.

## 9. CYLLID

Bydd cyllid yn ôl disgrifiwn yn cael ei fonitro'n agos a bydd ar gael yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael yn unig. Lle mae'r Therapydd Galwedigaethol/Cynorthwydd Therapydd Galwedigaethol wedi darparu argymhelliaid, bydd yn nodi a yw hyn yn 'gyffredinol' neu'n 'flaenoriaeth'. Caiff cynlluniau eu blaenoriaethu ar y sail hon.

## 10. FFIOEDD A THALIADAU

Wrth geisio am gymorth grant, bydd angen i ymgeiswyr dalu rhai ffioedd a thaliadau.

Gall ffioedd a thaliadau gynnwys unrhyw ffioedd sy'n briodol ym marn y Cyngor ac maent yn cynnwys:

- ffioedd cynllunio a rheoli adeiladu
- paratoi cynlluniau
- arolygon strwythurol
- gwasanaethau cyfreithiol

Bydd ffioedd am wasanaethau yn gymwys am gymorth grant dim ond os yw'r gwasanaethau hynny'n hanfodol i gwblhau'r broses o gymeradwyo'r grant yn ffurfiol.

Wrth ystyried cais am gymorth ar gyfer grantiau a delir yn ôl disgresiwn, caiff pob cost briodol a chymwys ei hystyried. Yn achos grantiau a delir yn ôl disgresiwn, mae uchafsymiau yn cyfeirio at gost y gwaith a dyfarnir ffioedd priodol yn ychwanegol at gyfanswm cost y gwaith. Yn achos y Grant Cyfleusterau i'r Anabl mandadol, rhaid cynnwys ffioedd yn uchafswm y grant. Ni all cyfanswm cost y gwaith a'r holl ffioedd fod yn fwy nag uchafswm y grant a ganiateir ar gyfer grant mandadol.

Rhaid i ymgeiswyr nodi na fydd unrhyw ffioedd, taliadau neu gostau sy'n codi fel rhan o'r broses o ymgeisio am grant yn cael eu had-dalu oni ddarperir anfonebau priodol ac mae'r cais am y grant yn symud yn ei flaen hyd nes cwblhau'r gwaith.

Mae hefyd yn ôl disgresiwn y Cyngor i ddyfarnu ffioedd cymorth grant rhesymol yn unig, ac efallai na fydd yn talu'r gost lawn os codir ffioedd afresymol neu ormodol.

Bydd ymgeisydd yn gyfrifol am unrhyw gostau sy'n codi os na fydd cais am grant yn symud ymlaen i'w gwblhau.

Yn sgil cyflwyno Benthyciadau Gwella Cartrefi Diogel, Cynnes a Saff, fel rhan o'r cynlluniau cenedlaethol hyn gall y Cyngor godi ffi weinyddu am sefydlu a gweinyddu'r benthyciad (bydd swm y ffi weinyddu hon wedi ei chynnwys yn nogfen ffioedd a thaliadau'r Cyngor a gyhoeddir ar wefan y Cyngor ar gyfer benthyciadau Gwella Cartrefi a Throi Tai'n Gartrefi).

Er mwyn annog perchen-feddianwyr i dderbyn cynnyrch Benthyciad Gwella Cartrefi, y bwriad yw cael yr awdurdod lleol i dalu'r ffi hon fel Grant Cais am Fenthyciad. Bydd y cymhelliant hwn yn dibynnu ar argaeledd arian yr awdurdod lleol at y diben hwn, a gellir tynnu'r cynnig yn ôl ar unrhyw adeg. Mewn amgylchiadau lle y mae landordiaid hefyd yn awyddus i weithio gyda'r awdurdod lleol i gynyddu argaeledd eiddo i'w rhentu'n fforddiadwy, mae cymhelliant ar gael hefyd lle bydd ffioedd landordiaid yn cael eu hepgor os yw'r eiddo'n cael ei gynnig i'w rhentu ar gyfradd y Lwfans Tai Lleol am gyfnod cyfan y benthyciad, ac mae'r landlord yn rhentu'r eiddo i denantiaid ar Gofrestr Tai Fforddiadwy'r Cyngor neu, fel arall, tenant a fyddai'n gymwys i fod ar y Gofrestr hon. Bydd gofyn i'r landlord lunio cytundeb 'Hawliau Enwebu'.

Ceir gwybodaeth bellach am ffioedd, taliadau, gofynion cymhwystra ac amodau pellach a Gweithdrefn Benthyciadau gyda'r manylion perthnasol yn Atodiadau A-B isod.

## 11. CWYNION

Nod y Cyngor yw ateb anghenion ei holl gwsmeriaid. Serch hynny, efallai y bydd adegau pan na fydd rhywun yn fodlon â'r gwasanaeth y mae wedi'i gael neu'r ffordd y daethpwyd i benderfyniad o ran y cais. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir cwyno trwy ddilyn ein gweithdrefn gwyno ffurfiol, naill ai trwy'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r Polisi Cwynion Corfforaethol, er mwyn cael ymchwiliad ac ymateb pellach. Y nod yw mynd i'r afael â chwynion mewn ffordd ragweithiol a cheisio sicrhau datrysiaid cynnar lle nad yw defnyddwyr gwasanaethau yn fodlon gyda chanlyniad ein penderfyniad/gweithred. Felly, bydd pob cwyn yn derbyn ymateb ffurfiol, yn ysgrifenedig.

## 12. TREFNIADAU PONTIO A'R POLISI BLAENOROL

Bydd ceisiadau llawn am grant sydd wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol neu eu cyflwyno i'r Cyngor er mwyn derbyn penderfyniad cyn 1 Ionawr 2022 yn ddarostyngedig i'r Polisi a oedd mewn grym adeg cymeradwyo'r grant (Polisi Cymorth Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Ebrill 2018 gyda diwygiadau yn y blynnyddoedd ar ôl hynny i adlewyrchu newidiadau mewn polisi).

Bydd ymholiadau am grant/benthyciad sydd wedi cael eu tirlifesur, cynllun gwaith cymwys wedi cael ei gyhoeddi a chais ffurfiol am grant llawn\* wedi ei wahodd cyn 1 Rhagfyr 2021 yn ddarostyngedig i'r mein prawf yn y polisi blaenorol. Bydd unrhyw ymholiadau yn y categori hwn ar gyfer pob grant (ac eithrio Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl) nad ydynt yn cyflwyno'r holl ddogfennau gofynnol i lunio cais llawn erbyn 1 Ionawr 2022 yn cael eu canslo, a bydd yn rhaid iddynt ymgeisio eto o dan amodau a thelerau'r Polisi hwn.

Bydd ffurflenni ymholiad ar gyfer yr holl grantiau a delir yn ôl disgrifiwn a dderbynir gan y Cyngor cyn 1 Rhagfyr 2021, ond lle na chyhoeddwyd cynllun gwaith, yn ddarostyngedig i'r mein prawf cymhwystra, yr amodau a'r telerau yn y Polisi hwn.

\* Ystyrir 'cais am grant llawn' fel yr holl ddogfennau gofynnol er mwyn i'r Cyngor allu gwneud penderfyniad ffurfiol (cymeradwyo neu wrthod) ynghylch y cais. Gall y ddogfennaeth hon gynnwys (lle y bo'n briodol) y ffurflen gais, tystiolaeth o'r holl incwm a chynillion, prawf perchnogaeth, dystysgrif meddiannaeth yn y dyfodol, amcanbrisiau contractwyr, darluniau ayb ynghyd ag unrhyw wybodaeth benodol arall y gofynnwyd amdani mewn perthynas â'r ymholiad arbennig hwn.

## 13. DATBLYGU'R POLISI YMHELLACH

Bwriad y Cyngor yw adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd i sicrhau y ceir y buddion pennaf o'r cymorth ariannol sydd ar gael trwy sicrhau 'cynnydd ychwanegol' o'r rhaglen tai cyfalaf a chronfeydd benthyciadau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys ceisio'r holl gyfleoedd buddsoddi allanol, gweithio gyda phartneriaid a darparu cymorth ariannol sy'n sicrhau'r canlyniadau pennaf yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

## Tudalen 27

Bydd adolygiadau rheolaidd yn ystyried newidiadau i flaenoriaethau tai strategol cenedlaethol a lleol, y nifer sy'n derbyn grantiau a chyfngiadau ar y gyllideb.

Bydd grantiau hefyd yn cael eu gwerthuso, gan gynnwys Asesiadau Effaith Integredig i adnabod 'cynnydd ychwanegol' o gyfrannu at amcanion strategol ehangach y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella'n barhaus o fewn y cyfngiadau ariannol sy'n bodoli/y gellir eu rhagweld sy'n cael eu gosod ar yr Awdurdod Lleol.

**ATODIAD A – HWYLUSO – Cymorth i Fyw'n Annibynnol****GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL A DIOGEL, CYNNES A SAFF**

<b>GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL MANDADOL (GCA – Mawr)</b>	
<b>Diben/prif ddeilliannau</b>	<p>Mae GCAau ar gael ar gyfer gwaith mawr i addasu eiddo at anghenion penodol person anabl sy'n byw yn yr eiddo. Rhoddir cymorth i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hwyluso mynediad</li> <li>• Darparu cyfleusterau addas</li> <li>• Gwneud adeilad yn ddiogel i'w ddefnyddio</li> <li>• Gwneud gwelliannau amgylcheddol i alluogi'r person anabl i fyw'n ddiogel yn eu cartref</li> </ul> <p>Mae gwaith mawr yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Estyniad i'r eiddo gwreiddiol</li> <li>• Liffiau allanol</li> <li>• Gwaith lle mae gwaith strwythurol yn cael ei wneud i'r eiddo, gan gynnwys y gofyniad ar gyfer Rheoliadau Adeiladu a Chynllunio</li> </ul>
<b>Meini Prawf Cymhwysterau (ymgeisydd)</b>	<p>Er mwyn cael cynnig cymorth grant:</p> <p><b>Perchen-feddianwyr:</b> rhaid iddynt fod yn rhydd-ddeiliaid neu'n les-ddeiliaid gydag o leiaf 10 mlynedd ar ôl ar y les, a rhaid mai'r annedd yw eich unig breswylfa neu brif breswylfa.</p> <p><b>Tenantiaid:</b> gall unrhyw denant wneud cais am addasiad i bobl anabl (yn amodol ar ganiatâd y landlord).</p> <p><b>Landlordiaid:</b> lle y bydd tenant yn cyflwyno cais am GCA, rhaid bod y landlordiaid yn, neu byddant, yn rhydd-ddeilad neu'n les-ddeiliad gydag o leiaf 10 mlynedd ar ôl ar y les, a rhaid bod yr annedd(anheddu) yn cael eu gosod ar sail preswyl parhaol ac nid fel cartref gwyliau.</p> <p>Gall person anabl gyflwyno cais am grant hyd yn oed os yw tu allan i'r diffiniadau uchod: bydd amgylchiadau pob unigolyn yn cael eu hystyried fel sail ar gyfer cymorth grant, yn amodol ar asesiad angen gan therapydd galwedigaethol ac ar gais am gymorth grant.</p> <p><b>Adnoddau Ariannol</b></p> <p>Perchen-feddianwyr a Thenantiaid Preifat – Prawf Statudol Adnoddau Ariannol, fel sy'n gymwys i Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (HRGR 1996) yn gymwys. Swm y grant a ddyfernir fydd y gwahaniaeth rhwng y swm y gall yr ymgeisydd ei fforddio yn ôl yr asesiad a chyfanswm cost y gwaith cymwys.</p> <p>Ystyri'r cyfanswm incwm pob un sy'n berthnasol i'r cais.</p>

## Tudalen 29

	<p>Nid yw grantiau i blant yn ddarostyngedig i brawf o adnoddau ariannol yr rhieni.</p> <p>Yr oedolyn anabl sy'n byw mewn eiddo sy'n ddarostyngedig i'r prawf modd lle y mae'n rhannu'r breswylfa gyda pherchen-feddiannydd (gallant fod yn perthyn i'w gilydd neu beidio).</p> <p>Ni ystyrir oedran yr ymgeisydd.</p>
<b>Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)</b>	<p>Gwaith addasu sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r meddiannydd i barhau i fyw yn y cartref. Rhoddir cymorth i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hwyluso mynediad</li> <li>• Darparu cyfleusterau addas</li> <li>• Gwneud adeilad yn ddiogel i'w ddefnyddio</li> <li>• Gwneud gwelliannau amgylcheddol i alluogi'r person anabl i fyw'n ddiogel yn eu cartref</li> </ul> <p>Pennir gwaith cymwys yn amodol ar asesiad angen gan Therapydd Galwedigaethol y Cyngor.</p>
<b>Amodau</b>	<p>Ar gyfer pob GCA, bydd yr Awdurdod Lleol yn gosod pridiant tir lleol ar yr eiddo yn unol â <i>Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996: Caniatâd Cyffredinol 2008</i> a fydd yn parhau am 10 mlynedd yn dilyn cwblhau gwaith y grant.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwaredu'n Briodol</li> </ul> <p>Wrth geisio am grant neu fenthyciad, bydd gofyn i ymgeiswyr lofnodi Tystysgrif Bwriad i Feddiannu, yn nodi bod yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu yn bwriadu byw yn yr annedd fel ei unig breswylfa neu brif breswylfa trwy gydol cyfnod amodau'r grant, sef 10 mlynedd</p> <p><u>Neu</u></p> <p>Os yw'r ymgeisydd yn landlord, ei fod yn bwriadu gosod yr annedd fel preswylfa rhywun nad yw'n gysylltiedig ag ef ac yn cytuno i'r gwaith.</p> <p>Mae rhagdybiaeth y bydd cymorth grant yn cael ei adennill yn llawn gan yr awdurdod lleol os torrir yr amod hwn. Mae hyn yn amodol ar awdurdod dirprwyedig a roddwyd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol i ystyried hepgor ad-daliad o fewn cyfnod yr amod mewn achosion penodol y gellir eu cyflawnhau</p> <p>Rhaid cwblhau'r gwaith yn y cynllun gwaith y cymeradwywyd y grant ar ei gyfer o fewn 12 mis i'r dyddiad cymeradwyo.</p> <p>Amodau Grant Ychwanegol – Dirprwyir awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol benderfynu a ellir cyflawnhau ad-dalu rhan o'r grant neu'r cyfan ohono mewn achosion penodol lle na chydymffurfiwyd, yn seiliedig fel arfer ar adennill canran o'r costau mewn perthynas â'r amser sy'n weddill ar y cyfnod sy'n ddarostyngedig i'r amodau ar y grant. Mae gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol awdurdod pellach hefyd i bennu p'un ai y gwarentir ymchwiliad i dwyll. Mewn achosion lle mae amheuaeth o dwyll</p>

	<p>– polisi'r awdurdod yw mynd ar drywydd achosion lle mae amheuaeth o dwyll, eu hadnabod ac ymchwilio iddynt.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cynghori bod y grant hwn ar gael trwy Wasanaethau Goruchwyliau Mewnol Addasiadau'r Cyngor yn unig.</p>
<b>Uchafswm</b>	£36,000 yw uchafswm y cymorth grant sydd ar gael.

## CYMORTH YN ÔL DISGRESIWN GYDAG ADDASIADAU I'R ANABL

<b>Diben/prif ddeilliannau</b>	Darparu cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith addasu sy'n fwy na therfyn uchaf GCA. Gellir defnyddio hwn yn lle arian mandadol ar gyfer y rheiny nad ydynt yn gymwys i gael GCA mandadol am eu bod wedi methu'r prawf modd (neu nid ydynt yn gallu fforddio eu cyfraniad), ond nid ydynt yn gymwys am Fenthyciadau Gwella Cartrefi.
<b>Sylwch:</b>  Nid yw'r cyllid yn gymorth grant ond yn gymorth ariannol a ddarperir am y cyfnod y mae'r derbynnydd yn byw yn yr eiddo a bydd yn ad-daladwy pan gaiff yr eiddo ei werthu/ei drosglwyddo	Mae'r cyllid hwn ar gael mewn amgylchiadau eithriadol yn unig a thrwy gytundeb Panel Grantiau'r Cyngor mewn achosion lle mae adroddiad ac argymhelliaid y swyddog yn cynnig cyllid ychwanegol a delir yn ôl disgrifiwn dros £15,000 lle ystyri'r bod y gwaith yn hanfodol i ddarparu'r addasiadau angenrheidiol yn uwch na therfyn y GCA mandadol. Ar gyfer cyllid ychwanegol o lai na £15,000, rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Tai i ystyried pob achos.
<b>Meini Prawf Cymhwystra (ymgeisydd)</b>	Fel yn achos GCA mandadol, ond gallai hefyd gynnwys y rheiny sy'n methu'r prawf modd ond nad ydynt yn gallu talu ad-daliadau Benthyciad Gwella Cartrefi
<b>Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)</b>	Fel yn achos GCA mandadol ac yn unol ag argymhelliaid Therapydd Galwedigaethol y Cyngor a'r Rheolwr Corfforaethol Tai.
<b>Amodau</b>	Ar gyfer pob grant a delir yn ôl disgrifiwn, cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir, a bydd yn ad-daladwy wedi gwerthu neu drosglwyddo'r eiddo, am ba bynnag reswm, ar ba bynnag adeg.
	Mae'r Cyngor yn cynghori bod y grant hwn ar gael trwy Wasanaethau Goruchwyliau Mewnol Addasiadau'r Cyngor yn unig.
<b>Uchafswm</b>	£15,000 (gyda'r disgrifiwn i gynyddu hyn mewn amgylchiadau eithriadol wedi ystyriaeth y Panel Grantiau)

<b>GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL YN ÔL DISGRESIWN (GCA – Canolig)</b>	
<b>Diben/prif ddeilliannau</b>	<p>Mae GCAau yn ôl disgrisiwn ar gael ar gyfer gwaith canolig i addasu eiddo at anghenion penodol person anabl sy'n byw yn yr eiddo. Rhoddir cymorth i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hwyluso mynediad</li> <li>• Darparu cyfleusterau addas</li> <li>• Gwneud adeilad yn ddiogel i'w ddefnyddio</li> <li>• Gwneud gwelliannau amgylcheddol i alluogi'r person anabl i fyw'n ddiogel yn eu cartref</li> </ul> <p>Mae gwaith canolig yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cawodydd â mynediad gwastad</li> <li>• Liffiau ar y grisiau</li> <li>• Rampiau (rampiau cymedrol lle nad oes angen Rheolaeth Adeiladau a Chynllunio)</li> </ul>
<b>Meini Prawf Cymhwysterau (ymgeisydd)</b>	<p>Er mwyn cael cynnig cymorth grant:</p> <p><b>Perchen-feddianwyr:</b> rhaid iddynt fod yn rhydd-ddeiliaid neu'n les-ddeiliaid gydag o leiaf 10 mlynedd ar ôl ar y les, a rhaid mai'r annedd yw eich unig breswylfa neu brif breswylfa.</p> <p><b>Tenantiaid:</b> gall unrhyw denant geisio am addasiad i bobl anabl (yn amodol ar ganiatâd y landlord).</p> <p><b>Landlordiaid:</b> lle y bydd tenant yn cyflwyno cais am GCA, rhaid bod y landlordiaid yn, neu byddant, yn rhydd-ddeilad neu'n les-ddeiliad gydag o leiaf 10 mlynedd ar ôl ar y les, a rhaid bod yr annedd(anheddu) yn cael eu gosod ar sail preswyl parhaol ac nid fel cartref gwyliau.</p> <p>Gall person anabl gyflwyno cais am grant hyd yn oed os yw tu allan i'r diffiniadau uchod: bydd amgylchiadau pob unigolyn yn cael eu hystyried fel sail ar gyfer cymorth grant, yn amodol ar asesiad angen gan Therapydd Galwedigaethol, Cynorthwywyr Therapydd Galwedigaethol neu Aseswr Dibynadwy ac ar gais am gymorth grant.</p> <p><b>Adnoddau Ariannol</b></p> <p>Perchen-feddianwyr a Thenantiaid Preifat – Ni fydd yn amodol ar Brawf Adnoddau Ariannol</p>

Meini Prawf Cymhwystera (gwaith)	<p>Gwaith addasu sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r meddiannydd i barhau i fyw yn y cartref. Rhoddir cymorth i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hwyluso mynediad</li> <li>• Darparu cyfleusterau addas</li> <li>• Gwneud adeilad yn ddiogel i'w ddefnyddio</li> <li>• Gwneud gwelliannau amgylcheddol i alluogi'r person anabl i fyw'n ddiogel yn eu cartref</li> </ul> <p>Pennir gwaith cymwys yn amodol ar asesiad angen gan Therapydd Galwedigaethol, Cynorthwydd Therapydd Galwedigaethol neu Aseswr Dibynadwy y Cyngor.</p>
Amodau	<p>Mae'r Cyngor yn cynghori bod y grant hwn ar gael trwy Wasanaethau Goruchwyliau Mewnol Addasiadau'r Cyngor yn unig.</p> <p>Ni fydd amodau ad-dalu ar y grant hwn.</p>
Uchafswm	£36,000 yw uchafswm y cymorth grant sydd ar gael.

<b>GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL YN ÔL DISGRESIWN (Bach) – GRANT ADDASU DIOGEL, CYNNES A SAFF</b>	
Diben/prif ddeilliannau	<p><b>Diogel, Cynnes a Saff/Mân Addasiadau:</b> Nod y Cyngor yw hwyluso mynediad hawdd a chyflym trwy'r system grantiau i ddarparu mân addasiadau a/neu addasiadau brys.</p> <p>Mae gwaith bach yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheiliau cydio</li> <li>• Rheiliau</li> <li>• Llwybrau</li> <li>• Trothwyon drws â mynediad gwastad</li> <li>• Grisiau</li> <li>• Tapiau lifer</li> <li>• Atgyweiriadau i addasiadau sy'n bodoli</li> </ul>
Meini Prawf Cymhwystera (ymgeisydd)	<p>Nid yw grantiau Diogel, Cynnes a Saff hyd at £5,000 (a TAW a ffioedd) yn ddarostyngedig i brawf modd</p> <p>Ni all y Cyngor dalu am yr un addasiadau/gwaith ddwywaith.</p> <p>Ni all y Cyngor dalu am ymestyn contract gwasanaeth y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol nac am brynu offer newydd lle nad yw'r offer wedi cael ei wasanaethu a'i gynnal a chadw fel y dylai.</p>

<b>Meini Prawf Cymhwysterau (gwaith)</b>	<p>Cymorth Diogel, Cynnes a Saff – Gallai Mân Addasiadau gynorthwyo gyda'r canlynol:</p> <p>Mân addasiadau fel rheiliau cydio, grisiau a rampiau, tapiau lifer, atgyweirio addasiadau sydd eisoes yn bodoli.</p> <p>Unrhyw waith cymorth arall yn ôl disgrifiwn y Cyngor.</p> <p>Mae'r grant ar gael ar argymhelliaid Therapydd Galwedigaethol, Cynorthwywyr Therapydd Galwedigaethol, Gweithwyr Gofal Cymunedol neu Aseswyr Dibynadwy.</p>
<b>Amodau</b>	<p>Mae'r Cyngor yn cynghori bod y grant hwn ar gael trwy Wasanaethau Goruchwylion Mewnol y Cyngor yn unig ond, ar gais yr ymgeisydd, ystyrir hepgor yr amod hwn.</p> <p>Ni fydd amod ad-dalu ar y grant hwn.</p>
<b>Uchafswm</b>	Hyd at £5,000 a ffioedd a TAW.

<b>GRANT ADLEOLI (GCA)</b>	
<b>Diben/prif ddeilliannau</b>	<p>Mae rhagdybiaeth yn erbyn dyfarnu Grant Cyfleusterau i'r Anabl lle nad yw'r eiddo'n addas yn y tymor hir i anghenion yr ymgeisydd.</p> <p>Bydd yr Awdurdod hefyd yn cynnig cymorth tuag at adleoli'r person anabl mewn amgylchiadau priodol, h.y. lle nad yw costau addasu'r eiddo yn rhesymol neu'n ymarferol, neu lle efallai na fydd addasu'r eiddo presennol yn bodloni anghenion y person anabl neu ei deulu/gofalwr yn ddigonol.</p> <p>Felly, weithiau, gallai Therapydd Galwedigaethol adnabod perchentywr nad oes modd ateb ei anghenion gyda'i gartref presennol. Efallai na fydd addasiadau yn ymarferol mewn ambell eiddo, a gwneir y penderfyniad hwn ar y cyd â'r Gwasanaeth Addasiadau i'r Anabl. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd client yn gymwys i gael cymorth ariannol i symud o'i gartref presennol i eiddo mwy addas sydd naill ai wedi cael ei addasu i ateb ei anghenion neu lle mae'n ymarferol gwneud yr addasiadau.</p>

<b>Meini Prawf Cymhwysterau (ymgeisydd)</b>	<p>Ar gyfer perchen-feddanwyr, cynigir Grant Adleoli ochr yn ochr â GCA a fydd yn ddarostyngedig i'r un meini prawf cymhwystra, prawf modd ac amodau ar ôl cwblhau ag sy'n berthnasol i'r grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ôl disgrifiad/mandadol.</p> <p>Wrth bennu lefel y cymorth, ystyrrir ymarferoldeb a chost addasu'r eiddo presennol, a'r eiddo arfaethedig, a gwerth y ddau eiddo ar y farchnad.</p> <p>Byddai'n rhaid i'r person anabl a'i gymar gael prawf adnoddau ariannol i bennu ei gyfraniad ariannol.</p> <p>Mewn achosion lle mae'r person anabl yn blentyn, y rhieni neu'r gwarcheidiad â budd perchennog yn yr eiddo y mae'n symud iddo fydd yn ddarostyngedig i'r cyfrifiad prawf adnoddau.</p>
<b>Meini Prawf Cymhwysterau (gwaith)</b>	<p>Ni fydd y grant a gynigir yn fwy na chost addasu'r eiddo presennol. Ar gyfer tenantiaid y sector preifat, ystyrrir rhoi cymorth gyda chostau symud mewn achosion o galedi.</p> <p>Gellir defnyddio'r grant i dalu am gostau sy'n gysylltiedig â symud yn unig, er enghraift:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ffioedd y cwmni gwerthu tai</li> <li>• ffioedd cyfreithiwr</li> <li>• costau symud</li> <li>• costau cysylltu cyfleustodau hanfodol</li> <li>• blaendal ar gyfer eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat</li> </ul> <p>Mewn rhai achosion, efallai y byddwn hefyd yn ystyried cynorthwyo gyda chost carpedi a llenni a rhai darnau o gyfarpar newydd. Ond bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob achos.</p> <p>Cynhelir asesiad o'r eiddo newydd gan y Therapydd Galwedigaethol er mwyn gweld a oes modd ateb anghenion byw bob dydd y person anabl yn yr eiddo hwnnw. Mewn cysylltiad â'r Swyddog Addasiadau Tai a Gwella, pennir costau unrhyw addasiadau y byddai eu hangen yn yr eiddo newydd.</p>
<b>Amodau</b>	<p>Cyflwynir pridiant gyda'r Gofrestrfa Tir ar yr eiddo newydd cyn gynted â phosibl ar ôl prynu'r eiddo.</p> <p>Os digwydd i'r eiddo gael ei waredu o fewn 10 mlynedd i dalu'r grant a ddyfarnwyd, bydd yn rhaid ad-dalu'r grant yn ei gyfanwydd.</p>
<b>Uchafswm</b>	£10,000 yw uchafswm y cymorth grant sydd ar gael.

## ATODIAD B – GRANTIAU A BENTHYCIADAU YN ÔL DISGRESIWN AR GYFER CYMORTH GYDA CHYNNAL A CHADW AC ATGYWEIRIO

Mae tai mewn cyflwr gwael yn ffactor sylweddol yn achos pobl hŷn a/neu hyglwyf sy'n dioddef iechyd gwael ac sy'n dod i ddibynnu ar ofal cymunedol.

Serch hynny, gydag adnoddau cyfalaf cyfyngedig fel awdurdod lleol a phoblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy, nid yw'n bosibl cynorthwyo pob person hŷn neu hyglwyf.

Bydd gan rai pobl hŷn y gallu a/neu'r ffordd o dalu i gynnal a chadw eu cartrefi eu hunain. Gan gofio hyn, bydd cymorth grant a/neu fenthyciad yn cael ei dargedu at y rheiny â'r angen mwyaf. Gall y Cymorth ar gyfer Atgyweiriadau Brys gynorthwyo pobl hŷn a/neu hyglwyf nad oes ganddynt unrhyw ffordd ariannol arall o dalu am y gwaith hwn, i wneud gwaith atgyweirio hanfodol i'w cartrefi. At hynny, yn ddiweddar mae cyllid ar gael i awdurdodau lleol trwy Gynlluniau Benthyciad Gwella Cartrefi a Throi Tai'n Gartrefi, fel ffordd o ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer unigolion a busnesau, i wneud gwelliannau i'r cartref, a fydd yn cyfrannu at y rhaglen gyffredinol o wella ansawdd cartrefi a chynyddu'r cyflenwad tai.

Yn ogystal, gyda chyflwyno rhaglen adfywio Llywodraeth Cymru, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, mae Benthyciadau Canol Trefi ar gael er mwyn targedu nifer o safleoedd ac eiddo gwag, nas ddefnyddir yn llawn a segur yng nghanol trefi, a chefnogi arallgyfeirio canol trefi trwy annog defnyddiau mwy cynaliadwy ar gyfer safleoedd ac eiddo gwag. Mae elfen benodol ar gyfer tai wedi'i chynnwys yn y cynllun hwn i gefnogi trawsnewid eiddo yn llety byw.

CYMORTH AR GYFER ATGYWEIRIADAU BRYS	
Diben/prif ddeilliannau	<p><b>Cymorth ar gyfer Atgyweiriadau Brys:</b> Nod y Cyngor yw darparu cymorth ariannol ar gyfer atgyweiriadau brys i helpu gyda gwaith atgyweirio dybryd, i bobl hyglwyf a/neu'r oedrannus.</p> <p><b>Sylwch:</b> Nid yw'r cyllid yn gymorth grant ond yn gymorth ariannol a ddarperir am y cyfnod y mae'r derbynnyd yn byw yn yr eiddo a bydd yn ad-daladwy pan gaiff yr eiddo ei werthu/ei drosglwyddo</p>
Meini Prawf Cymhwysterau (ymgeisydd)	<p><b>I bobl dros 65 oed</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Perchen-feddianwyr dros 65 oed â chynillion o lai na £15,000,</li> <li>- Tenantiaid dros 65 oed â budd oes neu les hir mewn eiddo â chynillion o lai na £15,000, NEU</li> <li>- Perchen-feddianwyr neu denantiaid sy'n derbyn budd-dal sy'n ddarostyngedig i brawf modd (neu'r cyfwerth)</li> <li>- Cleientiaid y mae arnynt angen gofal lliniarol a/neu i alluogi eu rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty.</li> </ul> <p><b>Pobl dros 18 ac o dan 65 oed</b> – byddant hefyd yn gymwys i ymgeisio os ydynt yn bodloni'r meini prawf canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Perchen-feddianwr, <b>NEU</b></li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Tenant â les hir, <b>AC</b></li> <li>- yn derbyn budd-dâl sy'n ddarostyngedig i brawf modd gan gynnwys: Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar incwm, Credyd Gwarant Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai, Budd-dal y Dreth Gyngor, Credyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith ac mae ei incwm wedi ei gyfrifo yn llai na'r swm a bennir yn flynyddol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau at ddibenion prawf modd (£15,860 ar gyfer 2011/12) neu Gredyd Cynhwysol <b>NEU</b></li> <li>- bydd ymgeiswyr sy'n byw yn yr eiddo fel eu prif breswylfa ond nid ydynt yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau uchod sy'n gysylltiedig ag incwm yn ddarostyngedig i 'brawf modd' y <i>Rheoliad Gostwng Grant</i>. Bydd ymgeiswyr y cyfrifir eu cyfraniad fel llai na £1,000 (un mil o bunnau) yn gymwys ac yn cyfrannu'r swm a gyfrifwyd tuag at gost y gwaith.</li> </ul> <p>Rhaid bod yr ymgeisydd yn byw yn yr annedd fel ei unig neu brif breswylfa, a rhaid bod ganddo fudd perchennog yn yr annedd neu raid ei fod yn denant i'r annedd hwn fel unigolyn neu ar y cyd ag eraill, a rhaid bod ganddo 'ddyletswydd pŵer' i wneud y gwaith dan sylw (e.e. yn achos tenantiaid fel arfer mae dyletswydd neu 'rwymedigaeth i atgyweirio' ar y landlord ac nid y tenant), neu feddiannu'r annedd o dan hawl ecsigliwsif i feddiannu a roddwyd am oes.</p> <p>Mewn perthynas â chartref symudol, rhaid i'r meddiannydd fodloni cyfnod cymhwyso preswylio o 3 blynedd.</p> <p>Gwneir gwiriad i weld a dalwyd unrhyw grantiau perthnasol yn flaenorol, i sicrhau na roddir mwy na £5,000 a ffioedd a TAW mewn unrhyw gyfnod o dair blynedd ar gyfer pob math o grant (Addasiadau Brys ac Atgyweirio Brys) (yn amodol ar yr eithriadau isod). Ni all y Cyngor dalu am yr un gwaith ddwywaith.</p>
--	---

<b>Meini Prawf Cymhwystera (gwaith)</b>	<p>Gwaith atgyweirio ar gyfer sefyllfaoedd difrifol, annisgwyl a sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus sy'n gofyn am weithredu ar unwaith, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- sicrhau ffabrig sylfaenol yr eiddo rhag i'r gwynt a'r glaw ddod i mewn</li> <li>- amddiffyn meddianwyr rhag perygl dybryd</li> <li>- atgyweirio ffenestri a drysau</li> <li>- draenio diffygol</li> <li>- weirio peryglus</li> </ul> <p>Unrhyw waith cymorth arall yn ôl disgrifiwn y Cyngor.</p>
---	---

<b>Amodau</b>	<p>Rhaid ad-dalu'r cymorth ariannol hwn adeg gwerthu neu drosglwyddo'r eiddo.</p> <p>Gosodir pridiant tir lleol a fydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynnydd â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cyngori bod y cymorth ariannol hwn ar gael trwy wasanaethau Gwasanaeth Goruchwyllo Gwella Cartrefi'r Cyngor yn unig neu, ar gais yr ymgeisydd, ystyrir hepgor yr amod hwn.</p>
<b>Uchafswm</b>	Hyd at £5,000 a ffioedd a TAW mewn cyfnod o 3 blynedd.

<b>BENTHYCIADAU GWELLA CARTREFI</b>	
<b>Diben/prif ddeilliannau</b>	<p>Mae'r Benthyciadau Gwella Cartrefi hyn ar gael i gefnogi'r elfennau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tai sy'n is na'r safon dderbyniol (Peryglon Categori 1 / Categori 2 / Safon Ansawdd Tai Cymru);</li> <li>• Atgyweirio, Diogelwch Tân neu Ddiogelwch;</li> <li>• Tai Gwag (Adnewyddu/Trawsnewid);</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Effeithlonwydd Ynni (ychwanegiad ECO);</li> <li>• Cynlluniau Atgyweirio Grŵp/Amlen;</li> <li>• Sector Rhentu Preifat (Cynlluniau Mynediad);</li> <li>• Cymhorthion ac addasiadau ar gyfer pobl hŷn neu anabl neu ychwanegiad at y GCA.</li> </ul> <p>Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac os yw'r gwaith yn cyfrannu at wneud yr eiddo'n gynnes, yn ddiogel neu yn saff, bydd yn dod o dan delerau'r cynllun.</p>
<b>Meini Prawf Cymhwysterau (ymgeisydd)</b>	<p>Perchnogion tai sy'n is na'r safon ac yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Perchen-feddanwyr</li> <li>• Landlordiaid</li> <li>• Datblygwyr</li> <li>• Elusennau/Trydydd Sector</li> </ul> <p>Rhaid rhoi blaenoriaeth i berchentywyr a landlordiaid.</p> <p>Rhaid rhoi blaenoriaeth i landlordiaid sy'n cynnig tai fforddiadwy / tai cymdeithasol / hawliau enwebu dros rent y farchnad.</p> <p>Rhaid i'r ymgeisydd fforddio'r ad-daliad benthyciad misol a bydd yn ddarostyngedig i asesiad ariannol.</p> <p>Ni ddylai ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fod â hanes credyd gwael a allai gynnwys:</li> <li>• Dyfarniadau Llys Sirol</li> <li>• Trefniadau Gwirfoddol Unigol</li> </ul>

## Tudalen 38

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled</li> <li>• Methdaliad (o fewn y 6 mlynedd diwethaf)</li> <li>• Ansolfedd/Diddymu Cwmni</li> </ul> <p>Unrhyw ddyled yn daladwy i'r Awdurdod Lleol adeg cyflwyno cais.</p> <p>Ni ddylai ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fod â hanes credyd gwael a allai gynnwys:</li> <li>• Dyfarniadau Llys Sirol</li> <li>• Trefniadau Gwirfoddol Unigol</li> <li>• Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled</li> <li>• Methdaliad (o fewn y 6 mlynedd diwethaf)</li> <li>• Ansolfedd/Diddymu Cwmni</li> </ul> <p>Unrhyw ddyled yn daladwy i'r Awdurdod Lleol adeg cyflwyno cais.</p>
<b>Meini Prawf Cymhwysterau (gwaith)</b>	<p>Rhaid bod unrhyw fenthyciad sy'n gofyn am waith yn cyfrannu at wneud yr eiddo yn <b>Gynnes, Diogel neu Saff</b>. Nid oes gofyniad bod yr eiddo'n bodloni pob un o'r meini prawf hyn. Gallai'r benthyciad dargedu un elfen allweddol.</p> <p>Dylid defnyddio cynllun y benthyciad i gefnogi'r elfennau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tai sy'n is na'r safon dderbynol (Peryglon Categori 1 / Categori 2 / Safon Ansawdd Tai Cymru);</li> <li>• Atgyweirio, Diogelwch Tân neu Ddiogelwch;</li> <li>• Tai Gwag (Adhewyddu/Trawsnewid);</li> <li>• Effeithlonrwydd Ynni (ychwanegiad ECO);</li> <li>• Cynlluniau Atgyweirio Grŵp/Amlen;</li> <li>• Sector Rhentu Preifat (Cynlluniau Mynediad);</li> <li>• Cymhorthion ac addasiadau ar gyfer pobl hŷn neu anabl neu ychwanegiad at y GCA.</li> </ul>
<b>Meini Prawf Cymhwysterau (gwaith)</b>	<p>Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac os yw'r gwaith yn cyfrannu at wneud yr eiddo'n gynnes, yn ddiogel neu'n saff, bydd yn dod o dan delerau'r cynllun.</p> <p>Ni ddylai fod unrhyw beryglon Categori 1 (fel y diffinnir gan y System Mesur lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai) ar ôl cwblhau'r gwaith os yw'r benthyciad yn Fenthyciad i Landlord, h.y. mae'r eiddo'n cael ei rentu.</p> <p>Bydd swyddogion o'r awdurdod lleol yn ymweld â phob eiddo i bennu pa waith sy'n gymwys ac i drafod y broses ymgeisio am fenthyciad gyda'r ymgeisydd.</p>
<b>Uchafswm Cyfnodau Benthyg</b>	<p>Perchen-feddianwyr – uchafswm y cyfnod benthyg yw hyd at 10 mlynedd; Landlordiaid/Datblygwyr/Elusennau – uchafswm y cyfnod benthyg yw hyd at 5 mlynedd.</p> <p>Bydd cyfnod y benthyciad yn cael ei gytuno adeg y cais, ac yn dibynnu ar werth y benthyciad a gallu ariannol yr ymgeisydd i'w ad-dalu.</p>

# Tudalen 39

<b>Telerau ad-dalu</b>	<p>Telir ad-daliadau'r benthyciad trwy ddebyd uniongyrchol misol, oni chytunir fel arall yn ystod y broses ymgeisio.</p> <p>Gyda benthyciadau i berchen-feddianwyr, gosodir y cyfnod ad-dalu i sicrhau y ceir ad-daliad o £50/mis o leiaf, a chytunir ar y cyfnod ad-dalu yn ystod y broses ymgeisio (hyd at uchafswm o 10 mlynedd).</p>
<b>Amodau</b>	<p>Ni all unrhyw fenthyciad a gynigir, ar ôl ystyried unrhyw forgais presennol, fod yn fwy nag 80% o werth yr eiddo ar y pryd. Mae'n bosibl, mewn rhai achosion i ddefnyddio eiddo arall fel gwarant ar gyfer y benthyciad.</p> <p>Ar gyfer benthyciadau hyd at £5000 caiff pridiant tir lleol ei warantu ar yr eiddo a bydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.</p> <p>Bydd y pridiant tir lleol hwn hefyd yn berthnasol i'r perchen-feddianwyr hynny sy'n derbyn Grant ar gyfer Ffi Ymgeisio am Fenthyciad, a bydd y tâl hwn yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl hyd nes i'r benthyciad gael ei ad-dalu.</p> <p>Ar gyfer benthyciadau dros £5000, cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir a fydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynydd â theitl.</p> <p>Rhaid i'r eiddo barhau wedi'i yswirio'n llawn yn erbyn colled neu ddifrod i'r gwerth adfer llawn.</p>
<b>Uchafswm</b>	<p><u>Perchen-feddianwyr</u> Lleiafswm o £1,000 hyd at uchafswm o £35,000 yr uned</p> <p><u>Landlordiaid</u> Lleiafswm o £1,000 hyd at uchafswm o £25,000 yr uned – rhent y farchnad. Lleiafswm o £1,000 hyd at uchafswm o £35,000 yr uned – rhenti yn selliedig ar Gyfradd Lwfans Tai Lleol.</p>
<b>Grant ar gyfer Ffi Ymgeisio am Fenthyciad i berchen-feddianwyr</b>	<p>Gall hyn gynnwys defnyddio'r gwasanaeth goruchwylio i oruchwylio'r gwaith. Ar yr amod nad oes diffygdu ar y benthyciad neu unrhyw achos o dorri amodau'r grant, ni fydd angen ad-dalu'r grant. Gall yr awdurdod lleol benderfynu yn ôl ei ddisgresiwn i gymeradwyo'r Grant ar gyfer Ffi Ymgeisio am Fenthyciad mewn amgylchiadau penodol yn unig, wedi ystyriaeth y Rheolwr Corfforaethol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol.</p>
<b>Ffioedd/Taliadau'r Benthyciad</b>	<p>Bydd angen talu ffi weinyddol a delir unwaith yn unig a gellir ei thalu dros gyfnod cyfan y benthyciad neu ei thalu ymlaen llaw.</p> <p>Mae'r holl ffioedd yn ddarostyngedig i newid blynnyddol yn unol â Pholisi Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor. Mae'r ffioedd yn gywir adeg cymeradwyo'r Polisi yn Ionawr 2022</p> <p><b>Perchen-feddianwyr</b> Benthyciad hyd at £5000 – ffi o £650 Benthyciad £5001 i £35,000 – ffi o £1000</p>

	<p>Os na fydd Grant ar gael ar gyfer y Ffi Ymgeisio am Fenthyciad codir uchafswm o £500 ar yr ymgeisydd.</p> <p><b>Landlordiaid</b></p> <p>Benthyciad hyd at £10,000 – ffi o £1035</p> <p>Benthyciad £10,001 – £35,000 – ffi o £1555</p> <p>Benthyciad dros £35,000 – ffi o £2278</p> <p>Bydd y ffioedd hyn i landlordiaid yn cael eu hepgor os yw'r eiddo'n cael ei gynnig i'w rhentu ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol am gyfnod cyfan y benthyciad, ac mae'r landlord yn rhentu'r eiddo i denantiaid sydd ar Gofrestr Tai Fforddiadwy y Cyngor neu, fel arall, i denant a fyddai'n gymwys i fod ar y Gofrestr hon gan lunio Cytundeb Hawliau Enwebu.</p> <p><b>Gwasanaeth Goruchwylion</b></p> <p>Gall yr Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaeth goruchwylion ar gyfer gwaith adeiladu i sicrhau cysondeb yn safonau'r saerniæth a sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau mewn da bryd. Bydd hyn yn cynnwys mesur yr eiddo i lunio cynllun gwaith, gan gynnwys darluniau lle y bo angen, cael dyfynbrisiau am y gwaith, gan gynnwys offer arbenigol, a datrys unrhyw faterion wrth iddynt godi. Gall yr ymgeisydd ddewis y gwasanaeth hwn os yw'n dymuno gwneud hynny, am dâl o 10%.</p> <p>Fel arall, mae rhwydd hynt i'r ymgeisydd ddewis ei gontractwyr ei hun i wneud y gwaith. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd yr awdurdod lleol yn atebol am ansawdd y saerniæth nac yn dilyn i fyny ynghylch diffygion wedi i'r gwaith gael ei gwblhau.</p>
--	--

BENTHYCIADAU OES	
Diben/prif ddeilliannau	Efallai y bydd achos yn codi pan fydd eiddo mewn cyflwr mor ddifrifol (perglon Categori 1) ac felly nid yw'n rhesymol i'r Cyngor adael i'r meddiannwr barhau i fyw yno heb wneud y gwaith. Gall y Cyngor gynnig Benthyciad Oes, yn ôl ei ddisgresiwn, ar gyfer perglon Categori 1 yn yr eiddo.
Meini Prawf Cymhwystera (ymgeisydd)	Perchen-feddanwyr nad ydynt yn gallu bodloni'r gwiriad fforddiadwyedd ar gyfer Benthyciadau Gwella Cartrefi ond nad ydynt yn gymwys i gael Cymorth ar gyfer Atgyweiriadau Brys neu maent eisoes wedi derbyn yr uchafswm ar gyfer Cymorth Atgyweiriadau Brys.  Lle y bo'n gymwys, dylid ceisio arian cronfa les

# Tudalen 41

<b>Meini Prawf Cymhwystera (gwaith)</b>	<p>Gwaith atgyweirio ar gyfer sefyllfaoedd difrifol, annisgwyl a sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus sy'n gofyn am weithredu ar unwaith, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- sicrhau ffabrig sylfaenol yr eiddo rhag i'r gwynt a'r glaw ddod i mewn</li> <li>- amddiffyn meddianwyr rhag perygl dybryd</li> <li>- atgyweirio ffenestri a drysau</li> <li>- draenio diffygiol</li> <li>- weirio peryglus</li> </ul> <p>Bydd y gwaith yn waith peryglon Categori 1 (System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai) yn unig.</p> <p>Unrhyw waith cymorth arall yn ôl disgrifiwn y Cyngor. Bydd swyddogion o'r awdurdod lleol yn ymweld â phob eiddo i bennu pa waith sy'n gymwys ac i drafod y broses ymgeisio am fenthyciad gyda'r ymgeisydd.</p>
<b>Telerau ad-dalu</b>	<p>Rhaid ad-dalu'r cymorth ariannol hwn adeg gwerthu neu drosglwyddo'r eiddo neu os na fydd yr ymgeisydd yn byw yn yr eiddo mwyach.</p> <p>Gosodir pridiant tir lleol neu bridian cyfreithiol llawn a fydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynydd â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cynghori bod y cymorth ariannol hwn ar gael trwy wasanaethau Gwasanaeth Goruchwyliau Mewnol y Cyngor yn unig neu, ar gais yr ymgeisydd, ystyrir hepgor yr amod hwn.</p> <p>Nid oes llog ar y benthyciadau hyd nes y dyddiad ar gyfer eu had-dalu.</p> <p>Lle mae angen talu unrhyw swm ond nid yw'n cael ei ad-dalu yn unol ag amodau'r benthyciad, ystyrir hyn yn achos o dorri amodau. Mewn achosion o'r fath, gallai Cyngor Sir Ceredigion fynnu ad-daliad o'r benthyciad ar unwaith, a chodir llog o 5% yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr.</p>
<b>Amodau</b>	<p>Efallai y bydd y Cyngor yn ystyried argaeedd ecwiti yn yr eiddo wrth bennu faint o fenthyciad i'w roi.</p> <p>Ar gyfer benthyciadau hyd at £5,000 caiff pridiant tir lleol ei warantu ar yr eiddo a bydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynydd â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.</p> <p>Ar gyfer benthyciadau dros £5,000, cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir a fydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynydd â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.</p>
<b>Uchafswm</b>	£15,000 yn cynnwys TAW (gyda'r gallu yn ôl disgrifiwn i gynyddu hyn mewn amgylchiadau eithriadol i'w hystyried gan y Panel Grantiau)
<b>Ffioedd/Taliadau'r Benthyciad</b>	Ni chodir ffi weinyddu ar gyfer y benthyciad hwn.

<b>BENTHYCIAD TROI TAI'N GARTREFI (EIDDO GWAG)</b>	
<b>Diben/prif ddeilliannau</b>	<p>Mae Troi Tai'n Gartrefi yn fenter gan Lywodraeth Cymru a ddyluniwyd i alluogi cartrefi gwag (sydd wedi bod yn wag ers o leiaf 6 mis) i gael eu defnyddio unwaith eto, i'w gwerthu neu ei rentu.</p> <p>Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• benthyciadau er mwyn defnyddio eiddo unwaith eto, i'w werthu – byddai gan y benthyciadau hyn uchafswm o 2 flynedd o gyfnod ad-dalu</li> <li>• benthyciadau er mwyn defnyddio eiddo unwaith eto i'w rentu – byddai gan y benthyciadau hyn uchafswm o 5 mlynedd o gyfnod ad-dalu</li> </ul>
<b>Meini Prawf Cymhwysterau (ymgeisydd)</b>	<p>Gellir cynnig benthyciadau i unigolion (disgwylir 3 mis o slipiau cyflog), elusennau (cyfrifon 3 blynedd), cwmnïau/busnesau (cyfrifon 3 blynedd).</p> <p>Nid yw'r benthyciadau ar gael i bobl sydd am adnewyddu eiddo a byw yn ddiogelu fel eu prif gartref (gweler Benthyciadau Gwella Cartrefi).</p>
<b>Meini Prawf Cymhwysterau (gwaith)</b>	<p>Gwaith sy'n angenrheidiol i adnewyddu a gwella eiddo sengl neu drawsnewid eiddo gwag yn nifer o unedau, fel eu bod yn addas i'w defnyddio fel llety preswyl.</p> <p>Bydd y cyllid ar gael cyn i'r gwaith ddechrau, gan roi cyfalaf gweithio i'r perchenogion.</p>
<b>Telerau ad-dalu</b>	<p>Bydd hyn yn ddibynnol ar yr hyn y bwriedir ei wneud gyda'r eiddo wedi cwblhau'r gwaith.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Os yw un eiddo sengl yn cael ei adnewyddu, a'r bwriad yw ei werthu, rhaid ad-dalu'r benthyciad adeg gwerthu'r eiddo neu hyd at ddwy flynedd o ddyddiad cymeradwyo'r benthyciad, pa un bynnag sydd gynharaf.</li> <li>• Os yw eiddo'n cael ei drawsnewid yn nifer o unedau, a'r bwriad yw eu gwerthu wedi cwblhau'r gwaith, disgwylir ad-dalu'r benthyciad adeg gwerthu'r uned gyntaf, neu mewn dwy flynedd, pa bynnag sydd gynharaf. Fodd bynnag, byddwn yn ymdrechu i drefnu amserlen ad-dalu trwy gytundeb rhwng y ddwy ochr.</li> <li>• Os mai'r bwriad yw cynnig yr eiddo/unedau fel llety i'w osod, rhaid ad-dalu'r benthyciad o fewn 3 blynedd i'r dyddiad y cymeradwywyd y benthyciad.</li> <li>• Gellir ad-dalu'r holl fenthyciadau yn gynharach os yw'r ymgeisydd yn dymuno gwneud hynny.</li> </ul> <p>Nid oes llog ar y benthyciadau ar yr amod nad oes unrhyw ddiffygddalu ar y benthyciad.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lle mae angen talu unrhyw swm, ond nid yw'n cael ei ad-dalu yn unol ag amodau'r benthyciad, ystyrir hyn yn achos o dorri amodau. Mewn achosion o'r fath, gallai Cyngor Sir Ceredigion fynnu ad-daliad o'r benthyciad ar unwaith, a chodir llog o 5% yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr.</li> </ul>

## Tudalen 43

<b>Amodau</b>	<p>Caiff y benthyciadau eu gwarantu fel pridiant cyntaf neu ail bridiant yn erbyn Teitl y Gofrestrfa Tir.</p> <p>Gellir cynnig benthyciadau ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag ers chwe mis neu fwy.</p> <p>Ni all unrhyw fenthyriad a gynigir, wedi ystyried unrhyw forgais presennol fod yn fwy na'r cyfraddau Benthyriad mewn cymhariaeth â Gwerth.          Benthyriad hyd at £25,000 – 80% Benthyriad mewn cymhariaeth â Gwerth          Benthyriad £25,001 – £100,000 – 75% Benthyriad mewn cymhariaeth â Gwerth          Benthyriad £100,001 – £250,000 - 70% Benthyriad mewn cymhariaeth â Gwerth</p> <p>Gall y Cyngor ystyried mewn rhai achosion ddefnyddio eiddo arall fel gwarant ar gyfer y benthyriad.</p> <p>Rhaid i'r ymgeisydd wneud y gwaith trawsnewid/atgyweirio o fewn cyfnod penodol o amser.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid marchnata bod yr eiddo/unedau ar werth o fewn cyfnod rhesymol ar ôl cwblhau'r gwaith (12 wythnos). Os yw'r eiddo/unedau ar gael i'w rhentu ac nid yw unrhyw un yn byw ynddynt o fewn y cyfnod hwn o amser, efallai y bydd yn rhaid ad-dalu'r benthyriad.</li> <li>• Rhaid ad-dalu'r benthyriad naill ai ar y dyddiad a nodwyd yng nghytundeb y benthyriad neu cyn y dyddiad hwnnw.</li> </ul> <p>Rhaid i'r eiddo barhau wedi'i yswirio'n llawn yn erbyn colled neu ddifrod i'r gwerth adfer llawn.</p>
<b>Uchafswm</b>	<p><u>Eiddo gwerth y farchnad</u>          Lleiafswm o £1,000 hyd at uchafswm o £25,000 yr uned.</p> <p><u>Eiddo rhent Lwfans Tai Lleol</u>          Lleiafswm o £1,000 hyd at uchafswm o £35,000 yr uned.          Bydd rhaid i'r landlord lunio cytundeb Hawliau Enwebu neu'r cynllun Prydles PRS.</p>
<b>Taliadau/Ffioedd y Benthyriad</b>	<p>Mae'r holl ffioedd yn ddarostyngedig i newid blynnyddol yn unol â Pholisi Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor. Mae'r ffioedd yn gywir adeg cymeradwyo'r Polisi yn Ionawr 2022</p> <p>Benthyriad hyd at £10,000 – ffi o £1035</p> <p>Benthyriad £10,001 – £35,000 – ffi o £1555</p> <p>Benthyriad dros £35,000 – ffi o £2278</p> <p>Bydd y ffioedd i landlordiaid yn cael eu hepgor os yw'r eiddo'n cael ei gynnig i'w rhentu ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol am gyfnod cyfan y benthyriad, ac mae'r landlord yn rhentu'r eiddo i denantiaid sydd ar Gofrestr Tai Fforddiadwy'r Cyngor neu, fel arall, i denant a fyddai'n gymwys i fod ar y Gofrestr hon gan lunio Cytundeb Hawliau Enwebu.</p>

	<p><b>Gwasanaeth Goruchwyliau</b></p> <p>Gall yr Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaeth goruchwyliau ar gyfer gwaith adeiladu i sicrhau cysondeb yn safonau'r saerniaeth a sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau mewn da bryd. Bydd hyn yn cynnwys mesur yr eiddo i lunio cynllun gwaith, gan gynnwys darluniau lle y bo angen, cael dyfynbrisiau am y gwaith, gan gynnwys offer arbenigol, a datrys unrhyw faterion wrth iddynt godi. Gall yr ymgeisydd ddewis y gwasanaeth hwn os yw'n dymuno gwneud hynny, am dâl o 10% neu mae rhwydd hynt i'r ymgeisydd ddewis ei gontractwyr ei hun i wneud y gwaith. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd yr awdurdod lleol yn atebol am ansawdd y saerniaeth nac yn dilyn i fyny ynghylch diffygion wedi i'r gwaith gael ei gwblhau.</p> <p>Nid yw'r ffioedd adeiladu/cynllunio na ffioedd gwerthuso RICS (os ydynt yn ofynnol) wedi eu cynnwys a dylai'r ymgeisydd eu talu.</p>
--	---

### CYMORTH ATEGOL GYDAG IECHYD A THAI

<b>Diben/prif ddeilliannau</b>	<p>Mae'r cymorth hwn ar gael yn ôl disgresiwn i alluogi pobl i fyw'n annibynnol, lle nad yw'r cynnyrch grant a benthyciadau eraill yn cwmpasu'r costau oherwydd cyfyngiadau'r meini prawf.</p> <p>Mae'r cymorth ariannol yn dibynnu ar argaeledd ffrydiau cyllid priodol fel y Gronfa Gofal Integredig.</p> <p>Mae enghreifftiau o'r eitemau cymwys yn cynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- clirio eiddo mewn achosion lle mae llwyth o bethau wedi cael eu storio</li> <li>- llety dros dro i hwyluso'r gwaith</li> <li>- cysylltu gwasanaethau</li> <li>- materion iechyd y cyhoedd eraill</li> </ul> <p>Cynigir y cyllid hwn yn ôl disgresiwn y Rheolwr Tîm yn unig</p> <p><b>Sylwch:</b> Nid yw'r cyllid yn gymorth grant ond yn gymorth ariannol a ddarperir am y cyfnod y mae'r derbynnydd yn byw yn yr eiddo ac yn ad-daladwy pan gaiff yr eiddo ei werthu/ei drosglwyddo</p>
<b>Meini Prawf Cymhwysterau (ymgeisydd)</b>	Cleientiaid hyglwyf na allant gael mynediad at unrhyw ffynonellau eraill o gyllid.

## Tudalen 45

<b>Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)</b>	Gwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd/diogelwch y meddiannwr neu bersonau eraill sy'n agos at y diffyg a ddarganfuwyd, lle nad oes unrhyw gynnyrch grant neu fenthyciad arall yn gallu cynorthwyo.  Bydd swyddogion o'r awdurdod lleol yn ymweld â'r eiddo i bennu'r gwaith sy'n gymwys ac yn trafod pob achos gyda'r Rheolwr Tîm.
<b>Amodau</b>	Cyflwynir Pridiannau Tir Lleol neu Bridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir a bydd yn daladwy adeg gwerthu neu drosglwyddo'r eiddo, am ba bynnag rheswm, ar ba bynnag adeg.
<b>Uchafswm</b>	Yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

**ATODIAD C – GWEITHDREFN BENTHYCIADAU AWDURDOD LLEOL**

# Benthyciadau Awdurdod Lleol



## Pwerau i ddyfarnu benthyciadau

Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 yn caniatáu i Awdurdodau Lleol lunio polisiau cyllido i fynd i'r afael ag anghenion lleol penodol a blaenorriaethau strategol wrth wella amodau byw. Rhaid i bolisi fod yn ei le/wedi'i fabwysiadu cyn y gellir rhoi unrhyw gymorth.

Gellir darparu cymorth mewn unrhyw ffurf a gall fod yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau, gan gynnwys amodau ynghylch ad-dalu'r cymorth neu ei werth (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), neu wneud cyfraniad tuag at y gwaith â chymorth (fel y nodir mewn polisi lleol).

Yn ogystal, creodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 bŵer yn ôl disgrifiwn y cyfeirir ato fel 'y pŵer llesiant' sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i wneud unrhyw beth y maent yn ei ystyried sy'n debygol o hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal a/neu'r bobl ynddi, ar yr amod nad ydynt yn cael eu cyfyngu rhag gwneud hynny gan ddeddfwriaeth arall.

O ganlyniad, mae natur eang Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 a'r pwerau 'llesiant' cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, yn golygu y bydd Awdurdodau Lleol yn gallu darparu cymorth ariannol trwy'r Cynlluniau Benthyciadau i'r ystod lawn o ymgeiswyr, a gallant atodi unrhyw amodau neu delerau y maent yn eu hystyried yn briodol o dan yr amgylchiadau.

*Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys cymhwystera ar gael yn y Polisi Cymorth Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai fel y cytunwyd gan y Cabinet ar 8 Mai 2018.*

## Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)

Mae'r FCA yn rheoleiddio darparu morgeisi ac ymddygiad partïon sy'n ymwneud â gweithgaredd morgais rheoledig. Mae Awdurdodau Lleol wedi'u heithrio rhag yr angen i gael caniatâd FCA ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau credyd defnyddwyr, ond efallai y bydd angen caniatâd arnynt o hyd ar gyfer rhai mathau o fenthyca.

Mae gwarantu 'morgais tir' dros yr eiddo, naill ai trwy bridian cyfreithiol sydd wedi'i gofrestru gyda'r Gofresttraf Tir Ddosbarthol neu bridian tir lleol (h.y. morgais rheoledig) yn rhoi rheoleiddio'r gwasanaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnad 2000.

Fodd bynnag, o dan Orchymyn Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnad 2000 (eithriad) (Diwygio) (Rhif 2) 2003 mae Awdurdodau Tai Lleol sy'n cynnig morgeisi wedi'u heithrio o drefn reoleiddio'r FCA ar y sail bod gwasanaeth o ansawdd tebyg yn cael ei ddarparu i'r cleient.

Er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Tai Lleol yn gallu bodloni'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth cymharol, dylai'r Awdurdod Lleol geisio dilyn Cylchlythyr 20/02 (Canllawiau Adnewyddu) Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Canllawiau Gwerthu Morgeisi ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai 2000.

## Gwerthu o bell

Pan fydd ALI yn darparu benthyciad/morgais heb unrhyw gyswilt wyneb yn wyneb â'r cwsmer ar unrhyw adeg, mae hyn yn cael ei ystyried yn 'werthu o bell' ac mae gwybodaeth a rheoliadau pellach yn berthnasol *fel y nodir yn y Gyfarwyddeb Marchnata o Bell ac a ymgorfforir yn neddfwriaeth y DU trwy Reoliadau Gwasanaethau Ariannol (Marchnata o Bell) 2004.*

Er mwyn sicrhau nad yw hyn yn berthnasol, rhaid i'r ALI gael cyfarfod wyneb yn wyneb â'r cwsmer i drafod y benthyciad/morgais.

## Safonau Gweinyddu Morgeisi

1. Rhaid cynnal busnes benthycia mewn ffordd onest a chyfrifol, gyda gofal a sgil dyladwy.
  - a. Dylai fod gan ALLau bolisi ar waith sy'n nodi mein prawf cymhwystera a chynhyrchu dogfen sy'n dangos hyn yn glir ar gyfer cwsmeriaid.
  - b. Rhaid i aelod o staff hyfforddedig ymgymryd â'r weithdrefn fenthyca.
  - c. Rhaid i ddulliau cyfweld beidio â gadael cwsmeriaid yn teimlo dan bwysau i gymryd morgais i ariannu gwaith gwella cartrefi.
  - d. Rhaid i weithdrefnau benthycia beidio ag arwain at unrhyw driniaeth annheg i gwsmeriaid.
  - e. Rhaid i weithdrefnau benthycia beidio ag arwain at unrhyw wrthdaro dyletswydd â chwsmeriaid.
  - f. Cyn rhoi unrhyw gymorth rhaid i'r ALI fodloni ei hun fod yr unigolyn wedi derbyn cyngor neu wybodaeth briodol am faint a natur unrhyw rwymedigaeth (ariannol neu fel arall) y bydd yn ei chymryd arno.
2. Rhaid i weithdrefnau benthycia gydnabod buddiannau'r cwsmer a'i drin yn deg.
  - a. Dylid rhoi gwybodaeth glir am delerau'r benthyciad ymlaen llaw.
  - b. Dylid rhoi amser i gwsmeriaid ystyried a yw'r cynnyrch hwn yn iawn iddyn nhw, cyn llofnodi dogfennau.
  - c. Rhaid i'r ALI fodloni ei hun fod cwsmeriaid yn holol ymwybodol o unrhyw ymrwymiad ariannol y maent yn ymrwymo iddo

3. Rhaid i bob cyswllt a chyfathrebu â chwsmeriaid fod yn glir, yn deg a heb fod yn gamarweiniol.
  - a. Mae'r cyswllt yn cynnwys cyswllt llafar ac ysgrifenedig, galwadau ffôn, cyswllt wyneb yn wyneb a gohebiaeth (llythyrau, e-byst).
  - b. Dylai'r cwsmer gael gwybodaeth ysgrifenedig am y cynnrych sy'n cael ei gynnig (dogfen ganllaw). Dylai hyn gynnwys; pwy sy'n darparu'r benthyciad/morgais; ffioedd; polisi ad-daliadau; gweithdrefn gwyno (gwybodaeth ragnodedig).
  - c. Dylid rhoi dogfen ganllaw yn gynnar/cyswllt cyntaf.
  - d. Yn cynnwys argaeledd y benthyciad neu gynhyrchion eraill sydd ar gael trwy'r rhoddwr benthyg a allai fod yn addas.
  - e. Wrth gynnig benthyciad/morgais, dylid rhoi Dogfen Cynnig Morgais i'r cwsmer. Dylai hyn gynnwys; enw'r cwsmer; y dyddiad y cafodd ei gynhyrchu a pha mor hir y mae'r cynnig yn ddilys; sut i'w dderbyn; pa gymorth a roddwyd; ffioedd sy'n berthnasol; swm y morgais; ad-daliadau; gwerth eiddo er diogelwch; cyfradd llog; telerau/risgiau gwaredu; hyd y morgais; cyfanswm cost y morgais; manylion cyswllt (gwybodaeth ragnodedig)
4. Rhaid cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod unrhyw forgais a gynigir i'r cwsmer yn addas ar eu cyfer, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau.
  - a. Rhaid i'r ALI gymryd camau rhesymol i gael gan gwsmeriaid yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol i asesu a yw'r benthyciad yn addas, e.e. capaciti perchnogaeth (personol/busnes ac ati), dyled arall wedi'i gwarantu, sefyllfa ariannol yr ymgeisydd ac ati.
    - i. Gall cwsmer fforddio cymryd y benthyciad/morgais, ystyried incwm/gwariant a newidiadau tebygol yn y dyfodol
    - ii. Mae benthyciad/morgais yn ateb anghenion ac amgylchiadau cwsmeriaid
#### 4.2. If no action is to be taken to remove or mitigate negative impacts please justify why.

(Please remember that if you have identified unlawful discrimination, immediate and potential, as a result of this proposal, the proposal must be changed or revised).

See above

#### 4.3. Monitoring, evaluating and reviewing.

How will you monitor the impact and effectiveness of the proposal?

The impact and effectiveness of the delivery of the Policy will be monitored through regular Team Meetings, OT Liaison Meetings and Finance meetings.

#### 5. RISK: What is the risk associated with this proposal?



Impact Criteria	1 - Very low	2 - Low	3 - Medium	4 - High	5 - Very High					
Likelihood Criteria	1 - Unlikely to occur	2 - Lower than average chance of occurrence	3 - Even chance of occurrence	4 - Higher than average chance of occurrence	5 - Expected to occur					
Risk Description		Impact (severity)		Probability (deliverability)		Risk Score				
Increase in the number of enquiries and adaptations		3 Medium		3 Even chance of occurrence		3 x 3 = 9				
Insufficient budget for delivery of all adaptations		3 Medium		4 Higher than average chance of occurrence		3 x 4 = 12				
Does your proposal have a potential impact on another Service area?										
This policy has a potential impact on the OT service both within the Council and Hospital setting.										

## 6. SIGN OFF

Position	Name	Signature	Date
Service Manager			
Corporate Lead Officer			
Strategic Director			
Portfolio Holder			

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach

**Dyddiad y cyfarfod:** 16 Rhagfyr 2021

**Teitl:** Adolygu Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor - Bysus a dynnir gan geffylau

**Pwrpas yr Adroddiad:** I'w graffu o ran:

1. Ystyried adolygu Polisi Cyffredinol y Cyngor ar Gerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat ac yn benodol trwyddedu bysus a dynnir gan geffylau, ac
2. Ystyried yr angen i fabwysiadu amodau trwyddedu newydd yn ogystal â mabwysiadu is-ddeddf newydd ar gyfer trywydd penodol arfaethedig a/ neu unrhyw drywydd yn y dyfodol ar gyfer bysus a dynnir gan geffylau (omnibws)

**I'w benderfynu:** .

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Lloyd – Amddiffyn y Cyhoedd

### Cefndir

Mae unigolyn wedi cysylltu â'r Awdurdod yn mynegi diddordeb i ddefnyddio cart a cheffyl i fynd â theithwyr ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth.

Nid yw'r Polisi Cyfredol ar Gerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn cynnwys cart a cheffyl / omnibws ac ar hyn o bryd nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion unrhyw is-ddeddfau mewn lle ar gyfer rheoleiddio omnibysus.

Ni all cart a cheffyl sy'n darparu cludiant cyhoeddus gael ei drwyddedu fel cerbyd hurio preifat am fod yr elfen yma'n gaeth i gerbydau modur yn unig. Gall cart a cheffyl gael ei drwyddedu i'w ddefnyddio fel 'omnibws' o dan Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1889 fodd bynnag er mwyn trwyddedu a defnyddio omnibysus o'r fath bydd yn ofynnol i'r Awdurdod yn gyntaf:

- 1) Diwygio ei Bolisi Cyffredinol er mwyn cyflwyno amodau trwyddedu newydd a phenodol ar gyfer y math yma o gludiant, a
- 2) Mabwysiadu is-ddeddf newydd i reoleiddio ceirt a cheffylau / omnibysus.

### Rheoliadau ac Is-ddeddfau

Bydd yn rhaid trwyddedu cerbydau hacni / omnibysus o dan y ddeddfau canlynol:

- Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847
- Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1889 a

- Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Mae'n ddyletswydd felly ar Gyngor Sir Ceredigion fel yr Awdurdod Trwyddedu i ymgymryd â'i ddyletswyddau trwyddedu o ran cerbydau hacni gan roi i'r Awdurdod y pŵer i osod amodau ar drwydded cerbyd neu'r gyrrwr fel y bydd yn ystyried hynny'n rhesymol angenrheidiol.

Bydd Adran 6 Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1889 yn rhoi'r awdurdod i'r Cyngor lunio is-ddeddfau ar gyfer gosod rheoliadau ar ddefnydd omnibus. O dan Ddeddf Traffig y Ffordd 1930 a Deddf Trafnidiaeth 1985 bydd y darpariaethau yma'n parhau mewn grym ar gyfer cerbydau difodur

O dan y ddeddfwriaeth hen yma byddai cart a cheffyl yn dod o dan ddiffiniad 'omnibws'. Caiff omnibws ei ddiffinio fel un o'r cerbydau canlynol: omnibws, char-a-banc, *wagonette, brake*, coets fawr neu gerbyd arall (difodur)

Bydd yn ofynnol i omnibusus ddilyn trywydd penodol y penderfynwyd arno ymlaen llaw ac nid oes hawl gan y gyrrwr na'r cerbyd weithredu heb drwydded.

Nid oes unrhyw sgôp yn y ddeddfwriaeth i gynnwys amodau mewn ffordd gyfreithiol i unrhyw drwydded. Felly er mwyn gosod amodau ar drwydded fydd yn sicrhau diogelwch y cyhoedd, diogelwch teithwyr a'r gyrrwr, lles anifeiliaid ac arferion da o ran y math yma o gludiant yr unig ffordd o reoleiddio fydd gwneud is-ddeddfau.

## Ymgynghoriad

Mewn ymateb i'r cais a dderbyniwyd gan y Tîm Gweithredu bu i Swyddogion ddrafftio set newydd o amodau trwyddedu ar gyfer cart a cheffyl / omnibusus y gellir eu cynnwys ym Mholisi Cyffredinol yr Awdurdod o ran Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Bwriad yr amodau drafft newydd fydd eu hatodi i reolau'r Polisi cyfredol a darparu canllawiau ar ba mor addas fydd unrhyw gais a dderbynir ar gyfer cerbyd hacni ceffyl hynny yw omnibws gan geisio hyrwyddo'r canlynol:

- Amddiffyn lechyd a diogelwch y cyhoedd
- Amddiffyn lles anifeiliaid a ddefnyddir yn y math yma o fusnes
- Hyrwyddo busnes cerbydau hacni ceffylau sy'n uchel ei barch.

Bydd y newidiadau arfaethedig hefyd yn cynnwys y canlynol;

- Galluogi'r broses o drwyddedu cerbydau hacni ceffylau hynny yw omnibusus yn Awdurdod Ceredigion
- Clustnodi'r trywydd penodol y dylid ei ddefnyddio rhwng y Promenâd newydd a Rhodfa'r Môr Aberystwyth;
- Newid y Safle Tacsis ar y Promenâd newydd i ganiatáu au cerbydau hacni ceffylau yn unrhyw rhwng 6am - 6pm;

Mae'r amodau drafft ynghlwm i'r adroddiad yma (gweler Atodiad A). Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ar y newidiadau yma ar 2 Awst 2021, a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 31 Awst 2021.

## **Ymatebion Ymgynghori**

Bu i'r Gwasanaeth dderbyn cyfanswm o 216 ymateb i'r ymgynghoriad yma. Ceir dadansoddiad cryno o'r ymatebion ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad yma.

Bu i'r ymgynghoriad diweddar ein galluogi i gael syniad o'r lefel o gefnogaeth neu wrthwynebiad neu farn arall i'r is-ddeddf ac amodau trwyddedu newydd wrth drafod cart a cheffyl / omnibusus.

O'r 216 o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ychydig iawn wnaeth ymateb yn bositif ac nid oeddent o blaid mabwysiadu'r argymhelliaid trwyddedu newydd.

Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebion yn erbyn yr argymhelliaid o fabwysiadu system trwyddedu omnibws. Y prif reswm dros wrthwynebiadau pobl oedd pryderon cyffredinol parthed llif traffig ar hyd ardal y Promenâd ayb, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf yn ogystal â phryderon cyffredinol am les anifeiliaid a cheffylau yn rhannu'r ffordd gyda cherbydau'r ffordd.

Pan ofynnwyd a oedd y trywydd arfaethedig yn addas ar gyfer cludo teithwyr mewn cart a cheffyl, bu i 69% naill ai anghytuno'n gryf neu anghytuno; a phan ofynnwyd pa drywydd y byddent yn ei argymhell a pham bu i'r mwyafrif o ymatebion nodi dim trywydd o gwbl.

Hefyd derbyniwyd adborth oddi wrth Wasanaethau Priffydd a Gwasanaethau Economi ac Adfywio Cyngor Sir Ceredigion.

Yn gyffredinol ar wahân i elfennau economaidd ac adfywio, bu i'r Gwasanaethau Priffydd fynegi pryderon parthed defnyddio'r briffordd a risg i ddiogelwch y cyhoedd ac roeddent o'r farn y byddai angen trafodaethau helaeth pellach rhwng gwasanaethau cyn y gellir mabwysiadu'r polisi hwn.

## **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi Oes ei gwblhau? Os nad oes, esboniwr pam**

**Llesiant  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol**

**Crynodeb  
Hirdymor:**

Ystyri'r hi'n arfer dda i awdurdodau lleol adolygu eu Ddatganiad o Bolisi Trwyddedu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â newidiadau deddfwriaethol, newidiadau a argymhellwyd gan y llywodraeth neu lle y bo awdurdod trwyddedu yn ystyried bod newidiadau yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo diogelwch y cyhoedd.

Mae Amddiffyn y Cyhoedd yn ddyletswydd statudol ar yr awdurdod ac yn cyfrannu tuag

at nodau llesiant o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Cydweithio:**

Bu i'r Awdurdod weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill wrth ystyried y polisi yma er mwyn sicrhau cysondeb sy'n cyflawni anghenion y Sir.

**Cynnwys:**

Bu i'r cynnwys a'r ymgynghoriad gynnwys partneriaid amrywiol, asiantaethau a'r cyhoedd a gwaned y gwaith ymgysylltu gyda'r Tîm Trwyddedu er mwyn sicrhau bod polisi mewn lle sy'n addas at ei bwrpas. Bydd cynnwys yr ochr fasnach a'r cyhoedd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod masnach / busnes sydd wedi ei drwyddedu'n briodol yn ffynnu ac yn ddiogel yng Ngheredigion.

**Atal:**

Mae'r amcanion trwyddedu'n hollol gyson â'r elfen o 'atal' a gefnogir gan safonau'r diwydiant a deddfwriaeth ac y mae'r polisi arfaethedig yma'n ceisio hyrwyddo pob un o'r amcanion yma cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosib.

**Integreiddio:**

Mae'r Polisi Trwyddedu'n un o'r nifer o bolisiâu a weithredir gan yr awdurdod er mwyn cynnal y gwaith o amddiffyn y cyhoedd.

**Argymhelliaid:**

Gofynnir i graffu felly ystyried cynnwys yr adroddiad yma a'r ymatebion i'r ymgynghori ac argymhell i'r Cabinet naill ai:

1. nad yw'r newid i'r polisi arfaethedig yn angenrheidiol ac y dylai'r Awdurdod ystyried parhau fel sir "heb omnibusus".  
neu
2. mae'r newid arfaethedig i'r polisi yn angenrheidiol er mwyn caniatáu omnibusus yn Aberystwyth a/neu unrhyw ardal arall o'r sir lle bydd angen:
  - a) mabwysiadu'r amodau trwyddedu newydd, a
  - b) mabwysiadu'r is-ddeddf newydd ar gyfer y trywydd penodol newydd a/neu unrhyw drywydd omnibws arfaethedig yn y dyfodol er mwyn gweithredu'n effeithiol unrhyw camau sy'n groes i amodau'r drwydded.

<b>Rheswm dros y penderfyniad:</b>	Gwella diogelwch y cyhoedd ac eglurer o ran masnach trwyddedig yng Ngheredigion.
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach; trafodwyd hefyd yn y Pwyllgor Trwyddedu.
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022
<b>Blaenoriaethau Corfforaethol</b>	Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	O fewn y gyllideb
<b>Goblygiadau Cyfreithiol:</b>	Mae angen i Awdurdodau Lleol ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r Polisi Trwyddedu.
<b>Goblygiadau Staffio:</b>	Dim
<b>Goblygiadau Eiddo / Asedau</b>	Dim
<b>Risg (au):</b>	Os na fydd polisi clir ar y mater ni fydd penderfyniadau trwyddedu yn gadarn ac yn agored i'w herio.
<b>Pwerau Statudol:</b>	Deddf Plismona a Thrwyddedu 2017, Deddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1976, Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847
<b>Papurau Cefndir :</b>	Gweler yr atodiadau
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Alun Williams (Polisi a Pherfformiad)
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu)
<b>Dyddiad:</b>	19 Hydref 2021

## Atodiadau

A: Amodau Cerbydau Hacni Ceoffylau a Chart ac Amodau Polisi Gyrwyr  
B: Ymatebion a Dadansoddi'r Ymgyghori ar y Polisi Cart a Cheffyl 2021.

# Polisi Trwyddedu

## Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat



### ATODIAD A

#### Polisi Gyrwyr a Cherbydau Hacni a Dynnir gan Geffyl

Awdur a gwasanaeth: Helena Corke, Gwasanaeth Trwyddedu, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Dyddiad cymeradwywyd gan y Cabinet:

Asesiad Effaith Integredig (Ie/Na): Ie

Dyddiad cyhoeddi:

## **Cynnwys:**

### Diffiniadau

#### 1. CERBYDAU HACNI A DYNNIR GAN GEFFYL

- 1.1 Rhagofynion
- 1.2 Adnewyddu
- 1.3 Cyfyngu ar niferoedd
- 1.4 Gwneuthuriad
- 1.5 Archwiliadau
- 1.6 Arwyddion
- 1.7 Llwybr
- 1.8 Prisiau
- 1.9 Trosglwyddo trwyddedau
- 1.10 Newid perchen nog/Gwerthu neu drosglwyddo cerbyd
- 1.11 Damweiniau
- 1.12 Cofnodion

#### 2. GYRWYR

- 2.1 Rhagofynion
- 2.2 Adnewyddu
- 2.3 Prawf Gyrru
- 2.4 Prawf Person Addas a Phriodol
- 2.5 Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- 2.6 Ymgeiswyr gyda chyfnodau preswylio y tu allan i'r DU
- 2.7 Hawl gyrrwr i weithio yn y DU
- 2.8 Asesiad Meddygol
- 2.9 Ymddygiad Cyffredinol
- 2.10 Cod Gwisg Gyrwyr

#### 3. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 3.1 Teithwyr agored i niwed a Deddf Cydraddoldeb 2010
- 3.2 Gofal Priodol
- 3.3 Cŵn Cymorth
- 3.4 Teithwyr â Nam ar y Golwg

- 3.5 Teithwyr â Nam ar y Clyw
- 3.6 Cymorth Symudedd
- 3.7 Prisiau
- 3.8 Esemtiadau

## 4. CEFFYLAU A CHYFRWYAU

- 4.1 Rhagofynion
- 4.2 Archwiliad Milfeddygol
- 4.3 Cyfnodau Gorffwys

## 5. CYDYMFFURFIO A GORFODI

- 5.1 Gorfodi
- 5.2 Gwrandawiadau
- 5.3 Rhybuddion
- 5.4 Ataliadau
- 5.5 Dirymiadau

### Diffiniadau

Diffinnir omnibws mewn deddfwriaeth fel omnibws, siarabang, cert, brêc, coets fawr neu gerbyd (difodur) arall sy'n chwilio am gwsmeriaid neu'n sefyll i'w hurio neu ei ddefnyddio i gludo teithwyr am brisiau ar wahân i, o neu yn unrhyw ran o'r pellter a bennwyd yn ddarostyngedig i eithriadau penodol. Mae omnibysiau yn gweithredu ar lwybrau a bennwyd ymlaen llaw.

Yn y Polisi hwn, a'r Is-ddeddfau a wneir yma; bydd cerbyd hacni, cerbyd ac omnibws yn golygu'r cerbyd a bennir ynddo; sef bod yn gerbyd hacni a dynnar gan geffyl y mae Deddfau 1847, 1889 a 1976 yn gymwys iddo.

### Rheoleiddio ac Is-ddeddfau

Gyda Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1889 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 yn rheoleiddio trwyddedu omnibysiau, nid yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn darparu llwybr clir ar gyfer atodi amodau at drwyddedau o'r fath. Fodd bynnag, mae adran 6 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1889 yn darpar modd i'r Cyngor wneud Is-ddeddfau i reoleiddio gweithredu gwasanaethau omnibws a dynnar gan geffyl. O

dan Ddeddf Traffig Ffyrrd 1930 a Deddf Trafnidiaeth 1985 mae'r darpariaethau hyn yn parhau mewn grym ar gyfer cerbydau difodur.

Dylai'r Polisi hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r gofynion statudol a pholisi eraill a nodir yn y ddogfen hon.

## **SYLWCH:**

Lluniwyd Rheoliadau Diogelu lechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechedd cyhoeddus sydd wedi codi yn sgil digwyddedd a lledaeniad y syndrom anadol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion a chyfyngiadau ar yrwyr tacsi, perchnogion a gweithredwyr hurio preifat, boed yn hunangyflogedig neu'n gyflogedig, i gymryd mesurau ataliol i leihau'r risg o ddal y coronafeirws. Felly mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i berchnogion, gweithredwyr a gyrwyr hunangyflogedig ymgyfarwyddo â'r canllawiau cyfredol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a chynnal asesiadau risg diogelwch ar gyfer eu cerbydau (a, phan fo'n gymwys, eu safle) a chynnwys yn eu trefniadau gweithredu fesurau a fydd yn sicrhau diogelwch eu cwsmeriaid a'u staff. Bydd hefyd yn disgwyl i ymgeiswyr a pherchnogion, gweithredwyr a gyrwyr hunangyflogedig gael asesiadau risg yn amlinellu sut y byddant yn gweithredu yn ystod achosion o glefydau trosglwyddadwy / heintus megis y syndrom anadol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) hynny yw, Covid-19.

<https://www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-taxis-and-phvs>

## **1. CERBYDAU HACNI A DYNNIR GAN GEFFYL**

Yn unol ag Adran 45 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 ni fydd cerbyd hacni a dynnir gan geffyl yn gweithredu heb yn gyntaf gael trwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu ac ni fydd yn gweithredu heb yn gyntaf gofrestru'r ceffyl(au) sydd i'w defnyddio ar y cyd â'r cerbyd hwnnw gyda'r Awdurdod Trwyddedu.

Caniateir disgrifiwn cyffredinol i'r Cyngor benderfynu beth y bydd a bydd na fydd yn ei drwyddedu gan Adran 47(2) o Ddeddf 1976:

- (1) Caiff awdurdod lleol atodi amodau y mae'n eu hystyried yn rhesymol angenrheidiol wrth roi trwydded cerbyd hacni o dan Ddeddf 1847.
- (2) Heb ymrwymiad i gyffredinolrwydd yr is-adran flaenorol, gall awdurdod lleol ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw gerbyd hacni a drwyddedir ganddo o dan Ddeddf 1847 fod o'r fath ddyluniad neu olwg neu ddwyn unrhyw farciau gwahaniaeth a fydd yn dangos yn glir ei fod yn gerbyd hacni.

Nid oes dull cerbyd penodol, fodd bynnag, bydd cerbyd trwyddedig yn cydymffurfio â'r amodau a bennir gan yr Awdurdod Trwyddedu bob amser.

Cyn belled ag y bo'n briodol, bydd y cerbyd yn cydymffurfio â'r holl reoliadau a'r cyfreithiau a wneir yn unol ag unrhyw Ddeddfau sy'n ymwneud â cherbydau sy'n defnyddio prifordd gyhoeddus.

Rhaid i'r perchennog bob amser gydymffurfio â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, Ddeddfau Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 ac 1889 a'r amodau a'r is-ddeddfau a ddarperir o hyn ymlaen. Cyfrifoldeb y perchennog yw sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod unrhyw un a gyflogir neu a ganiateir ganddo yrru'r ceffyl(au) a'r cerbyd(au) trwyddedig ar ei ran yn cydymffurfio â'r Polisi hwn.

### **1.1 Rhagofynion**

- a) Ni roddir unrhyw drwydded cerbyd hacni oni bai bod yr awdurdod yn barnu bod y cerbyd, y ceffylau a neilltuir iddo a'r harneisiau yn addas, yn ddiogel ac yn ateb y gofyn.
- b) Rhaid i'r cerbyd fod yn addas o ran math a dyluniad i'w ddefnyddio fel cerbyd hacni. Yr Awdurdod Trwyddedu fydd yn penderfynu unrhyw anghydfod mewn perthynas â math neu ddyluniad cerbyd.
- c) Rhaid i unrhyw un a hoffai wneud cais am drwydded cerbyd a dynnir gan geffyl lenwi'r ffurflen gais berthnasol a'i chyflwyno i'r Adran Drwyddedu ynghyd â'r ffi berthnasol.

- d) Cyn i'r awdurdod ystyried unrhyw gais, bydd y perchennog yn cyflwyno adroddiad archwilio boddhaol gan beiriannydd cerbyd a dynnar gan geffyl i'w sicrhau bod y cerbyd a'i ffitiadau yn ddiogel ac mewn cyflwr gweithio da. Ochr yn ochr â hynny, rhaid i filfeddyg a benodir gan y Cyngor archwilio'r ceffylau sydd i'w defnyddio i dynnu'r cerbyd a rhaid darparu adroddiad boddhaol gan arolygydd milfeddygol.
- e) Wrth bennu a yw'r cerbyd a'r ceffyl(au) sydd i'w ddefnyddio yn addas i gludo teithwyr am dâl, rhaid i'r perchennog gyflwyno'r canlynol:
- i) Ffurflen gais wedi'i chwblhau a'i llofnodi.
  - ii) Tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.
  - iii) Ardystio addasrwydd i'r ffordd fawr ac addasrwydd y cerbyd a'r harnais(harneisiau) at ddibenion y defnydd a fwriadwyd.
  - iv) Tystysgrif yswiriant sy'n cwmpasu'r cerbyd ar gyfer cludo teithwyr am dâl
  - v) Tystysgrif gan y milfeddyg yn barnu bod y ceffyl yn ffit ac yn addas
  - vi) Pob pasbort ceffyl a roddwyd o dan Reoliadau Adnabod Ceefylau (Cymru) 2009 ar gyfer y ceffylau sydd i'w defnyddio.
  - vii) Lluniau o'r ceffylau sydd i'w defnyddio (gweler is-adran 6 "ceffylau a chyfrwyau")
  - viii) Manylion unrhyw was stabl neu yrrwr dan hyfforddiant a all fod yng nghwmni'r gyrrwr
  - ix) Y llyfr log dyddiol
  - x) Y ffi berthnasol
- f) Ni fydd cais yn cael ei ystyried yn gyflawn nes bod yr holl ofynion uchod wedi'u cyflwyno.
- g) Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun.
- h) Hysbysir ymgeiswyr am benderfyniad yr Awdurdod Trwyddedu i roi neu wrthod rhoi trwydded.
- i) Os caiff ei roi, bydd y drwydded cerbyd hacni a dynnar gan geffyl yn dod i ben ddeuddeg [12] mis calendr o'r dyddiad y'i roddwyd, oni bai ei fod wedi'i hildio, ei hatal neu ei dirymu cyn y dyddiad hwnnw.
- j) Os gwrtoddir cais, mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Llys Ynadon cyn pen 21 diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad gwrtod ffurfiol.

- k) Dim ond person sy'n dal trwydded yrru ddilys a roddwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu fydd yn gyrru cerbyd.

## 1.2 Adnewyddu

- a) Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu dderbyn cais i adnewyddu'r drwydded ddim hwyrach na mis cyn i'r drwydded ddod i ben er mwyn cael digon o amser i drefnu archwiliadau gan filfeddygon a swyddogion awdurdodedig. Ni wneir unrhyw eithriadau ar gyfer ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad dod i ben y drwydded gyfredol; caiff y rhain eu hystyried yn geisiadau newydd.
- b) Mae'r perchennog yn gyfrifol am sicrhau bod cais adnewyddu cyflawn yn cael ei gyflwyno cyn i'r drwydded gyfredol ddod i ben; ni anfonir nodiadau atgoffa.
- c) Ar ôl adnewyddu'r drwydded, rhaid i'r perchennog gyflwyno cais wedi'i gwblhau sy'n cynnwys yr holl ddogfennaeth ofynnol yn unol ag Amod 1.1 i dystio bod y cerbyd a'i ffitiadau yn ddiogel ac mewn cyflwr gweithio da.
- d) Ochr yn ochr â hynny, bydd milfeddyg a benodir gan y Cyngor yn archwilio'r ceffylau sydd i'w defnyddio i dynnu'r cerbyd a rhaid darparu adroddiad boddhaol gan arolygydd milfeddygol.
- e) Pan fydd cyfnod rhwng trwydded gyfredol yn dod i ben a phrosesu cais i'w hadnewyddu, ni chaiff cerbyd ei ddefnyddio am dâl yn ystod y cyfod hwn. Gall fod rhai eithriadau os cytunir arnynt gyda'r Awdurdod Trwyddedu.

## 1.3 Cyfyngu ar niferoedd

- a) Ar hyn o bryd nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn cyfyngu ar nifer y cerbydau hacni a dynnar gan geffyl. Gall yr angen am y terfyn hwn gael ei adolygu gan gwmni cymwys ac annibynnol a benodir i gynnal yr adolygiad ar ran y Cyngor, a gall ei gasgliadau fod ar gael os gofynnir amdanynt.

## 1.4 Gwneuthuriad

- a) Bydd y cerbyd wedi'i ddylunio i gael ei dynnu gan un ceffyl yn unig ar unrhyw un adeg.
- b) Rhaid bod ganddo bedair olwyn ac adran i deithwyr gael eu cludo.
- c) Ni fydd y cerbyd yn cludo mwy nag uchafswm y teithwyr a ganiateir a Bennir gan yr Awdurdod Trwyddedu. Penderfynir ar hyn adeg trwyddedu, ond rhaid iddo beidio â bod yn fwy nag wyth [8] teithiwr.

- d) Rhaid i'r cerbyd gael ei adeiladu i safon ac ansawdd addas i fod yn gerbyd trwyddedig. Mae'r canllawiau a'r proforma arolygu i'w gweld yng Nghod Ymddygiad yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer cerbydau a dynnar gan geffyl ac yn ATODIAD A i'r polisi hwn
- e) Rhaid paentio'r cerbyd mewn un lliw, naill ai paent sglein du neu bren wedi'i drin/farneisio, ac ni chaiff arddangos unrhyw arwyddion neu hysbysebion heb ganiatâd yr Awdurdod Trwyddedu ymlaen llaw.
- f) Rhaid i'r seddi gael eu clustogi a'u gorchuddio'n briodol er mwyn gallu eu cadw'n gyffyrddus, yn lân ac yn sych. Gellir defnyddio blanced i'w wneud yn fwy cyffyrddus os oes angen, a rhaid i hwn fod yn lân ac yn sych hefyd.
- g) Os yw'r adran i deithwyr yn agored i'r elfennau, rhaid clirio'r seddi o unrhyw falurion a'u sychu cyn i unrhyw deithwyr gael eu cludo.
- h) Rhaid gorchuddio'r llawr â mat neu garped addas i atal unrhyw un rhag lithro a rhaid iddo allu cael ei lanhau a'i glirio o unrhyw falurion neu ddŵr cyn i unrhyw deithwyr gael eu cludo. Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod y cerbyd yn cael ei gadw mewn cyflwr glân a chyffyrddus.
- i) Os yw'r cerbyd yn darparu modd ar gyfer cludo bagiau, bydd y gyrrwr yn sicrhau bod unrhyw fagiau yn sount cyn cychwyn ar y daith.
- j) Dylai goleuadau a signalau gael eu gosod yn y cerbyd a dylai fod modd i'r gyrrwr eu goleuo rhwng y cyfnos a'r wawr. Mae goleuadau ar gerbyd wedi'u gyfyngu i ddwy lamp leoliadol safonol yn y cefn a dwy lamp leoliadol safonol ar y blaen yn unol â'r Rheoliadau Cerbydau Modur (Gwneuthuriad a Defnydd). Bydd modd cynnau'r goleuadau'n wyn ar y blaen a choch yn y cefn fel y pennir o dan Reoliadau Goleuadau Cerbydau Ffyrrd 1989.
- k) Dylai fod dau adlewyrchydd coch yng nghefn pob cerbyd a dynnar gan geffyl.
- l) Rhaid gosod dyfais dal tail ar bob cerbyd tra bo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar unrhyw briffordd gyhoeddus. Os bydd swyddog gorfodi trwyddedu yn gofyn i chi wneud hynny, rhaid gosod strapyn ledr dynn rhwng y bynji a'r clo i atal y bynji rhag llithro'n ôl.
- m) Ni chaiff y cerbyd ei addasu neu ei newid heb gymeradwyaeth yr Awdurdod Trwyddedu ymlaen llaw.
- n) Nid yw'r rhestr uchod yn gyflawn a bydd swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol yn asesu a yw safonau'r cerbyd yn dderbynol ai peidio. Mewn achosion o'r fath, bydd penderfyniad y swyddog yn weithredol fel petai wedi'i gynnwys yn y rhestrau uchod a bydd yn ofynnol i'r gyrrwr neu'r perchen nog trwyddedig gydymffurfio yn unol â hynny.

## 1.5 Archwiliadau

- a) Cyn rhoi neu adnewyddu trwydded cerbyd hacni a dynnir gan geffyl, rhaid cyflwyno'r cerbyd, y ceffyl(au) a'r cyfrwyau i'w harchwilio a'u profi ar y dyddiad a bennir gan yr Awdurdod Trwyddedu. Rhaid cyflwyno pob cerbyd gyda set lawn o gyfrwyau a harneisiau.
- b) Mae gan yr Awdurdod Trwyddedu y pŵer i archwilio cerbyd hacni unrhyw bryd. Rhaid cyflwyno pob cerbyd, ceffyl a'r holl ofer i'r awdurdod pan ofynnir am hyn.
- c) Ni fydd y deiliad trwydded yn atal unrhyw swyddog awdurdodedig, cwnstabl neu filfeddyg rhag archwilio'r cerbyd, ceffylau, harneisiau neu offer harneisio nac unrhyw lety a ddefnyddir i stablu a chadw'r ceffylau.
- d) Bydd y cerbyd yn cael ei gadw mewn cyflwr glân a'i gynnal a'i gadw'n dda. Gellir rhoi hysbysiad gwaharddiad adran 68 i gerbyd a'i dynnu o wasanaeth os yw mewn cyflwr anniogel, budr neu anfoddhaol.

## 1.6 Arwyddion

- a) Rhoddir plât i'r cerbyd y mae'n rhaid ei osod yng nghefn y cerbyd sy'n dangos nifer y teithwyr y gellir eu cludo.
- b) Rhaid i'r gweithredwr ddychwelyd y plât trwydded i'r Awdurdod Trwyddedu cyn pen saith [7] diwrnod ar ôl i'r drwydded ddod i ben, cael ei dirymu, neu ei hildio. Caiff y blaendal ei ad-dalu oni bai fod angen platiau newydd yn eu lle. Mae methu â dychwelyd y platiau yn drosedd o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
- c) Rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu ar unwaith os aiff plât ar goll a rhaid cael plât newydd yn ei le drwy dalu ffi a bennir gan yr Awdurdod Trwyddedu.
- d) Ni ddylid paentio unrhyw ffitiadau, arwyddion na hysbysebion ar y cerbyd, eu gosod arno, eu hatodi wrtho na'u harddangos yn y cerbyd oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Trwyddedu.

## 1.7 Llwybr

- a) Bydd y cerbyd yn cludo teithwyr ar hyd llwybr a bennwyd ymlaen llaw yn unig, y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn penderfynu'r pris amdano ac ni chaniateir codi unrhyw bris uwch na hynny heblaw ar gyfer siwtcesys, cistiau a baeddu fel y penderfynir gan yr Awdurdod Trwyddedu.
- b) Ni chaniateir gwyro o'r llwybr a bennwyd oni cheir caniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Trwyddedu ymlaen llaw. Derbynnir y gallai fod angen i'r gyrrwr wyro o'r llwybr a

[9]

bennwyd ymlaen llaw pan nad yw'r cerbyd mewn gwasanaeth, er enghraifft teithio adref neu atgyweirio/cynnal a chadw'r cerbyd. Nid oes angen i'r awdurdod gael gwybod am achosion o'r fath.

- c) Mae'r llwybr a bennwyd ymlaen llaw wedi'i atodi i'r ddogfen hon yn ATODIAD B.
- d) Lle mae llwybr wedi'i gau gan Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru neu Gyngor Sir Ceredigion am unrhyw reswm, rhaid i'r perchennog hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a chael caniatâd i gludo teithwyr ar unrhyw lwybr y gwyriad.

## 1.8 Prisiau

- a) Mae'r Cyngor yn gosod yr uchafswm cyfraddau y gellir eu codi gan gerbydau hacni a dynnir gan geffyl.
- b) Bydd y tabl prisiau a bennir gan Gyngor Sir Ceredigion yn cael ei arddangos yn y cerbyd yn y fath fod fel y gall y teithwyr a gludir yn y cerbyd eu gweld yn hawdd. Gellir ysgrifennu'r prisiau hynny yn glir ar arwydd a ddangosir yn agos i'r cefyl a chart er mwyn hysbysu darpar deithwyr o'r pris y disgwyllir iddynt ei dalu.
- c) Ni chaniateir codi unrhyw ffi sy'n fwy na'r hyn a bennir gan yr awdurdod ar unrhyw deithiwr.
- d) Ni chaniateir codi tâl ychwanegol am gludo ci cymorth neu am ddarparu cymorth i unrhyw deithiwr â nam symudedd neu nam arall a allai effeithio ar eu gallu i gamu i'r cerbyd neu gamu ohono. Rhaid rhoi cymorth priodol os gofynnir am hynny.

## 1.9 Trosglwyddo trwyddedau

- a) Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Deddfau i ganiatáu i ddeiliad trwydded drosglwyddo trwydded i gerbyd arall.

## 1.10 Newid perchennog/Gwerthu neu drosglwyddo cerbyd

- a) Rhaid i'r perchennog gyflwyno'n ysgrifenedig enw(au) a chyfeiriad(au) y perchennog(perchnogion) newydd cyn pen 14 diwrnod ar ôl trosglwyddo'r cerbyd i berson arall neu bersonau eraill.

## 1.11 Damweiniau

- a) Os yw cerbyd trwyddedig yn rhan o ddamwain ar unrhyw adeg, waeth pa mor fach yw'r ddamwain, rhaid i'r gyrrwr neu'r perchennog roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn pen saith deg dwy awr ar ôl i'r ddamwain ddigwydd (mewn amgylchiadau eithriadol gall yr Awdurdod Trwyddedu dderbyn hawliadau a wneir y tu allan i'r amserlen honno os

gall y perchennog dystio iddo wneud ymdrechion rhesymol i roi gwybod i'r awdurdod o fewn yr amserlen a bennwyd.)

- b) Ar ôl ei atgyweirio, rhaid i'r cerbyd gael ei gyflwyno i'w archwilio gan swyddog awdurdodedig y Cyngor, neu berson y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn gymwys i gynnal archwiliad o'r fath. Gall methu â chyflwyno'r cerbyd i'w archwilio arwain at atal trwydded y cerbyd hyd nes bod yr awdurdod yn fodlon bod y cerbyd yn addas at y diben.
- c) Os cyflwynir y cerbyd i'w atgyweirio gan adeiladwr/peiriannydd cerbyd *bona fide*, gall tystysgrif a roddir gan yr un adeiladwr/peiriannydd sy'n tystio i addasrwydd yr atgyweiriad/gwaith fod yn dderbyniol.

## 1.12 Cofnodion

- a) Bydd y perchennog yn cadw ac yn cynnal llyfr log dyddiol sy'n rhoi'r wybodaeth ganlynol:
  - i. amser a hyd seibiannau, lluniaeth ac amseroedd bwydo'r ceffyl,
  - ii. unrhyw nodiadau eraill a wneir mewn perthynas â lles y ceffyl, diogelwch y cyhoedd, teithwyr neu gerbyd a gwahardd unrhyw deithwyr, a
  - iii. bydd y llyfr hwn yn cael ei lofnodi gan y perchennog yn ddyddiol.
- b) Rhaid cadw'r llyfr log hwn am o leiaf blwyddyn a chaiff ei gyflwyno ar ôl adnewyddu'r drwydded y flwyddyn ddilynol ac ar gais swyddog awdurdodedig.

## **2. GYRWYR**

### **2.1 Rhagofynion**

- a) Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu fodloni ei hun bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol. O'r herwydd, disgwylir i ymgeiswyr ymddwyn gyda gonestrwydd ac unplygrwydd trwy gydol y broses ymgeisio a chyfnod eu trwydded.
- b) Disgwylir y bydd gwybodaeth y gofynnwyd amdani, er enghraifft, collfarnau a rhybuddiadau blaenorol, yn cael ei datgelu i'r awdurdod yn llawn ac yn gywir. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr a gywyr trwyddedig ddatgelu'r holl golffarnau a rhybuddiadau gan gynnwys y rhai a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai sydd wedi darfod oherwydd mae gywyr cerbydau hacni a dynnir gan geffyl wedi'u cynnwys fel eithriadau o fewn Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975.
- c) Dylid bod yn ofalus wrth lenwi'r ffurflen oherwydd gall methu â datgelu'n llawn ac yn gywir arwain ynddo'i hun at wrthod y cais, adolygu'r drwydded a'r posibilrwydd o gael eich erlyn.
- d) Bydd pob cais yn cael ei drin yn ôl ei rinweddau hun a bydd yn parhau mewn grym am uchafswm o un [1] flwyddyn oni bai ei fod yn cael ei hildio, ei hatal neu ei dirymu.
- e) Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais am drwydded gyrrwr cerbyd a dynnir gan geffyl lenwi'r ffurflen gais berthnasol a'i chyflwyno i'r tîm trwyddedu ynghyd â'r ffi berthnasol a'r ddogfennaeth ofynnol. Ni ystyfir bod cais yn gyflawn oni bai bod yr holl ddogfennaeth ofynnol yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu.
- f) Bydd rhoi trwydded i yrru cerbyd a dynnir gan geffyl yn rhoi hawl i'r deiliad yrru cerbyd a dynnir gan geffyl yn unig. Ni fydd yn rhoi hawl i'r deiliad yrru cerbyd hacni a yrrir yn fecanyddol neu gerbyd hurio preifat.
- g) Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno dystiolaeth i'r awdurdod lleol eu bod yn gymwys ac yn gymwysedig i yrru ceffylau mewn harnais trwy gyflwyno Tystysgrif Cymhwysedd (Tystysgrif Gyrru ar y Ffydd) a roddir gan Gymdeithas Yrru Prydain sy'n nodi bod y gyrrwr wedi llwyddo i ennill Tystysgrif Lefel 3 mewn Diogelwch Gyrru ar y Ffordd ar gyfer y Ceffyl Harnais Sengl.
- h) Yr ymgeisydd fydd yn talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyflwyno prawf ac ardystiad o'r fath.
- i) Bydd gywyr a gweithredwyr yn rhoi sylw dyledus i God Ymarfer yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer cerbydau a dynnir gan geffyl, sydd i'w gweld yma:

[12]

<https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20120606172812/http:/assets.dft.gov.uk/publications/dft-information-sheets/code-of-practice-for-horse-drawn-carriages.pdf>.

- j) Gyda phob cais a wneir am drwydded i yrru cerbyd hacni a dynnir gan geffyl rhaid cyflwyno tystiolaeth fodhaol ar gyfer y materion canlynol, ac ni ystyrir bod ceisiadau sy'n anghyflawn wedi'u gwneud nes eu bod yn gyflawn:-
  - i) Gwiriad cofnod troseddol manylach a thystiolaeth nad yw'r ymgeisydd ar restr gwahardd plant a/neu oedolion sy'n agored i niwed. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gynnal gwiriad cofnod troseddol 'manylach' gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a darparu copi o'r dystysgrif i'r tîm trwyddedu ar gais.
  - ii) Dau lun diweddar o faint pasbort, ac yn yr achos hwn mae diweddar yn golygu eu bod wedi'u tynnu o fewn y 12 mis diwethaf.
- k) Er mwyn cael ei drwyddedu, bydd angen i'r ymgeisydd fodloni'r meinu prawf canlynol:
  - i) Rhaid bod gan yr ymgeisydd yr hawl i fyw a gweithio yn y DU.
  - ii) Rhaid bod yn 18 oed o leiaf ar adeg gwneud cais. Nid oes terfyn oedran uchaf ar yr amod y gall yr ymgeisydd fodloni'r Awdurdod Trwyddedu ei fod yn berson addas a phriodol.
  - iii) Rhaid iddo fod yn ffit yn feddygol a bydd yn bodloni safonau meddygol Grŵp 2 y DVLA. Rhaid i'r ymgeisydd gael archwiliad meddygol gyda'i Ymarferydd Cyffredinol ei hun.
  - iv) Rhaid bodloni'r meinu prawf ffitrwydd a bennir gan yr awdurdod hwn.

## 2.2 Adnewyddu

- a) Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod cais i adnewyddu trwydded yn cael ei gyflwyno mewn digon o amser cyn dyddiad dod i ben y drwydded. Nid oes cyfnod awtomatig o ras.

Gall cais i adnewyddu trwydded a dderbynir ar ôl y dyddiad dod i ben gael ei drin fel cais newydd a dylai ymgeiswyr gyflwyno eu cais i adnewyddu'r drwydded mewn digon o amser er mwyn darparu ar gyfer unrhyw oedi neu eitemau y gallai fod angen eu newid neu eu cywiro cyn prosesu'r cais. Mae'r awdurdod lleol o'r farn mai amserlen ddigonol ar gyfer cyflwyno'r cais i adnewyddu'r drwydded a/neu'r ddogfennaeth yw 30 diwrnod. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw oedi a achosir gan ffactorau allanol neu unrhyw amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

- b) Y perchen nog sy'n gyfrifol am sicrhau bod cais adnewyddu cyflawn yn cael ei gyflwyno cyn i'r drwydded gyfredol ddod i ben, ni anfonir nodiadau atgoffa.

[13]

- c) Lle mae cyfnod rhwng y drwydded gyfredol yn dod i ben a phrosesu'r cais i'w hadnewyddu, ni chaniateir i'r gyrrwr yrru am dâl yn ystod y cyfnod hwn. Gall fod rhai esempiadau os cytunir arnynt gyda'r Awdurdod Trwyddedu.

## 2.3 Prawf Gyrru

Dim ond person sydd wedi'i awdurdodi yn rhinwedd trwydded a roddwyd gan yr awdurdod hwn sy'n gallu gyrru'r cerbyd.

Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu fodloni ei hun bod yr ymgeisydd am drwydded newydd ar gyfer cerbyd hacni a dynnar gan geffyl yn yrrwr cerbyd profiadol sy'n gallu gweithio'n ddiogel mewn ardal sydd â llawer iawn o gerddwyr a thraffig cerbydau.

Disgwylir i ymgeiswyr newydd am drwydded cerbyd hacni a dynnar gan geffyl gwblhau pob uned o fewn Tystysgrif Lefel 3 Diogelwch Gyrru ar y Ffordd ar gyfer y Ceffyl Harnais Sengl. Gwneir yr asesiad terfynol trwy arddangosiad ymarferol a chwestiynu llafar gydag asesydd cymeradwy BDS.

Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr sydd wedi'u trwyddedu o'r blaen gan Gyngor Sir Ceredigion i basio prawf gwybodaeth os oedd eu trwydded olaf wedi dod i ben lai na thair blynedd cyn dyddiad y cais newydd.

## 2.4 Prawf Person Addas a Phriodol

- a) Ni roddir trwydded os na all yr awdurdod lleol fodloni ei hun bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i gael trwydded yrru cerbyd hacni. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw profi i'r awdurdod ei fod yn berson addas a phriodol. Os rhoddir trwydded, rhaid i'r gyrrwr barhau'n berson addas a phriodol trwy gydol cyfnod y drwydded.
- b) Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd gwblhau gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ogystal â chyflwyno tystysgrif feddygol wedi'i chymeradwyo gan ei Ymarferydd Cyffredinol sy'n datgan bod y person yn "ffit". Gweler "ffitrwydd meddygol" a "gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd"
- c) Bydd ymddygiad ac agwedd yr ymgeisydd/gyrrwr trwyddedig tuag at aelodau'r cyhoedd, cyd-yrwyr a gweithwyr yr awdurdod yn cael eu hystyried wrth bennu addasrwydd unigolyn i ddal trwydded. Bydd trwydded yrru yn cael ei hadolygu lle gwnaed honiad wedi'i brofi o ymddygiad ymosodol, anweddus neu annymunol.

## 2.5 Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Un o'r gwiriadau a wneir i bennu a yw person yn addas ac yn briodol yw gwiriad cofnodion troeddol 'manyach' gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno copi o'r dystysgrif a roddir o ganlyniad i'r gwiriad hwn i'r gwasanaeth trwyddedu. Gwneir cais am dystysgrifau DBS fel rheol trwy wasanaeth trwyddedu'r Cyngor ond gall dystysgrif a geir o fan arall, yn ôl disgrifiwn yr Awdurdod Trwyddedu, fod yn dderbyniol os yw'n llai na thri mis oed ac wedi'i phrosesu mewn perthynas â chyflogaeth y gweithlu plant ac oedolion (nodir hyn ar y dystysgrif).

Mae meddu ar "drwydded gyrrwr tacsi / hurio preifat" wedi'i eithrio o ddarpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Felly, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd ddatgelu pob collfarn, rhybudd, rhybuddiad a/neu gerydd.

Pan fydd gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn datgelu collfarnau neu golffarnau difrifol a allai, ym marn y gwasanaeth trwyddedu, wneud ymgeisydd yn anaddas i ddal trwydded yrru, cyfeirir yr ymgeisydd at yr is-bwylgor trwyddedu i bennu ei addasrwydd i ddal trwydded. Bydd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn nhystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei hystyried gan gyfeirio at 'Bolisi Trwyddedu Tacsi a Llogi Preifat – Meini Prawf Ffitrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr' yr awdurdod. Pan fydd yr Awdurdod Trwyddedu neu'r is-bwylgor yn gwyro oddi wrth y Polisi hwn, rhoddir rhesymau clir a chymhellol.

Dylid nodi bod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn anfon y dystysgrif at yr ymgeisydd yn uniongyrchol. Ar ôl ei derbyn, dylid gwneud apwyntiad gyda'r Awdurdod Trwyddedu er mwyn cyflwyno'r dystysgrif i swyddog i'w chymeradwyo. Rhaid cyflwyno'r dystysgrif wreiddiol i'r gwasanaeth trwyddedu i hwyluso prosesu'r cais oherwydd ni dderbynir copïau.

Ni fydd trwydded yn cael ei rhoi na'i hadnewyddu yn absenoldeb dystysgrif gwiriad manyach gyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Sylwch:** Gall newidiadau arfaethedig a ddisgwylir i broses ymgeisio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd olygu bod yr amodau hyn yn destun newid.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

<https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service>.

## 2.6 Ymgeiswyr gyda chyfnodau preswylio y tu allan i'r DU

Os yw ymgeisydd wedi treulio chwe mis parhaus neu fwy y tu allan i'r DU, bydd angen tystiolaeth ar yr Awdurdod Trwyddedu o wiriad cofnod troeddol gan y wlad/gwledydd lle roedd yr ymgeisydd yn preswylio ar gyfer y cyfnod(au) pan wneir cais. Gallai tystysgrif

ymddygiad da a roddwyd gan y Llysgenhadaeth lle yr arferai'r ymgeisydd fyw wedi'i chyfieithu a'i hardystio gan wasanaeth cyfieithu proffesiynol fod yn dderbyniol.

Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun gan roi sylw dyledus i'r Polisi Meini Prawf Ffitrwydd.

## 2.7 Hawl gyrrwr i weithio yn y DU

Bydd y Cyngor yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob ymgeisydd am drwyddedau newydd ddarparu dystiolaeth ddogfennol i gadarnhau bod ganddynt hawl gyfreithiol i weithio yn y DU. Mae engriffiau o ddogfennau y gellir eu darparu yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

Pasbort y DU yn cadarnhau bod y deiliad yn Ddinesydd Prydeinig (neu'n ddinesydd gwlad arall o'r Ardaloedd Economaidd Ewropeaidd gan gynnwys Gwlad yr Iâ, Lichtenstein, Norwy a'r Swistir)

Pasbort neu ddogfen deithio arall wedi'i hardystio i ddangos bod y deiliad yn cael aros yn y DU ac ymgymryd â chyflogaeth am dâl

Tystysgrif geni/mabwysiadu lawn y DU

Dogfen fewnfudo a roddwyd gan yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo i'r deiliad sy'n nodi y gall yr unigolyn a enwir arni aros yn y Deyrnas Unedig ac ymgymryd â chyflogaeth am dâl Trwydded waith neu gymeradwyaeth arall i ymgymryd â chyflogaeth a roddwyd gan y Swyddfa Gartref neu'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo pan gaiff ei chyflwyno ar y cyd â phasbort neu ddogfen deithio arall wedi'i hardystio i ddangos bod y deiliad yn cael aros yn y Deyrnas Unedig gyda chaniatâd i ymgymryd â chyflogaeth am dâl.

Pan fydd ymgeisydd yn ddarostyngedig i reolaethau mewnfudo, ni roddir trwydded am fwy na'r cyfnod y mae gan yr ymgeisydd ganiatâd i ymgymryd â chyflogaeth am dâl yn y Deyrnas Unedig.

## 2.8 Asesiad Meddygol

Mae'r DVLA yn argymhell y dylai gyrwyr cerbydau hacni fod yn ddarostyngedig i safonau meddygol Grŵp 2 sy'n berthnasol i bersonau sy'n gwneud cais am drwyddedau i yrru Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSV) a Cherbydau Nwyddau Mawr (LGV).

Mabwysiadodd yr awdurdod y safon feddygol hon ar gyfer gyrwyr trwyddedig ym mis Hydref 2016 a bydd y safon hon yn berthnasol i yrwyr cerbydau hacni a dynnir gan geffyl hefyd.

- Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gael asesiad meddygol pan wneir cais am y tro cyntaf a phob 5 mlynedd wedi hynny tan eu bod yn 65 oed pan fydd gyrwyr yn destun archwiliadau blynnyddol. Ni fydd yn ofynnol i ddeiliaid trwyddedau PSV a/neu LGV cyfredol lle gall y deiliad ddangos prawf o archwiliad meddygol

[16]

cyfredol gael asesiad pellach, ond bydd yn ofynnol iddynt gyflwyno'r dystysgrif honno ar yr adegau gofynnol neu gael archwiliad newydd er mwyn cael dystysgrif feddygol sy'n tystio eu bod yn ffit yn feddygol.

- b) Pan fydd unrhyw amheuaeth yngylch ffitrwydd meddygol yr ymgeisydd, gall yr awdurdod lleol ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymgeisydd gael archwiliad meddygol pellach gan feddyg a benodir gan yr awdurdod lleol. Yr ymgeisydd fydd yn talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag archwiliadau meddygol.
- c) Rhaid i ddeiliaid trwydded roi gwybod i'r gwasanaeth trwyddedu am unrhyw newid yn eu hiechyd a allai effeithio ar eu galluoedd gyrru – mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhestr o amodau y mae'n rhaid rhoi gwybod i'r DVLA amdanynt.
- d) Pan fydd unrhyw amheuaeth yngylch ffitrwydd yr ymgeisydd, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn adolygu'r drwydded yrru. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cadw'r hawl i atal neu ddirymu trwydded lle mae unrhyw amheuaeth yngylch ffitrwydd y gyrrwr.

## 2.9 Ymddygiad Cyffredinol

Bydd deiliaid trwydded yn ceisio hyrwyddo delwedd y fasnach cerbydau hacni a dynnir gan geffyl trwy gydymffurfio ag amodau eu trwydded, y polisi trwyddedu cerbydau hacni a dynnir gan geffyl, a lle bo hynny'n berthnasol is-ddeddfau cerbydau hacni.

- a) Bydd y gyrrwr yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddiogelwch ei deithwyr a defnyddwyr ffyrdd eraill.
- b) Bydd y gyrrwr yn:
  - i) Ymddwyn mewn modd sifil, trefnus a chyfrifol bob amser
  - ii) Cadw'r cerbyd mewn cyflwr diogel a boddhaol bob amser; sicrhau ei fod yn lân ac yn addas i'w hurio gan y cyhoedd bob amser
  - iii) Rhoi cymorth i deithwyr gamu i fyny a chamu o'r cerbyd, lle bo angen.
- c) Pan fyddant yn aros yn y safle tacsis, yn ychwanegol at yr uchod bydd gyrwyr yn:
  - i) Aros yn drefnus ac yn symud ymlaen ar hyd y safle tacsi mewn trefn, gan symud ymlaen yn brydlon
  - ii) Aros yn y cerbyd neu'n agos ato
  - iii) Rhoi sylw i hylendid personol a gwisg er mwyn cyflwyno delwedd broffesiynol i'r cyhoedd;
  - iv) Bod yn gwrtais ac o gymorth i deithwyr

- v) Trin pob cwsmer ag urddas a pharch waeth beth fo'i oedran, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, crefydd neu gred
- vi) Gyrru gyda gofal gan roi ystyriaeth ddyladwy i ddefnyddwyr ffyrdd a cherddwyr eraill
- vii) Dilyn i'r holl orchmynion a chyfarwyddiadau traffig bob amser
- viii) Peidio ag yfed alcohol
- ix) Peidio ag ysmygu tra eu bod ar y cerbyd
- x) Peidio â defnyddio ffôn symudol â llaw tra bo'r cerbyd yn symud
- d) Dylai gyrrwr wisgo eu bathodyn gyrrwr i sicrhau bod teithwyr yn gallu gweld enw'r gyrrwr ac unrhyw wybodaeth arall sydd arno yn hawdd.
- e) Rhaid i deithwyr eistedd yn gywir ac yn ddiogel yn adran y teithwyr
- f) Ni fydd y gyrrwr yn caniatáu i unrhyw un heblaw swyddog awdurdodedig, archwiliwr, gwas stabl neu yrrwr dan hyfforddiant eistedd ym mlaen y cerbyd.
- g) Bydd pob rhan o harnais yr anifeiliaid sy'n tynnu'r cerbyd yn cael eu cadw mewn cyflwr da fel bod yr anifail wedi'i gysylltu'n ddiogel wrth y cerbyd a'i fod o dan reolaeth y gyrrwr.
- h) Ni chaiff perchennog neu yrrwr cerbyd hacni, wrth yrru neu aros i'w hurio, erfyn am unrhyw gwsmeriaid trwy unrhyw ddull heblaw arddangos ar y cerbyd y geiriau "i'w hurio" a/neu "for hire".
- i) Os yw'r safle wedi'i feddiannu'n llawn pan fydd y gyrrwr yn cyrraedd, bydd y cerbyd yn symud ymlaen i safle arall.
- j) Ni chaiff y gyrrwr chwarae unrhyw radio, canu unrhyw gloch na chorn nac unrhyw offeryn gwneud sŵn arall o'r cerbyd

## 2.10 Rheolau Gwisg Gyrwyr

Cydnabyddir bod y fasnach cerbydau hacni a dynnir gan geffyl yn chwarae rhan bwysig wrth bortreadu delwedd gadarnhaol o Geredigion fel Sir.

Mae unrhyw beth sy'n gwella delwedd broffesiynol y fasnach ac yn hyrwyddo'r cysyniad bod gyrwyr cerbydau trwyddedig yn yrwyr galwedigaethol proffesiynol i'w groesawu.

Pwrpas rheolau gwisg gyrwyr yw ceisio safon gwisg sy'n rhoi delwedd gadarnhaol o'r fasnach cerbydau hacni a dynnir gan geffyl yn Sir Ceredigion i wella delwedd broffesiynol gyrwyr trwyddedig, a sicrhau nad yw diogelwch y cyhoedd a gyrwyr yn cael ei gyfaddawdu.

- a) Rhaid i'r holl ddillad a wisgir gan y gyrrwr fod yn lân ac mewn cyflwr da a thaclus, heb eu rhwygo, a rhaid i'r gyrrwr fod â safonau da o hylendid personol ac ymbaratoi.

- b) Dylid ystyried iechyd a diogelwch y gyrrwr a rhaid i unrhyw ddillad a ddarperir sicrhau bod y gyrrwr yn cadw'n gynnes neu'n lled oer yn ôl yr angen. Fel safon ofynnol, dylai gyrwyr wisgo dillad sy'n disgyn islaw hyd pen-glin, fel siorts neu drowsus hir, a chrys neu flows sydd â chorff llawn a llewys byr fan lleiaf.
- c) Ni ystyrir sgert neu ffrog yn wisg addas oherwydd y perygl sydd i'r gyrrwr os yw unrhyw ffabrig gormodol yn mynd yn sownd yn yr offer, harneisiau, olwynion neu ran arall o'r cerbyd.
- d) Ni chaniateir geiriau neu graffeg ar unrhyw ddillad sydd o natur sarhaus neu awgrymog neu a allai dramgyddo.
- e) Ni chaniateir dillad chwaraeon (er enghrafft citiau pêl-droed/rygbi, tracwisoedd, dillad traeth, ac ati).
- f) Rhaid i esgidiau fod yn addas ac yn briodol. Ni chaniateir fflip-fflops, sandalau nac esgidiau nad ydynt yn gwarchod y traed.
- g) Bydd gyrwyr yn gwisgo dillad addas bob amser wrth gyflawni eu dyletswyddau.
- h) Ni chaniateir gwisgo cyflau neu ddillad eraill sy'n cuddio golwg y gyrrwr neu eu hunaniaeth.

Nid yw'r rhestrau uchod yn gyflawn a bydd swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol yn asesu a yw safonau gwisg yn dderbyniol ai peidio. Mewn achosion o'r fath, bydd penderfyniad y swyddog yn effeithiol fel petai wedi'i gynnwys yn y rhestrau uchod, a bydd yn ofynnol i'r gyrrwr trwyddedig gydymffurfio yn unol â hynny.

### **3. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

Ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn goddef gwahaniaethu o unrhyw fath. Os gwneir unrhyw gwynion yngylch trin teithwyr yn annheg, neu unrhyw ymddygiad negyddol at deithiwr oherwydd nodwedd warchodedig, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cynnal ymchwiliad llawn a thrwyndl a chaiff camau gorfodi eu cymryd pan fydd angen. Caiff unrhyw honiad o wahaniaethu ei drin yn eithriadol o ddifrifol a gellir rhoi gwybod i'r Heddlu amdano. Yna, gall yr Awdurdod Trwyddedu adolygu'r drwydded i bennu a yw deiliad y drwydded yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i gael trwydded o'r fath.

Mae'n ofynnol i yrwyr ddarllen Atodiad F i'r Polisi cyffredinol "Amodau Hwyluso Mynediad ar gyfer Cerbydau Dynodedig".

## 3.1 Teithwyr agored i niwed a Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae teithiwr agored i niwed yn rhywun y mae ei oed a'i anabledd y golygu ei fod yn fwy agored i niwed na'r teithiwr arferol. Gall fod yn blentyn, yn berson oedrannus neu'n rhywun ag anawsterau dysgu neu gyfyngiadau symudedd er enghraifft. Gall gynnwys rhywun sy'n agored i niwed oherwydd lefel ormodol o feddwdod neu gyflwr neu alluedd meddyliol.

Mae adrannau 165, 166 a 167 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswyddau ar yrwyr sy'n cludo teithwyr anabl. I sicrhau bod gyrrwr yn deall ac yn cyflawni'r dyletswyddau hyn, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi amlinellu'r amodau hyn sy'n ategu Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'n bwysig deall nad yw anableddau bob amser yn weladwy. Efallai na fydd yn amlwg ar unwaith fod gan deithiwr ofynion arbennig. Mae mynediad corfforol i ddefnyddwyr cadair olwyn yn bwysig ond nid yw mynediad i gerbyd ond yn rhan o'r gwasanaeth a ddarperir.

## 3.2 Gofal Priodol

- a) Mae'n ddyletswydd ar y gyrrwr i arfer gofal ac amynedd priodol wrth gludo teithwyr.  
Rhaid i'r gyrrwr ystyried unrhyw anabledd neu nam pan fydd yn cludo'r teithiwr a chynnig cymorth fel y bo'n briodol ac yn ôl yr angen.
- b) Rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod y teithwyr i gyd yn cael eu cludo'n ddiogel ac yn rhesymol gyffyrddus, p'un ai a oes anabledd neu nam ar y teithiwr ai peidio sy'n effeithio ar ei weithgareddau bob dydd.
- c) Bydd y gyrrwr yn sicrhau bod unrhyw gadeiriau olwyn neu offer a gludir yn sownd yn y cerbyd cyn dechrau'r daith. Dylai unrhyw gadeiriau olwyn, offer a theithwyr gael eu cludo mewn modd nad yw'n debygol o achosi unrhyw berygl i unrhyw deithiwr yn unol â Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Gwneuthuriad a Defnydd) 1986,
- d) Rhaid i'r gyrrwr beidio â chodi tâl ychwanegol am gludo cadeiriau olwyn, offer anabledd neu gŵn cymorth.
- e) Rhaid i'r gyrrwr/gweithredwr gadarnhau bod y ddarpariaeth briodol wedi cael ei gwneud ar gyfer y teithiwr cyn derbyn yr archeb neu ddechrau'r daith. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod y gyrrwr/gweithredwr yn gyfrifol am ddarparu'r mesurau priodol, fod bynnag, dylent wirio bod y mesurau yn eu lle.
- f) Dylai gyrrwr wneud nodyn yn y llyfr log dyddiol pan fydd gwasanaeth wedi'i ddarparu i deithiwr agored i niwed gan gynnwys unrhyw ddigwyddiadau/gweithredoedd neu wasanaethau a wrthodwyd.

- g) Ar daith gyda theithwyr agored i niwed, dylai cerdyn hunaniaeth sy'n cynnwys llun gael ei ddangos i'r gofalwr sy'n gyfrifol am y person hwnnw. Os oes angen dylech gael cofnod o fanylion cyswllt y gofalwr os nad oes hebryngwr.
- h) Os gwrthodir cludo teithiwr agored i niwed, dylai person cyfrifol gael gwybod er mwyn gallu gwneud trefniadau eraill. Er enghraifft, gall y sefyllfa hon godi os oes ci cymorth gan y cwsmer ac mae gan y gyrrwr esemtiaid meddygol rhag cludo ci cymorth a roddwyd gan yr Awdurdod.
- i) Gofynnwch a oes angen cymorth ar deithiwr bob amser, peidiwch â chymryd hynny'n ganiataol.
- j) Dylai gyrrwyr fod yn broffesiynol bob amser ac ni ddylent:
- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 51 plentyn/person ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 16 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyl i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.
- Roedd 50 (98%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu teuluoedd, o'i gymharu â 100% yn y chwarter blaenorol.
- Cofnododd 1 (2.0%) Adolygiad bod y plentyn yn ymwybodol i raddau beth yw'r cynllun ar ei gyfer a pham nad yw'n gallu byw gyda'i fam.

**16. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyl) a oedd yn deall eu Cynlluniau Gofal a Chymorth.**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 51 plentyn/person ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 16 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyl, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrâu.

- Roedd 48 (94.1%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6).
- Mewn 3 (5.9%) adolygiad cofnodwyd bod hyn yn aneglur ac yn ddarn o waith a oedd angen ei wneud gyda'r person ifanc.

**17. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud Plant sy'n Derbyn Gofal.**

- Mewn 6 (8.9%) Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn; o'i gymharu ag 19.0% yn y chwarter blaenorol.

Dyma oedd y rhesymau dros newid y lleoliadau:

- Symudwyd 1 person ifanc oherwydd bod lleoliad maethu wedi chwelu.
- Adolygwyd 1 person ifanc ddwywaith yn ystod y chwarter a nodwyd bod y lleoliad wedi chwelu yn y ddau adolygiad.
- Symudodd 2 berson ifanc i fyw gyda ffrind teulu/lleoliad gyda theulu.
- Symudodd 1 person ifanc o leoliad brys i leoliad tymor byr.

**18. Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Cofnodwyd bod pob un o'r 67 (100.0%) o Gynlluniau Lleoli/Gofal a Chymorth yn bodloni anghenion y plant/pobl ifanc, ac mae hyn yn gyson â'r chwarter blaenorol.

**19. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y chwarter hwn.**

- Mewn 2 (3.0%) Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal (ar gyfer yr un person ifanc) nodwyd pryderon diogelu ar gyfer y person ifanc, a chadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.


**20. Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.**

- Nodwyd mewn 5 (7.5%) adolygiad bod y person ifanc wedi'i enwi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**21. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd Asesiadau lechyd yn unol â'r gofynion statudol.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 97.1%

- Roedd 65 (97.1%) o'r Plant/Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal wedi cael asesiad iechyd erbyn eu hadolygiad, o'i gymharu â 94.8% yn y chwarter blaenorol.
- Nid oedd gan 2 (2.9%) o'r Plant/Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal asesiad iechyd diweddar adeg ei adolygiad.



**Sylwadau:** Cafodd asesiadau iechyd y ddau blentyn eu cwblhau wedi hynny erbyn 27 Mai; y rheswm am yr oedi oedd oherwydd hysbysiad hwyr i'r Adran lechyd eu bod yn Blant sy'n Derbyn Gofal.

**22. Canran y plant a oedd wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael eu derbyn i ofal.**

Targed a bennwyd: 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

**Wedi'u cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ynghylch y plant/pobl ifanc a oedd wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael eu derbyn i ofal yn ymwneud â 10 plentyn/person ifanc.

- Cofnodwyd ym mhob un o'r 10 adolygiad (100.0%) bod y plant/pobl ifanc wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.

\*\*\*\*\*

**Wedi'u cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 61 plentyn/ person ifanc oherwydd diystyriwyd 6 phlentyn/person ifanc a oedd yn cael eu Hadolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cyntaf er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 58 (95.1%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda deintydd. Mae hyn yn cymharu ag 87.2% yn y chwarter blaenorol.
- Nid oedd 3 (4.9%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda deintydd, ac roedd 2 o'r rhain yn iau na 2 flwydd oed.

**Sylwadau:** Nid yw 2 blentyn wedi'u cofrestru ar hyn o bryd gyda'r deintydd a chânt eu cyfeirio at y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol pan fyddant yn dychwelyd i'r ardal. Cafodd 1 plentyn pellach ei atgyfeirio wedi hynny a'i weld yn dilyn yr adolygiad.

**23. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl cael eu derbyn i ofal.**

**Wedi cael eu gweld gan ddeintydd**

Mae'r data ynghylch y plant/pobl ifanc a oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl cael eu derbyn i ofal yn ymwneud â 10 blentyn.

- Cofnodwyd mewn 6 adolygiad (60.00%) bod y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl cael ei dderbyn i ofal.

- Cofnodwyd nad oedd 4 (40.0%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd o fewn 3 mis o fod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal.

**Sylwadau:** Pandemig Covid-19 yn parhau. Dim apwyntiadau rheolaidd. Pob un o'r 4 wedi cofrestru gyda deintydd preifat, nid y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.


\*\*\*\*\*

## Wedi cael eu gweld gan ddeintydd

Targed a bennwyd 90% – Yr hyn a gyflawnwyd 55.2%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 58 o blant/pobl ifanc gan fod 9 plentyn/person ifanc yn iau na 2 oed a/neu'n cael eu Hadolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cyntaf, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrâu uchod er mwyn cyd-fynd â gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 32 (55.2%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn y 12 mis blaenorol, o'i gymharu â 51.3% yn y chwarter blaenorol.
- Cofnodwyd nad oedd 26 (44.8%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.



**Sylwadau:** Pandemig Covid-19 yn parhau: Tim lechyd Plant sy'n Derbyn Gofal wedi cysylltu â'r Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol i fyngi pryder nad yw plant sy'n derbyn gofal wedi cael apwyntiadau

rheolaidd am fwy na 12 mis. Ymateb y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yw bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi nad ydynt yn cynnig apwyntiadau rheolaidd, ond os bernir bod angen triniaeth bydd yn cael ei darparu. Nodwyd os oes angen gweld Plentyn sy'n Derbyn Gofal gellir cysylltu â'r clinig. Caiff pob aelod o staff wybod os ydynt yn derbyn galwad ffôn ac mae'r plentyn yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal dylid gwneud apwyntiad iddynt gyda'r clinig priodol.

**24. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'u cofrestru â Meddyg Teulu o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.**

- Mewn 8 (80.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi'i gofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.
- Adroddodd 2 (20.0%) adolygiad fod y cam gweithredu hwn yn parhau heb ei weithredu a bod hyn yn gam y cytunwyd arno o'r Adolygiad.

**Sylwadau:** Cyngorodd y Nyrs Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal fod y 2 blentyn yma wedi cael eu cofrestru wedi hynny gyda Meddyg Teulu yn ardal eu lleoliad. Roeddent wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu adeg yr adolygiad, ond nid gyda Meddyg Teulu lleol.

**25. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Roedd pob un o'r 67 (100.0%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.
- Roedd 61 (96.8%) o blant wedi cael eu holl frechiadau angenrheidiol.
- Roedd 2 (3.2%) blentyn yn hwyr yn derbyn eu brechiadau, fodd bynnag, cadarnhawyd bod trefniadau wedi'u gwneud i'r ddau berson ifanc gael eu brechu.

Cafodd 4 adolygiad eu diystyr u yn yr hafaliad oherwydd roedd y rhiant yn gwrthod caniatáu i'r plentyn gael ei frechu.

- 26. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau lechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad/gwasanaeth.**

Targed: 50%

Gwir Berfformiad


- Mewn 5 (7.5%) Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi'i atgyfeirio i CAMHS, a chadarnhawyd ym mhob un o'r 5 adolygiad bod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn ar gyfer y plentyn/person ifanc.
- Cofnododd 1 adolygiad pellach fod gwasanaeth yn cael ei ddarparu i berson ifanc a gafodd ei atgyfeirio yn flaenorol.
- Mewn 64 (97.0%) adolygiad, cofnodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc wedi'i ystyried yn yr Asesiad lechyd a/neu wrth drafod yn y cyfarfod.
- Mewn 2 (3%) adolygiad, cofnodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc wedi'i ystyried yn yr Asesiad lechyd a/neu wrth drafod yn y cyfarfod.
- Mewn 1 adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc yn rhy ifanc, felly cafodd hwn ei ddiystyru yn y ffigurau.

- 27. Natur y ddarpariaeth addysg:**

Yn ystod y chwarter dan sylw, dyma oedd y ddarpariaeth addysg ar gyfer y plant a'r bobl ifanc a adolygydwyd:

<b>Darpariaeth addysg</b>	
Disgyblion ysgol gynradd	29
Disgyblion ysgol uwchradd	18
Plant cyn-ysbol	14
Coleg	2
Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET)	2
Preswyl	
Prosiectau eraill – Lleoliad Gwaith Arbenigol	
Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU)	2
Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)	
Wedi gadael ysgol	
Tiwtora	
Addysg Ddewisol yn y Cartref	
Cyflogedig	
<b>Cyfanswm</b>	<b>67</b>

**Darpariaeth addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd yng Ngheredigion  
Chwarter 1 2021/2022**



- 28. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd.**

Targed a bennwyd 70% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 45 plentyn/person ifanc a oedd dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol, ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd gan 45 (100.0%) o'r plant a phobl ifanc dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol Gynllun Addysg Personol cyfredol.
  - Mewn 4 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal, neu o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl symud i ysgol newydd yn unol â'r gofynion.
  - Mewn 41 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.

\*\*\*

- Roedd gan 11 (23.4%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg anghenion dysgu ychwanegol wedi'i gydnabod.
  - Mewn 16 (35.6%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant/pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg yn tangyflawni o ran eu haddysg. Ym mhob un o'r 16 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth.
  - Mewn 7 (100.0%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu pan ddechreuodd y lleoliad.

- Ni chofnodwyd mewn unrhyw adolygiad bod y plentyn/person ifanc heb fod mewn addysg am gyfnod wrth aros am le mewn ysgol.

**29. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio**

Targed a Bennwyd 0% – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%

- Mewn 0 (0.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud i ysgol arall ac nad oedd yn symud yn sgil pontio, o'i gymharu â 5.9% yn y chwarter blaenorol.

**30. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol**

Targed a Bennwyd 12% yn cael gwaharddiad dros dro – Yr hyn a gyflawnwyd 2.2%

Targed a Bennwyd 1% yn cael gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%

- Mewn 1 adolygiad (2.2%) adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu. Mae hyn yn cymharu ag 0% yn y chwarter blaenorol.
- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) fod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

Dyma'r gwaharddiadau yn ystod y chwarter hwn. -

- 21 sesiwn – 10.5 diwrnod
- 7 sesiwn – 3.5 diwrnod
- 7 sesiwn – 3.5 diwrnod

## ADRAN TRI

### YMGYNGHORI A CHYFRANOGLI

1. **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyl fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gallu ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 98.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 51 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 16 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyl i fod yn rhan o'r broses ymgynghori, er bod 2 o'r rhain wedi bod yn bresennol yn yr adolygiad.

- Cofnodwyd mewn 50 (98.0%) Adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.
- Cofnododd 1 (2.0%) adolygiad nad oedd unrhyw ymgynghori wedi digwydd oherwydd bod Gofalwr wedi gwrthod cael Ymgynghoriad/Eiriolwr ar gyfer y person ifanc.

#### Dadansoddiad o'r ymgynghori

Bu 21 plentyn/person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu drwy Teams. Roedd 29 plentyn/person ifanc wedi cwblhau papurau ymgynghori a/neu roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Nid oedd gan y Swyddog Adolygu Annibynnol gysylltiad uniongyrchol ag unrhyw blentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu y tu allan i'r cyfarfod adolygu.

- 2 **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli/Cynllun Ymwelydd Annibynnol**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 98.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 50 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 17 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc a adolygywyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyl i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystriwyd o'r ffigyrâu.

- Hysbyswyd 49 (98.0%) o blant/pobl ifanc am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol a gwnaethpwyd atgyfeiriad.
- Mewn 1 (2.0%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y plentyn/person ifanc yn ymwybodol o'r Gwasanaeth Eirioli.

## 3 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 97.7%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 44 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 23 adolygiad nad oedd y plentyn/person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyl, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrâu.

- Roedd 43 (97.7%) o blant/pobl ifanc yn gwybod am y drefn gwyno, o'i gymharu â 97.4% yn y chwarter blaenorol.
- Roedd angen i'r Gweithiwr Cymdeithasol roi gwybod i 1 (2.3%) plentyn/person ifanc am y drefn gwyno.

## 4 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu

Targed a bennwyd 80% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 64 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 3 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrâu.

- Cwblhaodd 64 (100.0%) o rieni bapurau ymgynghori neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a/neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a/neu roeddent wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu eu hunain, a/neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

### Dadansoddiad o'r ymgynghori

Cafodd papurau ymgynghori eu hanfon allan ar gyfer 64 adolygiad.

Mewn 51 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol, neu wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a/neu ar ôl yr adolygiad.

## 5 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 55 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 12 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu roedd yn byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn yn y ffigyrâu.

- Cwblhaodd 55 (100.0%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a/neu buont yn bresennol yn yr adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn.

**6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Cynrychiolwyr lechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Mewn 67 (100.0%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarod.

**7. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn Adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Mewn 54 (100.0%) Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal roedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

**8. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Dogfennau Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 64.2%

- Mewn 43 (64.2%) Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cadarnhawyd bod y Gweithiwr Cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cyn yr adolygiad o'i gymharu â 72.4% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 24 (35.8%) Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cadarnhawyd nad oedd y Gweithiwr Cymdeithas wedi cwblhau'r ddogfen Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cyn yr adolygiad; ac nid yw 15 o'r dogfennau hyn wedi'u cwblhau o hyd.

**Sylwadau:** Mae hyn oherwydd problemau staffio o fewn y Tîm Gwaith Cymdeithasol. Mae mesurau yn cael eu rhoi yn eu lle i roi sylw i'r broblem hon.

## **ADRAN PEDWAR: PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU**

Ni weithredodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y Protocol Datrys Problemau ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod hwn.

Er y nodwyd nad oedd adolygiadau canol cyfnod yn cael eu cynnal, lle bo angen, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn dwyn adolygiadau ymlaen pan oedd pryderon.

## **ADRAN PUMP GWERTHUSO**

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

## ADRAN CHWECH

### CYNLLUNIAU LLWYBR

#### Ar gyfer pobl dros 16 oed a heb fod yn Blant sy'n Derbyn Gofal/pobl dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 15 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

#### 1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser

- Cynhaliwyd 12 (80.0%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.
- Cynhaliwyd 3 (20.0%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu allan i'r terfynau amser. Y rhesymau a gofnodwyd oedd: -
  - Caniatáu i'r person ifanc fod yn bresennol
  - Er mwyn i'r Adolygiad o'r Cynllun Llwybr gyd-fynd ag Adolygiad o Leoliad Coleg
  - Cam-gyfathrebu o ran y dyddiad a'r amser

#### 2 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.

- Ym mhob un o'r 15 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a/neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.

#### 3 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion Adolygiad o Gynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod

- Roedd y cofnod adolygu wedi'i gwblhau erbyn y cyfarfod ar gyfer 15 (100%) o Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

#### 4 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal

- Cadarnhaodd bob un o'r 15 (100%) adolygiad fod barn y plentyn/person ifanc wedi cael ei chynrychioli yn yr adolygiad a/neu ei fod wedi yn bresennol yn yr adolygiad.

**5 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn eu Cyfarfod Adolygu.**

- Cofnododd 8 (53%) adolygiad fod y person ifanc wedi mynchu ei adolygiad, cofnododd 1 (7%) adolygiad pellach bod y person ifanc wedi mynchu am gyfnod byr iawn.
- Mewn 6 (40%) adolygiad cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn yr adolygiad.

**6 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr oedd wedi bodloni anghenion y person ifanc**

- Ym mhob un o'r 15 (100%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.

**7 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal/pen-blwydd yn 18 oed**

- Nid oedd unrhyw bobl ifanc yn y categori angen i'w Gynllun Llwybr gael ei ddiweddu cyn i'r person ifancadael gofal/ei ben-blwydd yn 18 oed.

**8 Gwerthuso – Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

## ADRAN SAITH

### LLEOLIADAU PRESWYL AR GYFER PLANT NAD YDYNT YN BLANT SY'N DERBYN GOFAL

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o leoliadau preswyl ar gyfer plant nad ydynt yn Blant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y cyfnod dan sylw.

\*\*\*

## ADRAN WYTH

### SEIBIANNAU RHEOLAIDD

Cynhaliwyd 1 Adolygiad o Seibiant Rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

- 1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Seibiant Rheolaidd a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol**
  - Ni chynhaliwyd yr adolygiad hwn o fewn y terfynau amser oherwydd pryderon diogelu ynghylch Lleoliad y Tu Allan i'r Sir; cafodd y lleoliad ei atal dros dro yn y cyfleuster hwn tra bo'r broses ddiogelu yn mynd rhagddi.
- 2 Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn lleoliadau Seibiant Rheolaidd a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser gofynnol**
  - Cofnodwyd bod yr ymweliadau statudol wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser ar gyfer yr adolygiad hwn.
- 3 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy/a fynychodd y Cyfarfod Adolygu**
  - Cofnodwyd yn yr adolygiad bod y person ifanc wedi'i gynrychioli/wedi mynychu'r cyfarfod adolygu.
- 4 Dangosydd Perfformiad: Canran y rhieni yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y Cyfarfod Adolygu**
  - Cofnodwyd bod y rhiant naill ai wedi mynychu/wedi'i gynrychioli/wedi yn y cyfarfod adolygu.
- 5 Dangosydd Perfformiad: Canran y Gofalwyr Maeth yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y Cyfarfod Adolygu**
  - Cofnodwyd bod y Gofalwyr naill ai wedi mynychu/wedi'u cynrychioli yn yr adolygiad.

\*\*\*

**ADRAN NAW**

**SEIBIANNAU BYR**

Ni chynhaliwyd unrhyw Adolygiadau o Seibiannau Byr yn ystod y cyfnod dan sylw.

\*\*\*

## ADRAN DEG ADOLYGIADAU O OFALWYR MAETH

Cynhaliwyd 7 Adolygiad o Ofalwyr Maeth yn ystod y cyfnod dan sylw.

- 1 Dangosydd Perfformiad: Nifer a chanran yr Adolygiadau o Ofalwyr Maeth a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol**
  - Cynhaliwyd 2 (29%) Adolygiad o Ofalwyr Maeth o fewn y terfynau amser.
  - Cynhaliwyd 5 (71%) Adolygiad o Ofalwr Maeth y tu allan i'r terfynau amser oherwydd absenoldeb Cadeirydd Annibynnol.
- 2 Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd oddi wrth y Gweithiwr Cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal**
  - Cadarnhaodd 7 (100%) Adolygiad o Ofalwyr Maeth bod yr ymgynghoriad wedi cael ei darparu gan y Gweithiwr Cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal.
- 3 Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd oddi wrth blant**
  - Cadarnhaodd 4 (66%) Adolygiad o Ofalwyr Maeth fod yr ymgynghoriadau wedi cael eu derbyn gan y plant.
- 4 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adroddiadau gan Weithwyr Cymdeithasol sy'n Goruchwylia a dderbyniwyd**
  - Derbyniwyd adroddiad gan y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylia ar gyfer pob un o'r 7 (100%) adolygiad.
- 5 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau oedd wedi gallu gwneud yr hyn y bwriadwyd iddynt wneud**
  - Cadarnhawyd bod pob un o'r 7 (100.0%) adolygiad wedi gallu gwneud yr hyn y bwriadwyd iddynt ei wneud.
- 6 Dangosydd Perfformiad: Canran y lefel o fodlonrwydd o ran y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd**
  - Nododd 6 (86%) adolygiad fod y Gofalwyr Maeth yn 'fodlon iawn' â'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Lleoli Teulu.

- Nododd 1 (14%) adolygiad fod y Gofalwr Maeth o'r farn bod gwasanaeth y Gwasanaeth Lleoli Teulu yn 'anfoddhaol'; nodwyd bod hyn oherwydd bod yr Adolygiadau heb gael eu cynnal yn flynyddol, ac ni chafwyd goruchwyliaeth reolaidd.

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

<b>ADRODDIAD I'R :</b>	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach
<b>DYDDIAD:</b>	<b>16 Rhagfyr 2021</b>
<b>LLEOLIAD:</b>	Dros Zoom
<b>TEITL:</b>	<b>Adroddiad Blynnyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-20</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	<b>Adroddiad i'r Pwyllgor ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion am y flwyddyn 2019 - 2020 yn unol â'r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol.</b>
<b>RHESWM PAHAM Y BU I GRAFFU OFYN AM Y WYBODAETH</b>	<b>Diweddar Aelodau</b>
<b>CEFNDIR:</b>	

Nodir yr hyn sy'n ofynnol yn Adroddiad Blynnyddol Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol & Lles (Cymru) 2014 o dan 'Cod Ymarfer Rôl Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol'.

Nod yr Adroddiad Blynnyddol yw creu darlun cyflawn o Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngheredigion gan hefyd ddarparu adborth amserol ar brosesau cynllunio a chyllido. Mae'r adroddiad ar gyfer blwyddyn 2019 - 2020 yn un hanesyddol yn sgil dechrau Covid 19 ym mis Mawrth 2020. Bu i Lywodraeth Cymru ymestyn y cyfnod amser ar gyfer cwblhau'r adroddiad yn sgil yr angen i swyddogion ffocysu ar ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod y Pandemig. Yn ogystal nid oedd y gofynion gymaint ar Gynghorau i ddarparu gwybodaeth perfformiad ac adlewyrchir hyn yn yr adroddiad.

### Strwythur a Chynnwys

Ar ôl ymgymryd â swydd Cyfarwyddwr Statudol dros dro am Wasanaethau Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2019 cwblhawyd yr adroddiad gan D Pritchard Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Porth Gofal a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r adroddiad yn disgrifio sut y mae Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion wedi perfformio yn ystod y flwyddyn (2019 - 2020) yng nghyd-destun newidiadau mawr yn yr amgylchedd gwaith. Bydd yr adroddiad hefyd yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer 2020-2021 gan ystyried fod y Pandemig yn parhau i fod yn ddylanwad mawr ar y modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

Caiff yr adroddiad ei ddefnyddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) er mwyn bod yn sail i'w harfarniad annibynnol o'r gwasanaeth yng Ngheredigion a'u gwaith harchwilio.

**LLESIANT  
CENEDLAETHAU'R  
DYFODOL**

Oes Asesiad Effaith Integredig  
wedi ei gwblhau? Na  
Os nad oes AEI nodwch pam -  
Adroddiad er gwybodaeth yn  
unig.  
**Crynodeb:**  
**Hirdymor:**  
**Integreiddio:**  
**Cydweithio:**  
**Cynnwys:**  
**Atal:**

### **ARGYMHELLIAD**

Adroddiad er gwybodaeth a thrafodaeth yn unig.

### **RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

**Amherthnasol**

**Enw Cyswllt:** Donna Pritchard  
**Swydd:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Gofal  
**Dyddiad yr Adroddiad:** 1 Tachwedd 2021  
**Acronymau:**

2019-20

Cyngor Sir Ceredigion

## Donna Pritchard



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council



Caru•Love  
**Ceredigion**

**Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Ceredigion –  
Adroddiad Blynnyddol  
y Cyfarwyddwr  
Statudol**



<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>3</b>
Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig Porth Ceredigion .....	5
<b>2. Crynodeb o'r performiad .....</b>	<b>6</b>
Crynodeb o'r Gwasanaethau Oedolion a Chomisiynu .....	6
Crynodeb o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd .....	9
<b>3. Sut y mae pobl yn siapio ein gwasanaethau?.....</b>	<b>14</b>
Yr Wythnos Genedlaethol Diogelu .....	14
Strategaeth Anableddau Dysgu 2018-2023.....	15
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod .....	15
Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Ceredigion.....	16
Gweithgaredd â ffocws Arolygiaeth Gofal Cymru o ran diogelu .....	18
Cwynion a chanmoliaeth .....	19
<b>4. Hybu a gwella llesiant y rheini yr ydym yn eu cynorthwyo .....</b>	<b>26</b>
Beth yr oeddem yn bwriadu ei wneud y llynedd?.....	26
I ba raddau y bu inni lwyddo i weithio tuag at gyflawni'r blaenoriaethau hyn? .....	27
Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?.....	33
<b>5. Sut yr ydym yn gwneud yr hyn yr ydym yn ei wneud.....</b>	<b>34</b>
Sut yr ydym wedi cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu Gofal Cymdeithasol.....	34
Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol .....	38
Gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd .....	39
<b>6. Cael gafael ar fwy o wybodaeth a dogfennau allweddol.....</b>	<b>43</b>

# 1. Cyflwyniad

Yn rhinwedd fy'r ôl fel Cyfarwyddwr Interim y Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynnyddol 2019-20 Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yma yng Ngheredigion. Yn ystod y cyfnod hwn, daeth rhai cyfleoedd cyffrous i'n rhan i fod ar flaen y gad o ran newidiadau trawsnewidiol yn y sector, ac mae wedi bod yn bleser cydweithio â gweithwyr proffesiynol mor ymroddedig ar draws ein gweithlu ac ymhllith ein partneriaid. Mae'r cyfnod hwn wedi bod yn her eithriadol inni i gyd, yn ariannol, yn ddiwylliannol, yn emosiynol ac yn broffesiynol. O'r dechrau'n deg, rhaid imi gydnabod ymrwymiad yr holl staff Gofal Cymdeithasol, a diolch iddynt am gynorthwyo'r bobl yr ydym yno i'w gwasanaethu ac am eu hymroddiad iddynt.



Yn yr adroddiad blynnyddol hwn, fy nod yw gwerthuso perfformiad yr Awdurdod Lleol o ran y modd y bu iddo gyflawni'i swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ym mlwyddyn ariannol 2019-2020. Fodd bynnag, ni allaf ond cyfeirio at effaith COVID-19 ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol. Dechreuodd y pandemig gael effaith sylweddol yn lleol ac yn genedlaethol o ddiwedd mis Mawrth, ac rwy'n sicr y bydd Adroddiad Blynnyddol 2020-2021 yn rhoi trosolwg manwl ar y modd y cafodd y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol eu rheoli drwy gydol y cyfnod hwn. Serch hynny, mae hyn wedi effeithio ar ein gallu i ddarparu gwybodaeth benodol ar gyfer yr adroddiad hwn, ac rwyf wedi sicrhau ein bod yn darparu'r wybodaeth sydd ar gael i ddangos sut y cafodd y canlyniadau llesiant y cytunwyd arnynt yng Ngheredigion eu cyflawni.

Diffinnir cynnwys yr adroddiad blynnyddol yn Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) o dan y Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n peri iddi fod yn ofynnol i'r adroddiad blynnyddol nodi sut y mae'r Awdurdod Lleol wedi bod yn mynd ati i gyflawni safonau ansawdd y canlyniadau llesiant.

Yr wyth canlyniad llesiant yw:

- Sicrhau hawliau a hawlogaethau
- Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
- Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- Cyfraniad a wneir at y gymdeithas
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Addasrwydd llety preswyl

Y chwe safon ansawdd a ddefnyddir i fesur perfformiad yr Awdurdod Lleol o ran y canlyniadau llesiant yw:

- Gweithio gyda phobl i ddiffinio ac i gydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl am eu cyflawni
- Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn ac i hybu iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosynnol pobl
- Cymryd camau i amddiffyn ac i ddiogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
- Annog a chynorthwyo pobl i ddysgu, i ddatblygu ac i fod yn rhan o'r gymdeithas
- Cynorthwyo pobl i feithrin ac i gynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
- Gweithio gyda phobl a'u cynorthwyo i sicrhau llesiant economaidd gwell, i gael bywyd cymdeithasol, ac i fyw mewn llety addas sy'n ateb eu gofynion

Cafodd yr adroddiad hwn ei ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa eang, gyda'r bwriad iddo fod ar gael i bawb. Pan fu imi fynd ati i baratoi'r adroddiad hwn, bu imi ystyried y grwpiau a ganlyn yn benodol:

- Defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'r holl bobl hynny y mae gwasanaethau cymdeithasol a swyddogaethau cysylltiedig yr awdurdod lleol yn effeithio ar eu llesiant, a hynny er mwyn egluro effaith y gwasanaethau hynny
- Y cyhoedd a chanddynt ddiddordeb yn yr hyn y mae eu hawdurdod lleol yn ei wneud, ei berfformiad, a'r ffordd y mae'n gwario'u harian
- Aelodau etholedig ac eraill sy'n rhan o brosesau craffu
- Partneriaid yr awdurdod lleol, gan gynnwys partneriaid ffurfiol ac eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector y mae angen iddynt ddeall rhaglen yr awdurdod lleol a'r amcanion sy'n flaenoriaeth iddo
- Rheoleiddwyr (gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, a'r Comisiynwyr Statudol)
- Llywodraeth Cymru

## Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig Porth Ceredigion

Yn ystod 2019-2020, gwnaed cynnydd o ran rhoi'r Model Gwasanaethau Integredig arfaethedig ar waith yng Ngheredigion. Mae'r model yn canolbwytio ar gryfderau pobl, gan fynd ati i alluogi pobl pan fydd angen cymorth arnynt ac i feithrin cydnerthedd yn ein cymunedau. Dechreuwyd ar y gwaith o drawsnewid ein gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn ystod 2017-2018, ac mae'r gwaith hwnnw wedi gosod sylfeini ar gyfer y modd y byddwn yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r gwaith o wireddu trawsnewidiad ar draws y Cyngor cyfan wedi parhau i esblygu yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau ein bod yn meddu ar y seilwaith, y capaciti a'r gallu i ateb gofynion dinasyddion Ceredigion yn y dyfodol.

### Recruitment of Corporate Managers



Daeth cam cyntaf y broses ailstrwythuro gorfforaethol i ben ym mis Ebrill 2018 pan benodwyd dau Gyfarwyddwr Corfforaethol a deuddeg Swyddog Arweiniol Corfforaethol i ysgwyddo'r cyfrifoldebau ym mhob maes gwasanaeth. Rhannwyd fersiwn cynnar o Fodel Cyflenwi Gwasanaethau Integredig Porth Ceredigion â holl reolwyr tîm y gwasanaethau Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion ar 20 Rhagfyr 2018.

O roi'r Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig ar waith, bydd yn newid swyddogaethau a chyfrifoldebau swyddi rhai o'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r timau ar draws yr awdurdod lleol cyfan, nid dim ond yn y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

Penodwyd Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Ceredigion ym mis Awst 2019. Hwn oedd y penodiad diwethaf ar lefel y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol. Yn ystod yr hydref, cytunwyd ar lefel nesaf y strwythur pan ddiffiniwyd swyddi 13 o Reolwyr Corfforaethol ar draws y model gwasanaeth cyfan. Erbyn diwedd mis Chwefror 2020, roedd swyddogion wedi'u penodi i bob un o'r swyddi hyn, ac roedd pob swyddog wedi dechrau yn ei swydd erbyn diwedd mis Mawrth 2020. Rhoddwyd enw newydd i'r model, sef y Rhaglen Gydol Oes a Llesiant. Pedwar prif faes gwasanaeth y rhaglen yw:

- Cyswllt â Chwsmeriaid – Pwynt cyswllt ac atgyfeirio cyntaf
- Porth Cymorth Cynnari – Ymyrraeth gynnari ac atal
- Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i thargedu
- Porth Cynnal – Gwasanaethau Gydol Oes Arbenigol

Donna Pritchard

Cyfarwyddwr Statudol Interim y Gwasanaethau Cymdeithasol  
Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Ceredigion

## 2. Crynodeb o'r perfformiad

Fel y nodir yn adran 145 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, defnyddir Fframwaith Mesur Perfformiad i fesur perfformiad swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol. Bydd yr adran hon yn rhoi sylw i nifer o'r mesurau hyn i ddangos sut y mae'r gwasanaeth wedi perfformio dros y flwyddyn ddiwethaf. Hon yw'r bedwaredd flwyddyn yr ydym yn darparu adroddiadau o dan y fframwaith perfformiad newydd; fod bynnag, yn sgil cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, rhaid nodi na chafodd llawer o waith adrodd ei gwblhau yn ystod pandemig COVID-19 ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu hynny.


### Crynodeb o'r Gwasanaethau Oedolion a Chomisiynu

Mae perfformiad y Gwasanaethau Oedolion yn parhau i wella ac mae'n fodhaol. Mae'r sefyllfa gyllidebol yn parhau i fod yn heriol iawn, ac mae'r agenda drawsnewid yn mynd rhagddi. Mae defnyddwyr y Gwasanaethau Oedolion a gofalwyr yn dal i gael eu cynorthwyo i barhau i fyw'n annibynnol ac i gael eu diogelu rhag camdriniaeth. Mae'r gwaith ailstrwythuro corfforaethol yn dal i fynd rhagddo fel y nodir uchod.

Mae'r broses sy'n mynd rhagddi i gyflwyno meysydd gwasanaeth allweddol, fel Clic, y Cysylltwyr Cymunedol a'r Porth Gofal, yn gosod sail ar gyfer y model a ddefnyddir gennym yn y dyfodol. Mae'n gynllun hirdymor i sicrhau cynaliadwyedd sy'n gydnaws â'r gofynion deddfwriaethol cyfredol ac yn rhan o'r gofyniad am inni ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth cynhwysfawr. Y Porth Gofal yw un o sylfeini'r model sydd eisoes wedi ennill ei blwyf, ac mae'n cydweithio â'r gwasanaeth iechyd a sefydliadau eraill. Mae mwy o waith yn mynd rhagddo i ddadansoddi'r Porth Gofal a'i effaith ar y Cyngor. Bydd y canlyniadau'n gosod sail ar gyfer y model gweithredu a ddefnyddir yn y dyfodol. Mae cyfleoedd i ddatblygu ac i wella'r gwasanaeth atal yn y trydydd sector yn parhau i fod yn elfen bwysig, a hynny drwy ddatblygu porth cymunedol.

#### Diogelu Oedolion

Mae'r ddogfen Trothwy Diogelu ranbarthol yn parhau i gefnogi'r prosesau Diogelu Oedolion. Mae'r Heddlu eu hunain bellach yn ystyried Hysbysiadau am Ddigwyddiadau Domestig lefel isel ac nid




ydynnt yn cael eu hanfon yn awtomatig at y Cyngor oni bai fod angen cydnabyddedig am wasanaeth diogelu. Mae mesur cenedlaethol PM18 yn dangos canran yr ymholaidd diogelu oedolion sy'n cael eu cwblhau cyn pen saith diwrnod. Mae'r ganran wedi gostwng yn ystod 2019/2020 oherwydd newid yn y ffordd y mae'r Cyngor yn adrodd am y data. Fel arfer, dylai ymholaied gael ei gwblhau cyn pen saith diwrnod gwaith ar ôl i'r adroddiad ddod i law. Nid yw hyn yn atal camau rhag cael eu cymryd ar unwaith pan fo angen amddiffyn oedolyn sydd mewn perygl.

## Oedi wrth drosglwyddo gofal

Eleni, mae'r mesur oedi wrth drosglwyddo gofal yn darlunio'r duedd a ddaeth i'r amlwg ar draws nifer o'n gwasanaethau ac, am y drydedd flwyddyn o'r bron, mae'r mesur wedi cynyddu ychydig. Bydd oedi wrth drosglwyddo gofal yn digwydd pan fydd claf mewnol mewn ysbty sy'n barod i



symud i'r cam gofal nesaf yn cael ei atal rhag gwneud hynny am un neu ragor o resymau.

Mae'r Porth Gofal a Phorth y Gymuned wedi cael effaith gadarnhaol ar y mesur, ond mae'r effaith gyffredinol yn llai oherwydd bod y galw am y gwasanaethau'n cynyddu o hyd. Pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbty yw un o brif flaenorriaethau'r Porth Gofal o hyd.




## Ailalluogi

Gwasanaeth byr a dwys yw'r Gwasanaeth Ailalluogi. Fel arfer, fe'i darperir yn y cartref i bobl ag anabledau ac i bobl sy'n fregus neu'n gwella ar ôl salwch neu anaf. Yn anffodus, nid oes data ar gael ar gyfer 2019/2020. Serch hynny, mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu gwasanaeth pwysig i hwyluso camau i ryddhau pobl yn gynnari o'r ysbty ac i hybu annibyniaeth. Bu modd i'r gwasanaeth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i unigolion er gwaethaf pwysau sylweddol ar y gwasanaethau gofal cartref a gomisiynir. Mae'r gwasanaeth galluogi mewnol wedi parhau i helpu cannoedd o bobl i



### Oedolion a gynorthwyir mewn cartrefi gofal preswyl



Mae gofal preswyl yn cyfeirio at ofal hirdymor a roddir i oedolion sy'n aros mewn lleoliad preswyl yn hytrach nag yn eu cartrefi eu hunain neu mewn cartref teuluol. Mae dewisiadau amrywiol ar gael o ran gofal preswyl, gan ddibynnu ar anghenion yr unigolyn. Mae Ceredigion yn gweithredu pum cartref gofal preswyl ei hun ac mae'n comisiynu nifer o gwmnïau preifat yng Ngheredigion a thu hwnt.



nag aros mewn cartrefi preswyl. Mae'n bosibl iawn y bydd hyn yn effeithio'n negyddol ar y mesur hwn y flwyddyn nesaf.

### Gwasanaeth cyngor a chymorth i oedolion

Yn unol ag adran 17 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael ei ddarparu. Pwrpas y gwasanaeth yw darparu gwybodaeth a chyngor i bobl am ofal a chymorth, gan gynnwys cymorth i ofalwyr, a'u cynorthwyo i ddefnyddio'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth. Rhaid darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn modd sy'n peri iddynt fod yn hygrych i'r unigolyn y bwriedir iddo'u defnyddio. Darperir ein gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth gan ein Porth Gofal yn bennaf. Bwriedir i'r mesur cenedlaethol ddangos pa mor effeithiol yw gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth awdurdod lleol drwy ddangos faint o bobl y mae angen iddynt ailddefnyddio'r gwasanaeth cyn pen chwe mis. Nid yw'r data hyn ar gael gennym ar gyfer 2019/2020.



## Crynodeb o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Nid yw'r data hyn yn gyflawn ychwaith oherwydd sefyllfa COVID-19, ond mae'r perfformiad cyfredol yn parhau i fod yn dda ac mae asesiad yn dangos bod y rhagolygon gwella'n foddaol. Mae'r Gwasanaeth yn mynd drwy broses drawsnewid fawr fel rhan o'r gwaith ailstrwythuro corfforaethol sy'n mynd rhagddo yn yr Awdurdod Lleol, ac felly bydd angen cadw llygad barcud ar ei berfformiad a'i lwyddiant yn y dyfodol yn y cyd-destun hwn.

Mae plant a phobl ifanc Ceredigion yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn fel y nodir yn adroddiadau diogelu chwarterol CYSUR a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu ac i'r Cabinet. Mae'r Gofrestr Amddiffyn Plant wedi amrywio yn ystod 2019/20. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae arni 55 o blant. Mae'r ffigur hwn yn is na'r ffigur ar ddiwedd 2018/19.

Mae plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion yn cael cefnogaeth dda er mwyn iddynt gyflawni'r canlyniadau gorau posibl fel y nodir yn yr adroddiadau sicrhau ansawdd chwarterol am blant sy'n derbyn gofal a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu ac i'r Cabinet.


Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo o ran y mesurau a gyflwynwyd i fynd ati'n diogel i leihau'r boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal. Cafodd gweithgareddau Ar Ffiniau Gofal eu datblygu ac, o ganlyniad i hyn, roedd y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu i 74 erbyn 31 Mawrth 2020. Mae'r Gwasanaeth yn cadw llygad barcud ar y cynnydd ac mae wedi paratoi cynllun gweithredu i reoli'r sefyllfa yn y dyfodol.

Yn sgil datblygu a chydgylltu gweithgareddau ymyrraeth gynnar ac atal ymhellach, mae plant a theuluoedd yn cael cymorth yn gynharach i atal sefyllfaoedd rhag dwysáu ac i sicrhau nad oes raid troi at wasanaethau statudol lle bynnag y bo modd. Yn ystod y flwyddyn, cafodd gweithgareddau ymyrraeth gynnar ac atal eu cydgylltu ymhellach, gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Atal Cyflawnder leuenctid.

Gwnaed cynnydd o ran rhoi'r Fframwaith Ymarfer Arwyddion Diogelwch a Llesiant ar waith yn ystod 2019/20, ac mae'r cynllun gweithredu pum mlynedd yn parhau i gael ei roi ar waith. Darparwyd sesiynau gwybodaeth a hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r Awdurdod Lleol ac asiantaethau/rhanddeiliaid eraill, ac mae cynllun hyfforddi yn ei le i sicrhau bod hyn yn cael cymaint o effaith â phosibl ar draws pob sector.


### Cynnal asesiadau o fewn terfynau amser

Bu i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ailddiffinio'r broses asesu, gan ddefnyddio dull mwy cymesur o ran oedolion a phlant. O ran Gwasanaethau Plant, cafodd amserlenni'r Asesiad Cychwynnol a'r Asesiad Craidd eu huno i greu uchafswm o 42 diwrnod i gwblhau asesiad. Roedd y perfformiad y llynedd wedi gwellu ac, o fonitro'r maes gwaith hwn, mae'r perfformiad yn ôl ar y trywydd iawn ac yn nes at yr hyn dylai fod. Mae angen parhau i ymgymryd â gwaith yn y maes hwn i sicrhau ein bod yn asesu pob plentyn yn brydlon, gan sicrhau bod yr asesiadau'n dal i fod o'r ansawdd yr ydym wedi dod i'w ddisgwyli.




### Cynorthwyo plant i barhau i fyw gyda'u teuluoedd

Cynorthwyo plant i barhau i fyw gyda'u teuluoedd yw un o brif nodau'r gwasanaeth. Lle bynnag y bo modd, tybir mai hwn yw'r canlyniad gorau i blant. Mae'r mesur hwn yn cymharu nifer y plant sy'n cael eu cynorthwyo fel plant sy'n derbyn gofal (plentyn sydd wedi bod yng ngofal ei awdurdod lleol am fwy na 24 awr) â nifer y plant sy'n cael eu cynorthwyo'r tu allan i'r mathau hyn o drefniadau. Mae'r mesur hwn wedi parhau i adlewyrchu'r gwaith a wnaed i gynorthwyo plant a theuluoedd i barhau i fod yn uned deuluol.





Yn 2019/20, cafwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn gyffredinol, ond cafwyd cynnydd hefyd yn nifer y plant a ddychwelodd adref ar ôl cael gofal. Mae'r prosiect Ar Ffiniau Gofal yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad.





### Y Gofrestr Amddiffyn Plant

Mae'r gofrestr amddiffyn plant yn darparu cofnod o holl blant yr ardal a chanddynt broblemau amddiffyn plant nad ydynt wedi'u datrys ac sy'n destun cynllun amddiffyn amlasiantaethol ar hyn o bryd. Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn wedi cynyddu, ac mae hyd y cyfnod y mae plentyn yn aros ar y gofrestr wedi gostwng.



### Iechyd ein plant sy'n derbyn gofal

Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 yn datgan bod rhaid i'r awdurdod cyfrifol sicrhau bod plentyn sy'n derbyn gofal yn cael gofal gan ymarferol deintyddol cofrestredig cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, pha un bynnag, cyn pen ugain diwrnod gwaith ar ôl ei leoli.



Mae Canllawiau Clinigol NICE [CG19] – ‘Dental checks: intervals between oral health reviews’ – yn rhoi canllawiau o ran pa mor aml y dylid cynnal gwiriadau deintyddol. Mae hyn yn seiliedig ar ffactorau risg y claf o ran clefyd deintyddol. Yn gyffredinol, tybir bod plant sy'n derbyn gofal mewn mwy o berygl o gael clefyd deintyddol, ac felly disgwyllir i'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal gael eu galw i gael gwiriadau deintyddol bob tri mis neu bob chwe mis. Yn 2019/20, cafwyd gostyngiad yng nghanran y plant a gafodd eu gweld gan ddeintydd cyn pen tri mis ar ôl iddynt ddechrau



derbyn gofal, ac mae hwn yn fater sy'n cael ei ystyried gan Fwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda ac yn cael sylw ganddo.

Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn datgan bod rhaid i awdurdodau cyfrifol sicrhau bod plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei gofrestru â meddyg teulu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, pha un bynnag, cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl ei leoli. Cafwyd gostyngiad bach yng nghanran y mesur hwn a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa dros y flwyddyn nesaf.

### Plant sy'n derbyn gofal – sefydlogrwydd lleoliadau

Mae ymchwil wedi dangos bod symud yn aml yn gallu effeithio'n negyddol ar blant. Mae achosion lle y mae lleoliad yn methu, neu blentyn yn cael ei symud heb fod hynny wedi'i gynllunio, yn llawer llai tebygol o ddigwydd yn achos plant iau. O'i gymharu, mae mwy o siawns y bydd lleoliadau plant yn eu harddegau yn methu.




Nid ydym yn deall yn llwyr a yw symud o'r naill lleoliad i'r llall ynddo'i hun yn creu canlyniadau gwael i blant ynteu a yw hyn i'w briodoli i brofiadau ac anawsterau blaenorol y plant. Mae dau brif fesur yn ceisio darlunio sefydlogrwydd lleoliadau. Mae'r cyntaf yn ystyried nifer y troeon y mae plentyn wedi gorfol newid ysgol (ac eithrio achosion pan fydd plentyn yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd) ac mae'r ail yn ystyried sawl gwaith y mae plentyn wedi newid lleoliad fwy na dwywaith. Mae'r mesurau hyn yn rhai sydd wedi ennill eu plwyf a gallant roi cipolwg ar berfformiad hirdymor gwasanaeth. Anfantais y ddua fesur hyn yw eu bod yn arbennig o agored i newid oherwydd mai nifer fechan o blant sydd wedi'u cynnwys ynddynt. Mae'r mesur symud dair gwaith neu ragor hefyd yn ddarlun o lwyddiant y gwaith a wneir gan ein timau Plant sy'n Derbyn Gofal.



### Plant sy'n gadael gofal

Defnyddir y term gadael gofal i gyfeirio at grŵp o blant rhwng 16 ac 18 oed sydd wedi bod mewn gofal ond nad ydynt yn “derbyn gofal” cyfreithiol gan yr awdurdod lleol mwyach. Pan fydd plant yn gadael gofal, mae arnom ddyletswydd o hyd i gynorthwyo'r bobl hyn nes eu bod yn 21 oed, neu nes eu bod yn 25 oed os ydynt mewn addysg amser llawn neu os oes ganddynt anabledd.

Nodir â rhywfaint o bryder y cynydd ymddangosiadol yn nifer y bobl ifanc ddigartref. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydweithio'n agos â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ein hardal i ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r sefyllfa. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i flaenorriaethu'r mater hwn ac i godi ei broffil yn unol â hynny.



### 3. Sut y mae pobl yn siapio ein gwasanaethau?

Mae Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion yn ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid drwy ddulliau amrywiol. Rydym yn defnyddio dulliau, fel gofyn am adborth gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau i blant ac oedolion ar ffurf holiaduron blynnyddol. Rydym yn cael adborth “galw yn ôl” drwy wasanaethau ein Pwynt Mynediad Sengl a’n Porth Gofal. Rydym yn ymgysylltu â byrddau a grwpiau amrywiol, er enghraift, y Bwrdd Iau Diogelu Plant, y Grŵp Plant sy’n Derbyn Gofal, y Cyngor Plant sy’n Derbyn Gofal, y Fforwm Anabledd, y Fforwm 50+ a’r Byrddau Trawsnewid Iechyd Meddwl, lle’r ydym yn rhannu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac yn annog adborth o ran y camau i ailgynllunio ein gwasanaethau. Rydym hefyd yn dysgu o arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru, arolygiadau Swyddfa Archwilio Cymru, ac Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion pan fyddant yn digwydd. Rydym yn cwrdd â chynghorau tref a chymuned i rannu ein cynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol ac i gael adborth am y cynlluniau hyn.

#### Yr Wythnos Genedlaethol Diogelu



Ym mis Tachwedd 2019, bu Grŵp Gweithredol Lleol Ceredigion yn cydweithio ag Uned Fusnes Bwrdd CYSUR a’r tri Grŵp Gweithredol Lleol arall i gefnogi rhaglen ranbarthol gydgysylltiedig o ddigwyddiadau i gefnogi’r Wythnos Genedlaethol Diogelu. Rhoddwyd ffocws cenedlaethol ar Weithdrefnau Diogelu newydd Cymru fel thema drosfwaol. Yn rhanbarthol, bu i’r wythnos ganolbwytio ar themâu cydgysgu a hunanesgeuluso. Crëwyd ymgyrch drwy’r cyfryngau cymdeithasol a’r wefan, ac fe’i harweiniwyd gan y Byrddau yn ystod yr wythnos i godi ymwybyddiaeth o’r materion perthnasol hyn.

Roedd Cynhadledd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ‘Dathlu Arwyddion Diogelwch ledled rhanbarth y Canolbarth a’r Gorllewin’ yn llwyddiant mawr, ac fe gafwyd adborth a gwerthusiadau rhagorol. Roedd y digwyddiad yn gyfle i ddathlu ac i ddangos y ffyrd y mae pob ardal yn ein rhanbarth wedi ymgorffori a defnyddio arferion da o ran yr Arwyddion Diogelwch yn eu gwaith, gan amrywio o gynadleddau amddiffyn plant i gamddefnyddio sylweddau. Rhoddwyd dau slot i bob ardal rannu ei phrofiadau o ddefnyddio’r model. Roedd CYSUR ar ben ei ddigon eleni o wahodd yr Athro Eileen Munro i roi’r brif araith. Rhoddodd drosolwg manwl ar ei chefndir ym maes gwaith cymdeithasol.

## Strategaeth Anableddau Dysgu 2018-2023

Cychwynnwyd ar gynllun gweithredu drafft yn sgil Strategaeth Anableddau Dysgu Ceredigion.

Mae Ceredigion yn cymryd rhan weithredol yn y Grŵp Gwella Bywydau Rhanbarthol sy'n cwrdd bob mis. Bob yn ail fis, mae'r grŵp hwn yn cynnal cyfarfod busnes a chyfarfod sy'n cael ei arwain a'i gadeirio gan y 'Dream Team'. Grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau yw aelodau'r tîm hwn. Maent yn cael eu cynorthwyo gan Bobl Sir Benfro yn Gyntaf sy'n rhoi cymorth gweithredol i'r grŵp rhanbarthol, yn enwedig o ran defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig.

Bu i Arolygiaeth Gofal Cymru arolygu'r Tîm Plant Anabl yn ystod pedwerydd chwarter 2019-2020. Lluniwyd cynllun gweithredu yn sgil y sylwadau a wnaed ac mae wrthi'n cael ei roi ar waith i wella'r gwasanaethau a ddarperir i blant ag anableddau.

Mae'r gwasanaeth Anableddau Dysgu (Oedolion a Phlant) yn gweithio i greu Gwasanaeth Gydol Oes: Cymorth Estynedig fel rhan o agenda drawsnewid y Cyngor.

## Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Digwyddiadau trawmatig sy'n effeithio ar blant yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Gallai'r rhain ddigwydd tra mae plentyn yn tyfu drwy iddo/iddi gael ei gam-drin/cham-drin neu fyw ar aelwyd lle ceir traus domestig, camddefnyddio sylweddau neu salwch meddwl.

Adeiladu Gwydnwch gyda Pobl Ifanc .

Dewch i weithredu syniadau.

**ACE'd e**

**ACE'd it**


Building Resilience with Young People .  
Ideas into action.

### Early Life Experience and The Brain



#### Childhood

- First 2 years - baby's brain grows from 25% to 80% of adult size
- Critical restructuring continues through childhood for **empathy, trust, community**



#### Chronic Stress from ACEs

- Violence - over-develop 'life-preserving' brain  
**NEUTRAL CUES LOOK THREATENING**
- School - anxious, disengaged, poor learner

Tau et al., 2010; Mercy, Butchart, Bellis et al., 2014

I gefnogi gweithlu sy'n gwybod am profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Ngheredigion ac i ddatblygu dull system gyfan o ymyrryd yn gynnar ar y cyd â rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd Heddlu Dyfed Powys, ymgymmerwyd â darn mawr o waith i fapio systemau a phrosesau ar draws pob maes gwasanaeth i bennu meysydd lle mae gwasanaethau'n cael eu dyblygu ac i bennu'r bylchau yn y ddarpariaeth.

Gwnaed dadansoddiad o'r anghenion hyfforddi ac, yn sgil hynny:

- Mae holl staff ysgolion cynradd Ceredigion wedi cael hyfforddiant (692 i gyd)
- Mae holl staff ysgolion uwchradd ac ysgolion gydol oes (3-19) Ceredigion wedi cael hyfforddiant (838 i gyd)
- Mae holl staff yr Uned Cyfeirio Disgyblion (25) a Hyfforddiant Ceredigion (21) wedi cael hyfforddiant
- Mae holl staff y Gwasanaeth Ysgolion wedi cael hyfforddiant (20 i gyd)
- Cynhalwyd saith digwyddiad hyfforddi ar gyfer timau'r Gwasanaethau Plant/Oedolion (tua 70 i gyd)
- Digwyddiad hyfforddi amlasanttaethol Barnardo's (23 i gyd)
- Tri digwyddiad amlasanttaethol (tua 40 i gyd)
- Estynnwyd gwahoddiad i bob un o'r 112 o leoliadau gofal plant yng Ngheredigion ddod i ddigwyddiadau hyfforddi (100 i gyd)

## Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Ceredigion

Mae Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Ceredigion, sef y Tîm o Amgylch y Teulu, y Tîm Teulu a Chanolfan Deuluoel Penparcau, yn darparu cymorth cynnar i'r teuluoedd a'r plant sydd fwyaf agored i niwed i atal problemau rhag digwydd neu i fynd i'r afael â nhw cyn iddynt waethyg. Mae'r gwasanaethau'n gweithio gyda rhwydwaith y teulu cyfan yn hytrach na chanolbwytio ar unigolyn. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn gweithio gyda'r teulu i bennu problemau ac i helpu'r teulu i fynd i'r afael â nhw drwy feithrin a chryfhau eu cysylltiadau, eu perthnasoedd a'u sgiliau er mwyn adeiladu a chreu cydnerthedd a hunanddibyniaeth a chefnogi eu llesiant.

### Y Tîm o Amgylch y Teulu

Yn 2019-20, derbyniodd y Tîm o Amgylch y Teulu 199 o geisiadau. Roedd 25 o'r rheini'n ymwneud â phlentyn â gofyniad dysgu ychwanegol penodol neu anabledd. Mae oddeutu 30% (61) o'r ceisiadau'n ailitgyfeiriadau (yn aml flynyddoedd yn ddiweddarach) pan fydd teuluoedd yn cyrraedd cyfnod newydd yn eu hoes ac yn cofio bod cymorth y Tîm o Amgylch y Teulu wedi bod yn effeithiol o'r blaen ac yn gofyn inni eu cynorthwyo eto.

Bu i bron i 80% o'r teuluoedd gofnodi eu bod wedi teithio pellter cadarnhaol mesuradwy ar ôl ymyrraeth y Tîm o Amgylch y Teulu.

Roedd 34 cais yn cynnwys tystiolaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar y cychwyn, ac roedd gan draean ohonynt bedwar neu ragor o ddangosyddion, cynnydd sylweddol iawn yn lefel cymhlethdod y teuluoedd y mae angen cymorth arnynt. Rhieni'n gwahanu, tra is domestig ac iechyd meddwl oedolion oedd y tair her a nodwyd amlaf, ac mae hyn wedi peri i'n gwasanaethau gydweithio â Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru i ddatblygu rhaglen 'Break for Change'. Rydym yn gobethio y bydd yr ymyrraeth hon yn cynorthwyo'r teuluoedd hynny lle y nodir bod plentyn yn ymddwyn yn dreisgar tuag at oedolyn. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu rhaglenni 'Take Time for U' a 'Family Links', dwy raglen ar gyfer grwpiau sy'n mynd i'r afael ag agweddau ar lesiant emosiynol rhieni.

Cafwyd gostyngiad o 80% i 64% yn nifer y ceisiadau sy'n cael eu prosesu cyn pen pum diwrnod gwaith. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith cynllunio ychwanegol sy'n ofynnol i fynd i'r afael ag anghenion cynyddol gymhleth teuluoedd y mae angen cymorth y Tîm o Amgylch y Teulu arnynt. Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi darparu cymorth effeithiol i draean o'r teuluoedd (37 hunanatgyfeiriad) er mwyn iddynt ddefnyddio ein cymorth heb atgyfeiriad proffesiynol arall. Mae'r broses hon yn grymuso teuluoedd i gael "y cymorth iawn ar yr adeg iawn" ac mae'n arwain at well dealtwriaeth o'r nodau y mae'r teulu am eu cyflawni, ac at well ymgysylltu â'r nodau hynny.

## Y Tîm Teulu

Grŵp bach o weithwyr cymorth i deuluoedd yw'r Tîm Teulu. Maent yn cynorthwyo teuluoedd i wneud y newidiadau a benwyd, gan ganolbwytio ar rianta a newid ymddygiad. Eleni, daeth 161 cais i law'r Tîm Teulu, gostyngiad bach yn nifer y ceisiadau oherwydd gostyngiad yng nghapasiti'r tîm gan fod dau aelod profiadol o'r tîm wedi symud i swyddi eraill yn y Porth Cymorth Cynnar. Caeodd y Tîm Teulu achosion 107 o deuluoedd gyda llwyddiant mesuradwy ar draws meysydd llesiant teuluoedd, y berthynas rhwng rhieni a phlant, sgiliau rhianta, a chysylltiad â'r gymuned.

Darparodd y rhaglen grŵp naw gweithdy Rhoi'r Bai ar yr Ymennydd ar gyfer 31 rhiant. Dywedodd 93.5% ohonynt ei fod wedi arwain at newid cadarnhaol. Darparwyd pum rhaglen i rieni gan y tîm, ar y cyd â'r Rhwydwaith Canolfannau i Deuluoedd, gyda 25 rhiant yn cwblhau'r raglenni'n llwyddiannus.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein cyfres o weithdai diwrnod dwyieithog, Rhoi'r Bai ar yr Ymennydd, gan gynnwys datblygu gweithdy dwyawr mewn ysgolion o'r enw Dy Ymennydd Anhygoel i roi cyfle i bobl ifanc ddod i ddeall sut i ofalu amdanynt eu hunain a'u datblygiad yn well ac i feithrin strategaethau i wneud hynny.

## Canolfan Deuluol Penparcau

Bu i Ganolfan Deuluol Penparcau groesawu 46 teulu newydd a hwyluso dwy raglen strwythur dig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i rieni, sef "Cysylltiadau Teuluol". Mae'r raglenni hyn yn seiliedig ar dystiolaeth a werthuswyd ac maent yn ychwanegu at ein harlwy drwy roi mwy o bwyslais ar wella perthnasoedd i gefnogi llesiant emosiynol. Bu inni hefyd letya pedair rhaglen strwythur dig anffurfiol, gan gynnwys dwy raglen "Neilltuo Amser i Chi" ac "Iaith a Chwarae". Cynhaliodd staff 135 sesiwn mynediad agored, "Chwarae Anniben", "Dewch i Chwarae" a'r grŵp llwyddiannus "Rhieni Ifanc" lle mae tua deg rhiant ifanc yn dal i gwrdd yn rheolaidd bob wythnos.

Cynhalwyd dros 50 o sesiynau cyswllt ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'u rhieni yn y ganolfan. Mae'r adeilad hefyd yn cael ei ddefnyddio gan brosiect drama Amethyst i gefnogi llesiant emosiynol pobl ifanc a chan diwtoriaid y Cwricwlwm Amgen ar gyfer gwersi unigol. Bu inni hefyd gynorthwyo pedwar teulu fel rhan o'n cyfraniad at raglen 'Ar Ffiniau Gofal'.

Ar gyfer Diwrnod Chwarae Ceredigion 2019, bu i'n holl staff cymorth i deuluoedd gyfrannu at weithgareddau pampro rhieni, a chynorthwyo â'r gweithgareddau hynny, gan gynnwys staff Coleg Ceredigion yn darparu moctêls yr oedd mawr eu hangen ac yn tylino dwylo rhieni tra'r oedd eu plant yn mwynhau cael tatws wyneb disglaир (dros dro) a chwarae ar y castell gwynt.

## Gweithgaredd â ffocws Arolygiaeth Gofal Cymru o ran diogelu

Bu i Arolygiaeth Gofal Cymru gwblhau gweithgaredd â ffocws yng Ngheredigion ar 6 a 7 Tachwedd 2019 a oedd yn canolbwytio ar y gwasanaethau Diogelu Oedolion.

Roedd y gweithgaredd â ffocws yn gyfle i ganolbwytio ar y modd y mae'r Awdurdod Lleol yn ymateb i adroddiadau diogelu ac ar ansawdd asesiadau'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS).

Rhoddodd canfyddiadau'r gweithgaredd hwn sicrwydd i'r Arolygiaeth ein bod yn ymateb yn brydlon ac yn gymesur i adroddiadau diogelu. Cafwyd hyd i dystiolaeth ein bod yn casglu gwybodaeth dda ac yn cyd-drafod â gweithwyr proffesiynol eraill ac, mewn un achos, gwelwyd bod mesurau amddiffyn wedi'u trefnu ar unwaith i sicrhau bod unigolyn a oedd mewn perygl o niwed yn ddiogel.

Cafodd y rhan fwyaf o'r ymholiadau eu cwblhau o fewn yr amserlenni statudol, gan gofnodi'r dadansoddiad a'r penderfyniad yn glir, ac roedd dystiolaeth bod ymarferwyr yn teimlo'n gadarnhaol o ran y cymorth yr oeddent yn ei gael gan eu cymheiriaid ac yn disgrifio'r rheolwyr fel pobl gefnogol y mae'n hawdd troi atynt. Mae angen gwneud mwy o waith ar y fframwaith Sicrhau Ansawdd ac mae hwn wedi'i gynnwys yn y rhaglen sy'n mynd rhagddi i drawsnewid gofal cymdeithasol yng Ngheredigion.

Adroddwyd bod lleisiau a dyheadau oedolion mewn perygl yn cael eu hymgorffori yn y dogfennau diogelu a ddefnyddir gan Geredigion, a bod modd i bobl gyfathrebu yn eu dewis iaith.

Nodwyd bod trefniadau cydweithio effeithiol ar waith rhwng y tîm diogelu a thimau eraill y Gwasanaethau Oedolion, a dywedodd cynrychiolwyr o'r Heddlu a'r Bwrdd Iechyd fod ganddynt berthynas waith dda â'r Awdurdod Lleol.

Cafwyd dystiolaeth o sgyrsiau didwyl, gonest a chefnogol â darparwyr yn ystod y cam ymholi, ac mae'r Awdurdod Lleol yn cydweithio'n effeithio â'i bartneriaid ar lefel leol ac ar lefel ranbarthol i baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth Trefniadau Amddiffyn Rhyddid fel rhan o'r adolygiad o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

### Cymorth cynnar, gofal a chefnogaeth a threfniadau pontio ar gyfer plant anabl

Bu i Arolygiaeth Gofal Cymru (yr Arolygiaeth) gyhoeddi ei hadroddiad ar ôl iddi hithau ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gynnal arolygiad o Gyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o ran Cymorth Cynnar, Gofal a Chefnogaeth a Threfniadau Pontio ar gyfer Plant Anabl. Bu i'r adroddiad hwn nodi nifer o gryfderau yn y gwasanaeth, a chyd nabod y gwaith trawsnewid sy'n mynd rhagddo i roi sylw i'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad.

Canfu'r Arolygiaeth fod Cyngor Sir Ceredigion wedi pennu uchelgais cadarnhaol ar gyfer plant anabl. Ceir ymrwymiad i'r weledigaeth hon ar lefel gorfforaethol ac fe'i defnyddir i osod sylfaen ar gyfer gweithdrefnau a strwythurau gweithredol fel rhan o'r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant.

Mae'r awdurdod lleol wedi paratoi cynllun gweithredu a fydd yn adeiladu ar y cryfderau a bennwyd ac yn sicrhau bod y meysydd i'w gwella yn cael y sylw angenrheidiol. Mae'r prif themâu i'w gwella yn cynnwys:

1. Answedd asesiadau, cynlluniau gofal ac adroddiadau
2. Comisiynu a darparu gwasanaethau
3. Goruchwyliaeth gan reolwyr: Cryfhau'r swyddogaethau sicrhau ansawdd

Mae'r gwaith o ddatblygu'r weledigaeth i roi'r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant ar waith yn cynnwys sefydlu Gwasanaeth Cymorth Estynedig newydd i blant ac oedolion ag anableddau. Un o brif swyddogaethau'r gwasanaeth newydd fydd canolbwytio ar sicrhau bod asesiadau o ansawdd da yn cael eu cynnal a bod cynlluniau gofal effeithiol yn cael eu paratoi. Bydd staff yn cydweithio ag asiantaethau allweddol a theuluoedd a gofalwyr i gyflawni canlyniadau da i blant ac oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Bydd hynt y cynllun gweithredu'n cael ei werthuso'n gyson drwy broses sicrhau ansawdd yng nghyfarfodydd y rheolwyr, mewn cyfarfodydd tîm a chan Grŵp Monitro sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, swyddogion corfforaethol perthnasol eraill a'r Bwrdd Iechyd.

Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn cadw llygad ar y cynnydd a wneir drwy ei gweithgareddau parhaus i werthuso perfformiad y Cyngor.

## Cwynion a chanmoliaeth

### Cwynion

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu holl weithgarwch y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran cwynion a chanmoliaeth yn ystod 2019–2020. Bydd yr holl ystadegau ac achosion y cyfeirir atynt isod yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol corfforaethol, ynghyd â'r holl geisiadau a ddaeth i law'r gwasanaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Cyflwynir yr adroddiad hwnnw i'r pwylgorau perthnasol maes o law.

Er ein bod yn sylweddoli bod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynd drwy broses ailstrwythuro helaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn i gyflwyno'r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant, er hwylustod, bydd yr adroddiad hwn yn dilyn fformat y system cofnodi cwynion. Bydd hyn yn cael ei newid ar gyfer cyfnodau adrodd yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi rhoi Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 ar waith, a'r ddogfen hon yw'r canllawiau sy'n gosod sylfaen ar gyfer Polisi Cwynion newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a gymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor ar 17 Mawrth 2020. Mae'r polisi'n nodi'r gofynion am i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth corfforaethol hybu atebolwydd a sicrhau bod cwynion yn cael eu trin a'u trafod yn deg ac yn effeithiol.

### Gweithgarwch cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol

Rydym yn gwneud ein gorau glas i ddatrys cwyn cyn gynted â phosibl a, phan fyddwn yn llwyddo i wneud hynny, bydd y mater, gan mwyaf, yn cael ei gofnodi fel ‘ymholiad/pryder’. Os na ellir datrys y mater ar adeg y cyswllt cyntaf, neu os yw'r materion sy'n cael eu codi'n ddifrifol neu'n gymhleth, bydd y pryderon yn cael eu trin a'u trafod yn unol â'r gweithdrefnau cwyno ffurfiol y cyfeirir atynt uchod.

Mae'r Cyngor yn gweithredu proses gwyno sy'n cynnwys dau gam, ac mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn cyd-drafod â'r rheolwyr gwasanaeth perthnasol i sicrhau bod y broses gywir yn cael ei dilyn ym mhob cam.

Yn ystod 2019-2020, daeth 93 ymholiad/pryder i law. Cafodd y rhan fwyaf o'r rhain eu datrys yn foddaol heb fod angen troi at y gweithdrefnau cwyno.

Mae'r data a ddarperir isod yn ymwneud â'r holl gŵynion a gafodd eu trin a'u trafod o dan Gam 1 a/neu Gam 2 yn ystod y flwyddyn adrodd. Cam 2 yw'r cam olaf o dan weithdrefn gwyno'r Cyngor ei hun; fodd bynnag, mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau hawl i gyfeirio'u cwyn at Ombwdsmen Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os ydynt yn dal i fod yn anfodlon ar ôl Cam 2.

### Cyfanswm y cwynion a ddaeth i law yn ystod 2019–2020


Maes gwasanaeth	Cam 1	Cam 2	Cyfanswm
Gwasanaeth Plant a Theuluoedd	2	6	<b>8</b>
Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Chomisiynu	13	4	<b>17</b>
	<b>15</b>	<b>10</b>	<b>25</b>

Daeth cyfanswm o **25 cwyn** i law o ran y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn ystod 2019–2020. O'i gymharu, daeth **26 cwyn** i law ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2018-2019. Mae hyn yn dangos bod nifer y cwynion a ddaeth i law wedi gostwng ychydig.

Mae staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gydweithio'n agos â'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth drwy fynd ati i ddatrys unrhyw bryderon ac ymholiadau sy'n dod i law yn gynnar. Mae hon yn profi i fod yn strategaeth effeithiol y gellir ei gweld drwy gymharu nifer yr ymholiadau/pryderon â nifer yr achosion sy'n cael eu trin a'u trafod o dan y broses gwyno ffurfiol (sef 27% o'r holl ymholiadau/pryderon sy'n dod i law'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth o ran y Gwasanaethau Cymdeithasol).

### Data cymharol

Gellir cymharu cyfanswm y cwynion a ddaeth i law ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi'u gwahanu yn ôl Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant, yn ystod y cyfnod adrodd hwn â blynnyddoedd blaenorol isod:



### Canlyniadau cwynion fesul Gwasanaeth

Ceir braslun o nifer y cwynion a'u canlyniadau isod, fesul maes gwasanaeth perthnasol:


Gwasanaethau Plant	Heb eu cadarnhau	Wedi'u cadarnhau (yn llwyr neu'n rhannol)	Yn mynd rhagddynt / Wedi'u hatal dros dro
Amddiffyn Plant	1	0	0
Tîm Asesu Plant a Theuluoedd	2	4	0
Maethu	0	0	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>3</b>	<b>4</b>	<b>1</b>

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Chomisiynu	Heb eu cadarnhau	Wedi'u cadarnhau (yn llwyr neu'n rhannol)	Yn mynd rhagddynt / Wedi'u hatal dros dro / Wedi'u dirwyn i ben
Tîm Oedolion (Gogledd, De, Brysbennu'r Porth Gofal)	1	5	0
Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu	0	4	1
Asesiadau Ariannol	1	0	0
Comisiynu	0	2	1
Gwasanaethau Uniongyrchol (Cartrefi, Canolfannau Dydd)	0	1	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>2</b>	<b>12</b>	<b>3</b>

## Cam 1

Ac eithrio'r ddwy gŵyn a gafodd eu dirwyn i ben, ac un gŵyn sy'n dal i fod yn agored, ymatebwyd i bump o'r deuddeg cwyn sy'n weddill o fewn y terfyn amser o 15 diwrnod gwaith o dan Gam 1.


### Stage 1 - Performance



## Cam 2

O ran y perfformiad yn erbyn terfynau amser statudol Cam 2 o'r broses, o blith y deg cwyn a ddaeth i law o dan Gam 2, mae un yn parhau i fod yn agored ac ymatebwyd i un o fewn yr amserlen o 25 diwrnod gwaith. Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol estyniad ar gyfer yr wyth achos sy'n weddill yn unol â'r polisi.

### Stage 2 - Performance



## Dadansoddiad

O ddadansoddi'r data dros bum cyfnod adrodd, mae'n amlwg bod y Gwasanaethau Plant wedi cael mwy o gŵynion Cam 2 yn ystod 2019/20. Hwn yw'r tro cyntaf i'r Gwasanaethau Oedolion gael llai o gŵynion Cam 2, er iddynt gael nifer sylweddol uwch o gŵynion Cam 1 (16 ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a dim ond dwy ar gyfer Gwasanaethau Plant). Yn ychwanegol at uwchgyfeirio dwy gŵyn Cam 1 i Gam 2 yn ystod y flwyddyn adrodd, cafodd dwy gŵyn arall o 2018/19 eu huwchgyfeirio i Gam 2 yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Ymchwiliwyd ar unwaith i ddwy gŵyn o dan Gam 2. Ceir tri phrif reswm pam y bydd cwyn am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei hystyried ar unwaith o dan Gam 2:

- tybir bod y gŵyn yn rhy gymhleth neu ddifrifol i'w hystyried yn gyntaf o dan Gam 1
- mae'r gŵyn hefyd yn ymwneud â rheolwyr sy'n gyfrifol am y gwasanaeth
- mae'r achwynnydd wedi mynegi nad yw'n ymddiried yn rheolwyr y gwasanaeth i ymdrin â'r gŵyn o dan gam cychwynnol.

O blith yr wyth cwyn a ddaeth i law'r Gwasanaethau Plant, cafodd eu hanner eu cadarnhau (yn llwyr neu'n rhannol), roedd un gŵyn yn dal i fynd rhagddi neu wedi'i hatal dros dro ar adeg paratoi'r adroddiad, ac ni chafodd tri achos eu cadarnhau.

Er bod llai o gŵynion Cam 2 wedi dod i law'r Gwasanaethau Oedolion yn ystod y flwyddyn, i law'r gwasanaethau hynny y daeth y nifer fwyaf o gŵynion drwyddi draw, gydag 17 achos yn cael eu cofnodi yn ystod y flwyddyn. O ddadansoddi canlyniadau'r cwynion hyn, mae'n amlwg bod dros 70% ohonynt wedi'u cadarnhau (yn llwyr neu'n rhannol). Canfuwyd mai dim ond dau achos nad oedd modd eu cyfiawnhau (heb eu cadarnhau). Cafodd y tri achos sy'n weddill eu dirwyn i ben neu'u hatal dros dro neu roeddent yn dal i fynd rhagddynt tu hwnt i ddiwedd y cyfnod adrodd.

## Themâu a thueddiadau

Cyfathrebu gwael sydd wrth wraidd y rhan fwyaf o'r cwynion o hyd ac, ym mwyafyr yr achosion, cafodd hyn ei ddatrys ar lefel gwasanaeth ac roedd y camau a gymerwyd yn ddigonol i ddatrys y gŵyn.

Cydnabyddir hefyd fod angen gwneud mwy o waith i wella'r modd y mae'r argymhellion a wneir yn sgil cwynion yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella trefniadau llywodraethu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a disgwyli'r bydd y gwelliannau hyn yn gydnaws â'r gwaith ad-drefnu i ddatblygu'r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant ac i hybu atebolrwydd ym mhob maes.

## Amserlenni

Cydymffurfiaeth â'r amserlenni a bennir yn y Rheoliadau yw un o'r meysydd y mae angen rhoi mwy o sylw iddo yn ystod y cyfnod adrodd nesaf. Fodd bynnag, cydnabyddir bod amserlenni i ymdrin â chwynion yn gallu cyfyngu'n fawr ar y broses, ac felly mae'n hanfodol cyfathrebu'n dda â'r

achwynwyr. Bydd mwy o waith yn cael ei wneud law yn llaw â'r Rheolwyr Corfforaethol i geisio gwella'r perfformiad o ran hyn.

## Y gwersi a ddysgwyd

Ceir enghreifftiau o'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y cwynion a ddaeth i law isod:

*Hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth o ran pobl anneuaidd i sicrhau dealltwriaeth, parch, a defnydd priodol o derminoleg bob amser.*

*Bydd nodyn yn cael ei anfon at y staff sy'n gyfrifol am drefnu sesiynau cyswllt dan oruchwyliaeth i'w hatgoffa i sicrhau eu bod yn dewis lleoliadau yn ôl nifer y bobl y bwriedir iddynt fod yn bresennol ac i roi mwy o ystyriaeth i ba mor ymarferol yw unrhyw weithgareddau y bwriedir eu gwneud yn y lleoliad.*

*Gofyn i staff sicrhau bod yr wybodaeth a gofnodir ganddynt bob amser yn gywir ac yn ffeithiol, a'u bod yn gofalu eu bod yn defnyddio'r cyd-destun cywir bob amser.*

## Gweithgarwch Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, bu i Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) gysylltu o'r newydd **naw** gwaith â'r Cyngor. Mae hyn yn gynnydd nodedig o'i gymharu â'r tair gwaith y bu i'r swyddfa gysylltu â'r Cyngor yn 2018/19. Roedd pum achos yn ymwneud â'r Gwasanaethau Plant a phedair cwyn yn ymwneud â'r Gwasanaethau Oedolion.

Nid ymchwiliwyd i'r un o'r cwynion a atgyfeiriwyd at yr Ombwdsmon, ac ni chafodd unrhyw gynigion setlo na datrysiau cyflym eu hargymhell. O blith y naw cyswllt a atgyfeiriwyd at yr Ombwdsmon o ran y Gwasanaethau Cymdeithasol:

pennwyd bod pump ohonynt 'tu hwnt i awdurdodaeth yr Ombwdsmon' (h.y. dylid mynd i'r afael â'r gŵyn drwy sianeli eraill h.y. y llysoedd)  
caewyd tri achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol gan yr Ombwdsmon (e.e. roedd yn fodlon nad oedd unrhyw gamweinyddu ar ran y Cyngor neu na fyddai llawer i'w ennill pe bai'r Ombwdsmon yn ymchwilio i'r gŵyn)  
roedd un achos wedi'i atgyfeirio'n rhy gynnar (e.e. ni chafodd ei ystyried o dan weithdrefn gwyno'r Cyngor ei hun).

Y cyfnod adrodd hwn yw'r cyntaf ers 2015/16 lle nad yw'r Ombwdsmon wedi ymchwilio i unrhyw gŵynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol na chadarnhau cwynion o'r fath.

**Canmoliaeth**

Gwnaed y nifer fwyaf o'r sylwadau canmoliaethus a ddaeth i law'r Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd gan ddefnyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Daeth cyfanswm o 235 sylw canmoliaethus i law a gellir eu gwahanu fesul gwasanaeth fel a ganlyn:

Maes gwasanaeth	Sylwadau canmoliaethus a ddaeth i law
Gwasanaeth Plant a Theuluoedd	36
Gwasanaethau Oedolion (gan gynnwys Gwasanaethau Uniongyrchol a Thai)	168
Gwasanaethau eraill (gan gynnwys Gwasanaethau a Gomisiynir)	31
<b>Cyfanswm</b>	<b>235</b>

Dyma rai o'r sylwadau canmoliaethus a ddaeth i law yn ystod 2019/20:

‘Dw i am ddiolch yn fawr i chi am eich holl gefnogaeth a chymorth; mae wedi bod yn bleser gweithio gyda chi.’

‘Diolch yn fawr i chi a’ch staff am y gwasanaeth rhagorol. Allwn i ddim bod wedi dymuno gwell.’

‘Hapus â’r gwasanaeth a ddarparwyd. Caredig iawn, bob amser yn hapus ac yn siriol, gan fy rhoi ar ben ffordd ar ddechrau’r diwrnod. Eithriadol o hapus. Dydw i ddim yn siŵr sut y byddwn i’n ymdopi heb y cymorth.’

## 4. Hybu a gwella llesiant y rheini yr ydym yn eu cynorthwyo

Ychwe safon ansawdd a ddefnyddir i fesur perfformiad yr Awdurdod Lleol o ran y canlyniadau llesiant yw:

1. Gweithio gyda phobl i ddiffinio ac i gydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl am eu cyflawni
2. Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn ac i hybu iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol pobl
3. Cymryd camau i amddiffyn ac i ddiogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
4. Annog a chynorthwyo pobl i ddysgu, i ddatblygu ac i fod yn rhan o'r gymdeithas
5. Cynorthwyo pobl i feithrin ac i gynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
6. Gweithio gyda phobl a'u cynorthwyo i sicrhau llesiant economaidd gwell, i gael bywyd cymdeithasol, ac i fyw mewn llety addas sy'n ateb eu gofynion

### Beth yr oeddem yn bwriadu ei wneud y llynedd?

Gan fod nifer o'n gwasanaethau'n gysylltiedig â'i gilydd a'n strategaethau'n gydnaws â'i gilydd, mae amcanion ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gorgyffwrdd ag amcanion ein Gwasanaethau Oedolion, ac felly mae'r amcanion yn canolbwytio ar ddull gydol oes o weithredu.

#### Amcan Gwella 1

- Sicrhau bod y broses o drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei chyflawni yn ystod 2019/20 ar y cyd ag adrannau corfforaethol eraill ac asiantaethau sy'n bartneriaid
- Cydweithio ar y cynllun ailstrwythuro corfforaethol, gan alluogi dull effeithlon o weithredu ar draws y Cyngor cyfan
- Sicrhau bod y gofynion statudol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn cael eu diffinio'n glir yn y strwythur
- Sicrhau bod gwasanaethau cadarn yn eu lle i sicrhau bod modd i ddinasyyddion gyflawni eu canlyniadau personol

#### Amcan Gwella 2

- Sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol lais cryf yn y rhanbarth
- Sicrhau bod staff perthnasol yn ymrwymo i ymwneud yn rheolaidd â holl ddigwyddiadau partneriaethau rhanbarthol
- Sicrhau bod Ceredigion yn manteisio'n llwyr ar yr adnoddau sydd ar gael inni gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Dylanwadu ar ddatblygiadau ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol

## Amcan Gwella 3

- Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn mynd ati'n effeithiol, ar y cyd â'i bartneriaid, i sicrhau ac i ddefnyddio Cronfeydd Trawsnewid i hybu gwell canlyniadau i bobl Ceredigion
- Datblygu'r Prosiect Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg ar y cyd â Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro a Hywel Dda
- Cydweithio â Hywel Dda i ddatblygu Tîm Cymunedol Mynediad Cyflym
- Cydweithio â'r Gwasanaeth lechyd a'r Trydydd Sector i ddatblygu adnoddau a chanolfannau cymunedol

## I ba raddau y bu inni lwyddo i weithio tuag at gyflawni'r blaenoriaethau hyn?

### Amcan Gwella 1 – Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol

- Sicrhau bod y broses o drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei chyflawni yn ystod 2019/20 ar y cyd ag adrannau corfforaethol eraill ac asiantaethau sy'n bartneriaid
- Cydweithio ar y cynllun ailstrwythuro corfforaethol, gan alluogi dull effeithlon o weithredu ar draws y Cyngor cyfan
- Sicrhau bod y gofynion statudol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn cael eu diffinio'n glir yn y strwythur
- Sicrhau bod gwasanaethau cadarn yn eu lle i sicrhau bod modd i ddinasyyddion gyflawni eu canlyniadau personol

Ein gweledigaeth ar gyfer y Rhaglen Gydol Oes a Llesiant yw:

Sicrhau bod pob plentyn, pob person ifanc a phob oedolyn yng Ngheredigion yn gallu gwireddu ei botensial llawn. Sicrhau mynediad teg i bawb at wasanaethau rhagorol cyffredinol ac wedi'u targedu sy'n cefnogi iechyd a llesiant pob dinesydd. Meithrin sgiliau a chydnerthedd a fydd yn para oes a galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau y gallent eu hwynebu.

Byddwn yn:

- cynorthwyo'r rheini sydd o dan anfantais a'r rheini sy'n wynebu heriau
- datblygu ymhellach wasanaethau ar gyfer dinasyddion sy'n canolbwytio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar gryfderau
- diogelu a meithrin y rheini sydd fwyaf agored i niwed
- anelu at fod yn feincnod ar gyfer rhagoriaeth ac arloesedd yng Nghymru a thu hwnt
- uwchsgilio ein gweithlu i gydweithio i wella'r canllawiau a'r cymorth sydd ar gael i unigolion a theuluoedd yng Ngheredigion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth amrywiol sy'n canolbwytio ar sicrhau bod iechyd a llesiant dinasyddion crystol ag y gall fod, gan gynnwys

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i sicrhau bod prif egwyddorion y fframwaith deddfwriaethol yn ennill eu plwyf yn ei holl weithgareddau a'i ddatblygiadau.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod y Fframwaith Arwyddion Diogelwch yn parhau i ennill ei blwyf ac mae'n cynnig ei fod yn dod yn rhan ganolog o'r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant. Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir gennym gan ddinasyyddion yn uniongyrchol neu drwy asiantaethau eraill yn cael ei defnyddio'n briodol i roi dull sy'n canolbwytio ar yr unigolyn ar waith ar sail cwestiynau sylfaenol fel 'Beth sy'n peri gofid i chi?' a 'Beth sy'n gweithio'n dda?' O ganlyniad i'r rhain, rydym yn ceisio mynd ati i ddatblygu ymhellach wasanaethau ar gyfer dinasyddion sy'n canolbwytio ar ganlyniadau, yn seiliedig ar gryfderau, yn ymateb yn brydlon ac yn greadigol, ac yn canolbwytio bob amser ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

Bydd y Rhaglen Gydol Oes a Llesiant yn parhau i fynd rhagddi er mwyn rhoi'r weledigaeth ar waith ac ailgydbwyso'r ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu yng Ngheredigion.

### Amcan Gwella 2 – Partneriaethau

- Sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol lais cryf yn y rhanbarth
- Sicrhau bod staff perthnasol yn ymrwymo i ymwneud yn rheolaidd â holl ddigwyddiadau partneriaethau rhanbarthol
- Sicrhau bod Ceredigion yn manteisio'n llwyr ar yr adnoddau sydd ar gael inni gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Dylanwadu ar ddatblygiadau ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ymgysylltu â Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r rhain yn gyfrwng i hybu gwelliannau rhanbarthol ar draws y maes gofal cymdeithasol, gan barhau i ganolbwytio ar feisydd angen a blaenoriaethau penodol Ceredigion. Mae'r Cyngor yn cefnogi nifer o fforymau rhanbarthol ac yn ymgysylltu'n effeithiol â nhw. Mae'n gwneud y gorau o gyfleoedd i gael cyllid rhanbarthol drwy bartneriaethau a mentrau rhanbarthol, gan gynnwys Rhaglen Drawsnewid Cymru lachach a'r Gronfa Gofal Integredig.

### Amcan Gwella 3 – Rhaglen Drawsnewid Cymru lachach

- Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn mynd ati'n effeithiol, ar y cyd â'i bartneriaid, i sicrhau ac i ddefnyddio Cronfeydd Trawsnewid i hybu gwell canlyniadau i bobl Ceredigion
- Datblygu'r Prosiect Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg ar y cyd â Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro a Hywel Dda
- Cydweithio â Hywel Dda i ddatblygu Tîm Cymunedol Mynediad Cyflym
- Cydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd a'r Trydydd Sector i ddatblygu adnoddau a chanolfannau cymunedol

Fel rhan o Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, roedd ein cyflwyniad gwreiddiol i raglen waith Gorllewin Cymru lachach yn cynnwys:

#### Gwella bywydau drwy dechnoleg

- Gofal rhagweithiol sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg
- Fframwaith digidol a rennir

#### Cryfhau lleoliadau integredig

- Integreiddio cyson ar lwybr carlam
- Hunanreolaeth ragweithiol a gynorthwyir

#### Cefnogi newid gyda'n gilydd

- Ymgysylltu'n barhaus â dinasyddion



- Newid ymddygiad am byth

## Cysylltu pobl... cymunedau caredig

- Creu cysylltiadau i bawb
- Adeiladu'r seilwaith i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol

Darparodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £11.89 miliwn i Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i gefnogi'r camau i roi'r tair rhaglen y cytunwyd arnynt ac a restrir isod ar waith:

## Rhaglen 1: Gofal rhagweithiol sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg

- Dull rhagweithiol o gadw pobl yn iach yn eu cymunedau
- Mae'n seiliedig ar ddull y profwyd ei fod yn gweithio yn Bilbao, Sbaen
- Mae dystiolaeth o Sbaen yn dangos ei fod yn cael effaith sylweddol ar alw ac ar lesiant
- Gofal pwrpasol wedi'i deilwra i'r unigolyn sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg
- Asesiad llesiant manwl a chynlluniau llesiant a gefnogir
- Galwadau rhagweithiol gan ddefnyddio llwyfan Delta Wellbeing sy'n bodoli eisoes ac yn darparu manteision cynhenid
- Ymateb cyflym amlasiantaethol, gyda chymorth cymunedol lleol gwell
- Prosiect cynhwysiant digidol i gefnogi rhwydweithiau anffurfiol

## Rhaglen 3: Integreiddio cyson ar lwybr carlam

- Tîm Cymunedol Mynediad Cyflym sy'n darparu ymateb proffesiynol 24/7 mewn argyfwng
- Rhoddir y model ar waith ym mhob ardal, ac fe gaiff ei deilwra i sicrhau bod y trefniadau'n ateb gofynion lleol ac yn adeiladu ar y trefniadau presennol
- Capasiti ychwanegol yn y rhaglen i gefnogi mwy o integreiddio ar lefel ardal

## Rhaglen 7: Creu cysylltiadau i bawb

- Rhoi model cysylltwyr cymunedol cyson ar waith ledled y Gorllewin i greu cysylltiadau cymunedol ac i adeiladu cydnerthedd
- Dinasydion gweithredol – hybu a chefnogi gwirfoddoli
- Rhaglen bydis sy'n pontio'r cenedlaethau i feithrin sgiliau TG a sgiliau eraill
- Rhaglen 'Mae'r Gorllewin yn Garedig'
- Gwreiddio Dewis ac Info-engine
- Rhaglen sgiliau garlam ar gyfer staff sy'n darparu cymorth cymunedol

Cychwynnwyd ar y tair rhaglen yn 2019/2020. Mae rhaglen 1 yn cael ei harwain yn rhanbarthol, rhaglen 3 yn cael ei harwain yn lleol, a rhaglen 7 yn cael ei harwain gan y Trydydd Sector.

## Gwasanaethau Tai Awdurdod Lleol Ceredigion

Mae Gwasanaeth Tai Ceredigion wedi bod yn rhan o Wasanaeth Porth Gofal y Rhaglen Gydol Oes a Llesiant, a thybir ei fod yn faes gwasanaeth hollbwysig er mwyn cynorthwyo unigolion a theuluoedd i gadw'n iach ac i gynnal eu llesiant. Mae'r gwasanaeth yn diwallu ystod eang o anghenion cymunedol. Isod, ceir adroddiad manwl am weithgarwch y gwasanaeth yn ystod 2019/2020.

# PORTH GOFAL

## HOUSING SERVICES

Under Homelessness interventions, in 2019-20, 144 cases were dealt with where there had been approaches due to households being at risk of homelessness.  
Of those, 100 were successfully prevented from becoming homeless.

**144****310**

In general 310 enquiries / cases were provided with advice and assistance.

427 assessments carried out under s62 Housing Act requirements.

**427****83**

83 clients were assisted with Rent Advance and Bonds in 2019-20.



(This figure does not include those who the Housing Options team supported and sign-posted to other agencies such as, Vicars Relief Fund (VRF), budgeting loans and Discretionary Housing Payment (DHP) applications for these upfront costs.)

Under housing register work, for the year 2019-20, 1139 Housing Register applications were received across all four Registers (affordable, general, older persons, accessible).

**1139****439**

439 Safe, Warm and Secure Grants delivered.



Under the adaptations service, 120 Disabled Facilities Grants delivered.

**120**

Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

## *Pa wahaniaeth y mae'r gwasanaeth wedi'i wneud?*

O ran y ddyletswydd i atal digartrefedd, bu i 31 aelwyd sicrhau llety yn y sector rhent preifat drwy'r cynllun cymhelliant landlordiaid (arian o'r Gronfa Atal Digartrefedd neu Daliadau Tai Dewisol) a bu i 24 aelwyd hynny heb y cynllun cymhelliant.

Bu modd i 10 aelwyd aros yn eu cartrefi o ganlyniad i gymorth ariannol (Taliadau Tai Dewisol/Y Gronfa Atal), a bu modd i dair aelwyd arall aros yn eu cartrefi ar ôl cael cyngor am ddyledion/arian. O ran y ddyletswydd i leddfu digartrefedd, bu i 41 aelwyd sicrhau llety yn y sector rhent preifat drwy'r cynllun cymhelliant landlordiaid a bu i 10 aelwyd wneud hynny heb y cynllun cymhelliant. Mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Diogel, Cynnes a Sicr wedi cynorthwyo cleientiaid i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi'u hunain. Dywedodd un ymgeisydd: "Rwy'n gallu cael bath (yn ddiogel) bob dydd nawr a does arna i ddim ofn cwympo ar y grisiau mwyach. Alla i ddim diolch ddigon i bawb am y newidiadau gwirioneddol gadarnhaol y mae'r gwaith hwn wedi'u gwneud i'm bywyd."

Cafodd cyfanswm o 267 o ymgeiswyr dai drwy'r Gofrestr Dai. Cafodd 52 (19%) o'r dyraniadau eu gwneud i unigolion yr oedd arnom ddyletswydd i'w hatal rhag bod yn ddigartref.

## *Pa mor dda ydym ni wedi'i wneud?*

Cyfanswm y canlyniadau atal digartrefedd: 144 (mae hyn yn cynnwys achosion y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, achosion nas llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, achosion nad oeddent yn cydweithredu, achosion a wrthododd gymorth, achosion a dynnwyd yn ôl, ac achosion a dynnwyd yn ôl yn sgil colli cysylltiad).

Canlyniadau lle y llwyddwyd i atal digartrefedd: 100. Felly, llwyddwyd i atal 69% o'r aelwydydd a oedd yn wynebu digartrefed rhag bod yn ddigartref. Fodd bynnag, dim ond 16 (11%) o'r 144 achos nas llwyddwyd i'w ddatrys, a hynny gan fod 28 (19%) o'r cleientiaid wedi tynnu'n ôl o'r gwasanaeth (gan gynnwys un aelwyd a wrthododd gymorth ac un aelwyd na fu iddi gydweithredu) ac nad oedd modd i'r Gwasanaeth Dewisiadau Tai eu cynorthwyo neu ddwyn y maen i'r wal.

Darparwyd cartref diogel i 559 o ymgeiswyr anabl ac agored i niwed er mwyn iddynt barhau i fyw'n annibynnol. Dywedodd dros 80% o'r rhai a wnaeth gais i gael arian grant eu bod yn cytuno'n gryf neu'n dueddol o gytuno â'r datganiad bod ansawdd eu bywydau wedi gwella yn sgil yr addasiadau. Ychwanegwyd 991 o geisiadau am dai at y Gofrestr Dai i'w hystyried pan fydd tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu. Yn ychwanegol at hyn, gwnaed newidiadau i'r ffurflenni cais a'r ffurflenni adnewyddu i sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyfredol ar gael i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid inni.

## *Darparu tai fforddiadwy ar draws pob deiliadaeth*

Mae rhaglen Grant Tai Cymdeithasol 2019-20 yn rhan o raglen ddatblygu dreigl dair blynedd sy'n cynnwys nifer o ffrydiau ariannu Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen ddatblygu'n seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion y Cofrestri Tai sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn darparu cymsgedd o dai cymdeithasol a thai canolradd ledled Ceredigion.

## *Pa wahaniaeth y mae'r amcan hwn wedi'i wneud?*

Mae nifer yr unedau rhent cymdeithasol sy'n cael eu darparu'n debygol o gynyddu o flwyddyn i flwyddyn dros y tair blynnydd nesaf, gan gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o unedau erbyn 2021. Mae datblygiadau'n cael eu targedu i helpu i ateb y galw lleol a nodwyd yn y sir. Mae'r ystod o ddewisiadau deiliadaeth fforddiadwy hefyd yn cynyddu i helpu i fynd i'r afael ag anghenion tai amrywiol yn y sir.

Mae'r Awdurdod yn gwella'r modd y mae'r holl waith o adeiladu tai cymdeithasol newydd yn cael ei darged, a hynny drwy system cronfa ddata'r Gofrestr Dai (Abritas). Mae tai arbenigol a thai wedi'u haddasu, fel tai sy'n hygrych i rywun sy'n defnyddio cadair olwyn / rhywun ag anawsterau symud, hefyd yn cael eu darparu i geisio mynd i'r afael ag anghenion ymgeiswyr / cleientiaid penodol. Mae nifer yr heriau hyfywedd sydd wedi dod i law wedi gostwng ychydig dros fis oedd yr haf, ond disgwylir i'r heriau gynyddu wrth i nifer gyffredinol y ceisiadau gynyddu.

Yn anffodus, ni all Abritas ddweud wrthym faint o'r ymgeiswyr yr oedd angen tai hygrych arnynt yn 2019-20. Fodd bynnag, hyd heddiw (18/11/2020), cafwyd 239 o geisiadau sy'n cynnwys gofyniad i gael eiddo hygrych. Gan fod 1,497 o geisiadau gweithredol ar hyn o bryd, mae hyn yn gyfwerth â thua 19% o'r ceisiadau ac mae'n gyson ag adroddiadau am flynyddoedd blaenorol. Yn ystod 2019-20, roedd pump o'r dyraniadau a wnaed yn rhai ar gyfer eiddo a oedd yn hollol hygrych i rywun sy'n defnyddio cadair olwyn.

### *Cyfrannu at ddatblygu ac integreiddio'r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant:*

Yn ystod 2019-20, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig ar gyfer rhaglen y Grant Cymorth Tai (Cefnogi Pobl). Roedd y canllawiau hyn yn tynnu sylw at y cysylltiadau cryf rhwng cymorth tai ac atal digartrefedd. I gydnabod y cysylltiadau hyn, symudwyd y cyfrifoldeb dros gynllunio a darparu gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn strategol i'r Gwasanaethau Tai. Ers hynny, gwreddwyd manteision sylweddol o ran cydleoli'r gwaith o gynllunio dewisiadau tai, tai fforddiadwy a'r Grant Cymorth Tai i sicrhau bod cyfleoedd i ystyried anghenion cleientiaid mewn ffordd fwy cyfannol. Bwriedir ymgymryd â datblygiadau pellach yn ystod 2020-21, gan gynnwys ailgomisiyu a pharatoi i ddatblygu Strategaeth Rhaglen y Grant Cymorth Tai ar gyfer y blynnyddoedd i ddod.

At hynny, drwy leoli'r Gwasanaethau Tai ym model gwasanaeth integredig gydol oes Porth Ceredigion, pennwyd llawer o gyfleoedd i adeiladu ar gyfleoedd a chysylltiadau ar draws y model gwasanaeth, o atal ac ymyrraeth gynnar i ymyrryd mewn argyfwng.

### *Sicrhau bod anghenion llety preswylwyr yn cael eu bodloni*

Mae'r Gwasanaeth Tai yn parhau i weithio i sicrhau bod anghenion llety'n cael eu bodloni. Yn ystod y flwyddyn, arolygwyd 195 o dai amlfeddiannaeth trwyddedig (llety rhent preifat) i sicrhau bod safonau diogelwch yn cael eu bodloni. Ymchwiliwyd i 12 achos o aflonyddu a thaflu allan anghyfreithlon, ac aethpwyd i'r afael â 208 o gŵynion gwasanaeth a oedd yn ymwneud â safonau tai gwael. Bu staff tai hefyd yn ymwneud â'r gwaith o gynnal arolygiadau adfer dilynol yn sgil llifogydd yn y sir a effeithiodd ar bobl yn eu cartrefi. Mewn achosion o'r fath, darperir cyngor a chymorth tai i gynorthwyo pobl i sychu ac i adfer eu cartrefi, rhywbeth sy'n gallu cymryd llawer o fis oedd, ynghyd â chymorth i gael llety dros dro os nad oes modd iddynt aros yn eu cartrefi oherwydd difrod gan lifogydd.

Ymchwiliwyd i 18 achos o gelcio a darparwyd cymorth i'r unigolion hynny. Gan fod y gwasanaeth wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o'r fath, lluniwyd Pecyn Cymorth a Gweithdrefn Weithredol o ran Celcio ar sail amlasiantaethol. Oherwydd y gwaith rhagorol ar y pecyn cymorth hwn, fe'i cyflwynwyd i fwrdd diogelu rhanbarthol CYSUR sy'n awyddus i'w adolygu a'i addasu yn gyfle dysgu a datblygu o ran hunanesgeuluso.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Dros y flwyddyn sy'n dod, bydd nifer o brosiectau trawsnewid system-gyfan yn parhau. Gyda phandemig COVID-19 yn ennill ei blwyf ym mis Mawrth 2020, gohiriwyd y broses cynllunio busnes er mwyn i'r gwasanaethau ganolbwytio ar ddarparu gwasanaethau hollbwysig. Am y rheswm hwn, roedd angen i flaenoriaethau 2020/2021 barhau i ganolbwytio ar y tri phrif faes gwaith y cychwynnwyd arnynt yn 2019/2020. Y prif amcanion dros y flwyddyn sy'n dod ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion a phlant yw:

### Amcan Gwella 1

Sicrhau bod y broses o drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei chyflawni yn ystod 2020/21 ar y cyd ag adrannau corfforaethol eraill ac asiantaethau sy'n bartneriaid.

- Cydweithio ar y cynllun ailstrwythuro corfforaethol, gan alluogi dull effeithlon o weithredu ar draws y Cyngor cyfan
- Sicrhau bod y gofynion statudol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn cael eu diffinio'n glir yn y strwythur
- Sicrhau bod gwasanaethau cadarn yn eu lle i sicrhau bod modd i ddinasyddion gyflawni eu canlyniadau personol

### Amcan Gwella 2

Sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol lais cryf yn y rhanbarth o hyd

- Sicrhau bod staff perthnasol yn ymrwymo i ymwneud yn rheolaidd â holl ddigwyddiadau partneriaethau rhanbarthol
- Sicrhau bod Ceredigion yn manteisio'n llwyr ar yr adnoddau sydd ar gael inni gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Dylanwadu ar ddatblygiadau ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol

### Amcan Gwella 3

Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn mynd ati'n effeithiol, ar y cyd â'i bartneriaid, i sicrhau ac i ddefnyddio Cronfeydd Trawsnewid i hybu gwell canlyniadau i bobl Ceredigion

- Parhau i ddatblygu'r Prosiect Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg ar y cyd â Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro a Hywel Dda
- Cydweithio â Hywel Dda i hybu'r agenda gweithio integredig, gan gynnwys y Tîm Cymunedol Mynediad Cyflym
- Cydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd a'r Trydydd Sector i ddatblygu adnoddau a chanolfannau cymunedol

## 5. Sut yr ydym yn gwneud yr hyn yr ydym yn ei wneud

### Sut yr ydym wedi cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu Gofal Cymdeithasol

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi gwerth mawr ar y gwasanaethau a ddarperir gan y sector gofal cymdeithasol i ddinasyddion Ceredigion. Drwy ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu, rydym yn ceisio denu, recriwtio a chadw gweithlu cymwys a hyfedr sy'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw.

Defnyddir arian grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru i ddarparu ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r sector. Mae'r cyfleoedd hyn yn cefnogi'r rheini sy'n darparu'r gwasanaethau er mwyn iddynt gael hyfforddiant sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus ac ennill y cymwysterau sy'n ofynnol gan y rheoleiddwyr.

I ymgysylltu â darparwyr gofal cymdeithasol allanol ac i annog deialog â nhw, cynhaliodd y tîm dysgu a datblygu ddu ddigwyddiad i gael gwybod am eu hanghenion a'u blaenoriaethau o ran hyfforddiant. Mae hyn, yn ei dro, wedi gosod sail ar gyfer y cyfleoedd amrywiol a ddarparwyd gennym.

Ym mis Mawrth 2020, bu i COVID-19 effeithio ar y broses o ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu, ac arweiniodd at ganslo pob cwrs wyneb yn wyneb. Yn sgil hyn, rhoddwyd pwyslais newydd ar ddefnyddio adnoddau e-ddysgu ac ar ddarparu hyfforddiant ar-lein. Rhoddwyd blaenoriaeth i ddatblygu raglenni e-ddysgu newydd i gefnogi'r sector, yn enwedig y rheini sy'n gweithio mewn swyddi gofal cymdeithasol rheng flaen am y tro cyntaf. Cyflwynwyd amserlen ddiwygiedig o ddigwyddiadau ar-lein, ac mae'n parhau i fod ar gael i ddarparwyr gofal cymdeithasol mewnol ac allanol.

Cynhaliwyd 254 o ddigwyddiadau hyfforddi, gan gynnwys hyfforddiant iechyd a diogelwch, yn ystod y flwyddyn. Daeth 2,940 aelod staff i'r digwyddiadau hyn, sef cynnydd o 298 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ymhlieth y digwyddiadau dysgu a gynhaliwyd mae Profiad o Realiti Awtistiaeth, y Llys Gwarchod, Llinellau Cyffuriau, ac Ymwybyddiaeth o Raglen Prevent. Daeth 66 aelod staff mewnol ac 14 gweithiwr allanol i bedwar digwyddiad am y Cod Ymarfer Proffesiynol, a daeth 191 aelod staff mewnol a 91 gweithiwr allanol i 26 digwyddiad dysgu am ddementia. Yn unol â'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, cynhaliwyd 20 sesiwn hyfforddi Gofyn a Gweithredu ar gyfer cyfanswm o 194 aelod staff. Mae 45 aelod o'r staff gofal cymdeithasol hefyd wedi cael cymorth i fynd i gynadleddau a digwyddiadau hyfforddi allanol amrywiol.

Mae'r Fframwaith Ymarfer Arwyddion Diogelwch yn parhau i gael ei wreiddio mewn ymarfer gyda chymorth 17 sesiwn gyda 171 aelod staff mewnol ac 85 gweithiwr allanol.

Yn sgil y cynnydd yn y defnydd o raglenni e-ddysgu, bu modd cyflwyno cyfleoedd dysgu hygrych a safonedig ar gyfer y sector, gyda chyfanswm o 1,753 aelod staff mewnol a 222 gweithiwr gofal cymdeithasol allanol yn cwblhau'r raglenni.

Mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer olyniaeth yn y gweithlu yn cael ei integreiddio ar wahanol lefelau o ymarfer gofal cymdeithasol. Mae gwaith partneriaeth rhwng y Brifysgol Agored a Phrifysgol Abertawe wedi cefnogi 13 o leoliadau gwaith cymdeithasol i fyfyrwyr. Mae wyth cyflogai wedi llwyddo i gymhwys fel Gweithwyr Cymdeithasol, gan gael swyddi parhaol yn yr Awdurdod, ac mae tri chyflogai wrthi'n astudio ar gyfer Tystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol. Ar ôl i'n prentis gofal cymdeithasol cyntaf gwblhau Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn cartref preswyl cyn cael swydd yn yr Awdurdod, mae wedi arwain at recriwtio pellach. Ym mis Tachwedd 2019, dechreuodd prentis gofal cymdeithasol newydd ar y llwybr gyrfa hwn.

Mae'r Gymraeg yn parhau i gael ei hintegreiddio i'n hymarfer dysgu a datblygu drwy ddarparu gwybodaeth ddywyieithog a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. Mae'r sesiynau a ddarperir am Ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a Mwy Na Geiriau yn cefnogi ein hymrwymiad i'r Cynnig Rhagweithiol.

Mae 307 aelod staff wedi cwblhau rhaglen e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac mae 43 aelod o'r staff gofal cymdeithasol wedi cael cymorth i fynd ar gysiau dysgu Cymraeg.

Rhaglen	Niferoedd ar y rhaglen ar 1 Ebrill 2019	Niferoedd a gofrestrodd ar y rhaglen yn ystod 2019/2020	Niferoedd a gyflawnodd y rhaglen yn ystod 2019/2020	Niferoedd a adawodd y rhaglen	Niferoedd sy'n parhau â'r rhaglen yn 2020/2021
Fframwaith Sefydlu Cymru (AWIF)	0	23	0	1	22
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2	3	13	3	4	9
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3	3	11	3	2	9
Plant a Phobl Ifanc Lefel 3	2	0	2	0	0
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 5	1	10	8	0	3
Tystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	7	3	7	0	3
Gradd Gwaith Cymdeithasol	8	0	8	0	0
Rhaglen Gweithiwr Cymdeithasol Newydd Gymhwys	2	8	2	0	8
Tystysgrif i Raddedigion ar Gyfuno Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	7	3	4	0	6
Dyfarniad Asesydd Ymarfer	3	1	2	1	1
Ymarferydd Iechyd Meddwl Cymeradwy	0	2	0	0	2
Camu Ymlaen i Reoli	5	0	5	0	0
Rhaglen Datblygu Arweinwyr Tim	7	1	7	0	1

Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol	1	0	1	0	0
Tystysgrif mewn Gofal Dementia Lefel 3	20	0	18	2	0
Aseswr y Gellir Ymddiried Ynddy Lefel 3	0	10	10	0	0
Asesu'r Gallu i Wneud Penderfyniadau Lefel 6	0	3	0	0	3
Rhaglen Arweinyddiaeth Rheolwyr Strategol	0	1	1	0	0

## Profil ieithyddol ein gweithlu – Gwasanaethau Oedolion

Trosolwg	Nifer y bobl	% o'r bobl
ALTE 0, 1 a 2	174	46.15%
ALTE 3, 4 a 5	203	53.85%
<b>CYFANSWM</b>	<b>387</b>	<b>100.00%</b>

Bwlch	Nifer y bobl	% o'r bobl
Bwlch o ran gofynion ALTE	189	50.13%
Bodloni gofynion ALTE	188	49.87%
<b>Cyfanswm</b>	<b>387</b>	<b>100%</b>

Unigolyn – siarad a gwrandu	0	1	2	3	4	5	
Nifer y bobl	25	92	57	71	32	100	377
% o'r bobl	6.63%	24.40%	15.12%	18.83%	8.49%	26.53%	100.00%
Unigolyn – ysgrifennu	0	1	2	3	4	5	
Nifer y bobl	65	97	59	63	28	65	377
% o'r bobl	17.24%	25.73%	15.65%	16.71%	7.43%	17.24%	100%
Unigolyn – darllen	0	1	2	3	4	5	
Nifer y bobl	56	89	60	40	52	80	377
% o'r bobl	14.85%	23.61%	15.92%	10.61%	13.79%	21.22%	100%

## Profil ieithyddol ein gweithlu – Gwasanaethau Plant

Trosolwg	Nifer y bobl	% o'r bobl
ALTE 0, 1 a 2	78	43.58%
ALTE 3, 4 a 5	101	56.42%
<b>Cyfanswm</b>	<b>179</b>	<b>100.00%</b>

Bwlch	Nifer y bobl	% o'r bobl
Bwlch o ran gofynion ALTE	74	41.34%
Bodloni gofynion ALTE	105	58.66%
<b>Cyfanswm</b>	<b>179</b>	<b>100.00%</b>

Unigolyn – siarad a gwrando	0	1	2	3	4	5	
Nifer y bobl	3	36	39	25	13	63	179
% o'r bobl	1.68%	20.11%	21.79%	13.97%	7.26%	35.20%	100.00%
Unigolyn – ysgrifennu	0	1	2	3	4	5	
Nifer y bobl	16	39	32	17	28	47	179
% o'r bobl	8.94%	21.79%	17.88%	9.50%	15.64%	26.26%	100.00%
Unigolyn – darllen	0	1	2	3	4	5	
Nifer y bobl	13	34	37	16	30	49	179
% o'r bobl	7.26%	18.99%	20.67%	8.94%	16.76%	27.37%	100.00%

## **Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol**

Bu i'r Cyngor barhau i wynebu her ariannol sylweddol drwyddi draw yn ystod 2019/20 ar ôl degawd o gyni parhaus, gyda setliad ariannol y Cyngor gan Lywodraeth Cymru yn 2019/20 o £102.1m yn dychwelyd at lefelau 2010/11 yn unig (£101.7m).

Bu i'r cyllidebau sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol (£31.8m) barhau i gyfrif am ran gynyddol o gyllideb y Cyngor, gan godi i 22% o gyllideb gyffredinol y Cyngor o £143.6m yn 2019/20. O fewn y ffigurau hyn, roedd gofyn gwneud £2.1m o arbedion o ran Gofal Cymdeithasol ac arbed £2.8m o'r pwysau costau ar y gwasanaeth.

Nid oedd yr adnoddau a ddyrannwyd i'r gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn ddigonol, a bu iddynt orwario £2.2m ym mlwyddyn ariannol 2019/20. Serch hynny, bu hwn yn drobwynt a arweiniodd at roi mwy o gydnabyddiaeth i'r pwysau ar y cyllidebau Gofal Cymdeithasol a maint a hynt y newid trawsnewidiol sy'n ofynnol.

O edrych tua'r dyfodol, mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn amlinellu strategaeth ariannol at ddibenion cynllunio ar gyfer y dyfodol ac i wireddu blaenorriaethau corfforaethol y Cyngor, sef:

- Hybu'r economi
- Buddsoddi yn nyfodol y bobl
- Galluogi cydnerthedd unigolion a theuluoedd
- Hyrwyddo cydnerthedd amgylcheddol a chymunedol

Mae rhan o agwedd drawsnewidiol y Cynllun Tymor Canolig yn canolbwytio ar symud oddi wrth wasanaethau Gofal Cymdeithasol traddodiadol i Blant ac Oedolion at fodel Gydol Oes ehangach sy'n cynnwys ymyrraeth gynnar, a hynny drwy gyflwyno model gweithredu pwrpasol newydd o dan y gwasanaethau a elwir yn Borth Gofal, Porth Cynnal a Phorth Cymorth Cynnar.

Cydnabyddir y gall fod angen buddsoddiad ac arian sefydlu cychwynnol ar ei gyfer (y bwriedir iddo ddechrau yn 2020/21), ond disgwylir y bydd yn creu manteision hirdymor, ac mae'n cael ei reoli gan ddefnyddio egwyddorion rheoli prosiectau ffurfiol gan ei fod yn newid sefydliadol mawr.

Mae'r amcanestyniadau cyfredol o'r boblogaeth (cyn Cyfrifiad 2021) yn dangos bod disgwl i boblogaeth Ceredigion ostwng o 72,695 yn 2019 i 69,338 erbyn 2038. Fodd bynnag, o fewn y ffigur hwn, rhagwelir y bydd nifer y plant yn gostwng 15% a maint y boblogaeth oedran gwaith hefyd yn gostwng 14%. Serch hynny, disgwylir i'r boblogaeth dros 65 oed gynyddu 7% yn rhannol oherwydd disgwyliad oes hirach, ond hefyd oherwydd bod y genhedlaeth a aned ar ôl y rhyfel yn y 1950au a'r 1960au'n heneiddio.

Felly, mae'r cynnydd a ragwelir ym maint y boblogaeth sy'n heneiddio yn her fawr i'r Cyngor, ac mae'n anochel y bydd yn arwain at lawer mwy o alw am wasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn rhan o'r cefndir sy'n egluro'r angen i newid drwy gyflwyno model gweithredu newydd wedi'i dargeddu.

## Gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, Ilywodraethu ac atebolrwydd

### Y Pwyllgor Cydlynus Trosolwg a Chraffu

Bu i'r Pwyllgor ystyried adroddiadau chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR am ddiogelu. Mae'r adroddiadau'n rhoi gwybodaeth reoli am y camau a gymerwyd o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth a ddarperir gan asiantaethau eraill o ran diogelu lles plant yng Ngheredigion. Trafodir yr wybodaeth reoli gan aelodau o Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR (Ceredigion) er mwyn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Mae'r cyfarfodydd amlasantaeithol yn gyfle i bennu unrhyw broblemau o ran perfformiad neu broblemau eraill yn y maes gwaith hwn, ac i fynd i'r afael â nhw. Darperir gwybodaeth am berfformiad i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolborth a Gorllewin Cymru hefyd. Mae hyn hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a phroblemau ar draws y rhanbarth.

Bu i'r Pwyllgor hefyd ystyried adroddiadau chwarterol y Gwasanaeth Diogelu Oedolion. Mae'r adroddiadau'n tynnu sylw at weithgarwch a pherfformiad y Gwasanaeth Diogelu Oedolion ac yn darparu data ystadegol sy'n peri iddi fod yn bosibl cymharu'r gweithgarwch mewn gwahanol chwarterau a blynnyddoedd blaenorol, yn ogystal â nodi'r prif gyflawniadau a'r gwaith allweddol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y prif feysydd gwaith a'r prif welliannau a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Cyflwynwyd gwybodaeth am Weithdrefnau Diogelu newydd Cymru i'r Pwyllgor.

Bu i'r Pwyllgor hefyd ystyried y rhan honno o Adroddiad Blynnyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2018-2019 a oedd yn ymwneud â diogelu. Roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach wedi ystyried yr adroddiad hwnnw yn ei gyfanwydd. Nodwyd y byddai'r adroddiadau yn y dyfodol yn canolbwytio mwy ar ganlyniadau.

### Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Bu aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ystyried y Polisi Cam-drin Domestig cyn i'r Cabinet ei ystyried. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 26 Chwefror 2020, bu'n ystyried Polisi a Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar 16 Mawrth 2020 i ystyried penderfyniad y Cabinet yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror 2020 ynghylch Safle Hen Gartref Gofal Penparcau.

### Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach

Aeth y Rheolwr Gwasanaeth – Sicrhau Ansawdd, Gwasanaethau Plant a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Ceredigion i gyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd i gyflwyno Adroddiadau Rheoli Perfformiad chwarterol y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol a oedd yn cynnwys safonau cenedlaethol a lleol a thargedau a ddefnyddir i fesur canlyniadau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a yw hawlau dynol plentyn/person ifanc wedi'u torri mewn unrhyw ffordd ac, os felly, mae'n ystyried atgyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2020, cyfarfu'r Aelodau i ystyried y gyllideb ddrafft a oedd yn cael ei hargymhell gan y Cabinet ar gyfer 2020/21. Bu i'r Aelodau groesawu'r papur ychwanegol yr oedd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach wedi gofyn amdano a oedd yn egluro'r newid i gyllideb y Gwasanaethau Plant a'r ffaith bod Lleoliadau Tu Allan i'r Sir wedi'u symud i gyllideb y Grŵp Arweinyddiaeth fel eitem gorfforaethol.

Yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2019, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach lythyr blynnyddol gan Arolygiaeth Gofal Cymru am Adolygiad o Berfformiad yr Awdurdod Lleol. Roedd y llythyr yn crynhoi'r adolygiad o berfformiad Cyngor Sir Ceredigion o ran y modd y bu iddo ymgymryd â'i swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yn dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a dull Arolygiaeth Gofal Cymru o gefnogi gwelliant sy'n gynyddol seiliedig ar gydweithio ac ar gryfderau. Bwriedir i'r llythyr gynorthwyo'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid i barhau i wella.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Medi 2019, croesawyd y Swyddog Datblygu Gofalwyr, Heather West, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad am Adroddiad Blynnyddol 2018-2019 Grŵp Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Rheolwr Dechrau'n Deg, Rhian Rees, adroddiad blynnyddol Dechrau'n Deg i roi diweddariad am Raglen Dechrau'n Deg (gan gynnwys Allgymorth) yng Ngheredigion, ei chyfraniad at y Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal ac at y Gymraeg, ac i roi gwylod i'r Aelodau am y gwaith i liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod drwy feithrin cydnerthedd.

Yn y cyfarfod ar 13 Ionawr 2020, cyflwynodd Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Ceredigion ddiweddariad am y camau i roi ar waith newid i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol o ran Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.

Daeth Martyn Palfreman, Pennaeth Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, a Peter Skitt, Cyfarwyddwr Sirol Ceredigion ym Mwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda, i gyfarfod i gyflwyno adroddiad am Raglen Drawsnewid Ranbarthol Gorllewin Cymru lachach. Ym mis Mawrth 2019, dyfarnwyd £11.9m i Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru o Gronfa Drawsnewid Llywodraeth Cymru er mwyn darparu adnoddau i roi'r cynllun iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol, Cymru lachach, ar waith.

Ar 15 Ionawr 2020, trefnwyd cyfarfod arbennig ar y cyd rhwng aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu, fel y cytunwyd yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor.

Trafodwyd yr adroddiad am y Prosiect Iechyd Meddwl Mewngymorth mewn Ysgolion. Dywedwyd bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon wedi cytuno ym mis Gorffennaf 2017 i dreialu cymorth Iechyd Meddwl Mewngymorth ar gyfer ysgolion gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

Hefyd, trafodwyd adroddiad am y trefniadau i helpu gofalwyr maeth i gynorthwyo'r plant y maent yn gofalu amdanynt i ddefnyddio'r Gymraeg, a'r trefniadau i annog ac i gynorthwyo gofalwyr maeth i ddysgu Cymraeg. Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cymorth a ddarperir i reni maeth o ran plant sy'n derbyn gofal ac i roi cyfle i'r Pwyllgor ystyried gofynion addysgol plant mewn gofal, ar gais aelodau'r Pwyllgor. Darparodd y Rheolwr Gwasanaeth – Sicrhau Ansawdd,

Gwasanaethau Plant ddiweddariad i'r Aelodau am y sefyllfa gyfredol a chamau nesaf y gwasanaeth. Yna, trafodwyd yr adroddiad am y cymorth sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion, ar gais aelodau'r Pwyllgor. Cyflwynwyd yr adroddiad i amlinellu'r cymorth sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal, ac i ddarparu gwybodaeth am gyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 22 Ionawr 2020, roedd swyddogion yn bresennol i gyflwyno adroddiad yn sgil cais yr Aelodau am ddiweddariad am y rhaglen tai fforddiadwy/hygrych.

Ar 13 Chwefror 2020, rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau ac alcohol y rhanbarth a'r sir, a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor bwys o a mesur Adroddiad Blynnyddol diweddarafr Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed.

Cyflwynodd y Rheolwyr Corfforaethol – Camddefnyddio Sylweddau Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed ar gyfer Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol 2018-19. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at addysg ac ymwybyddiaeth, lleihau niwed, triniaeth, adfer, a pherfformiad yr ardal. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn falch o nodi bod ystadegau dangosyddion perfformiad allweddol Dyfed yn dda, gyda nifer o brosiectau'n cael eu rhoi ar waith ochr yn ochr â'r gwaith allgymorth.

Mae Grŵp Craffu Cyd-bwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru yn parhau i graffu ar Gyd-bwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru, Grŵp Cydweithredol lechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru yn flaenorol. Cyfarfu'r Grŵp Craffu yn ystod y prynhawn ar ôl pob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Roedd y Cadeirydd, y Cyfarwyddwr Sirol a Rheolwr y Rhaglen, a'r Cyfarwyddwyr Arweiniol yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny. Gweithgor Craffu ar y Cyd sy'n cynnwys aelodau o Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion yw hwn. Arferai Cyngor Sir Powys fod yn aelod ohono hefyd, ond bu i Bowys derfynu ei aelodaeth ddiwedd 2019.

Mae diwylliant o weithio mewn partneriaeth strategol a gweithredol wedi hen ennill ei blwyf yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion. Mae'n deall bod canlyniadau gofal cymdeithasol llwyddiannus yn dibynnu ar integreiddio gwasanaethau ataliol a gwasanaethau iechyd i'r ymateb i atgyfeiriadau ac i waith achosion sy'n mynd rhagddo. Mae'r adroddiad hwn eisoes yn disgrifio'n helaeth nifer o enghreifftiau o waith partneriaeth, ond dyma rai enghreifftiau eraill:

- Y dull amlasantiaethol o weithio drwy'r Porth Gofal a Phorth y Gymuned
- Datblygiad Cylch Caron a'r gwaith i greu Cyfleuster Gofal Integredig yn Nhregaron, ar y cyd â'r gwasanaethau iechyd a thai
- Datblygiadau Gwasanaeth lechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Aberteifi ac Aberaeron
- Y Ganolfan Gelcio – dull amlddisgyblaethol o fynd i'r afael â chelcio ar y cyd o safbwyt iechyd yr amgylchedd a gofal cymdeithasol
- Y gwaith o ddatblygu model 'Ar Ffiniau Gofal' ar gyfer gwasanaethau plant a theuluoedd

## Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Yn unol ag adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol baratoi

Cynlluniau Ardal sy'n amlinellu ystod a lefel y gwasanaethau a ddarperir yn eu hardal ar sail asesiadau rhanbarthol o'r

boblogaeth. Rhaid paratoi'r cynlluniau hyn bob pum mlynedd, a rhaid cyhoeddi'r cynlluniau cychwynnol erbyn 1 Ebrill 2019.



Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cytuno ar Gynllun Ardal Gorllewin Cymru ar gyfer 2019-23, 'Cyflawni Newid gyda'n Gilydd', ac fe'i cymeradwywyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'n cynnwys cyfres o ymrwymiadau strategol y bydd y Bartneriaeth yn eu rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf i gynorthwyo i drawsnewid ac i integreiddio gofal a chymorth yn y rhanbarth.

Mae'r Cynllun ar gael [yma](#). Mae hefyd ar gael drwy [Borth Data Gorllewin Cymru](#) a ddatblygwyd ar y cyd ag Uned Ddata Cymru. Drwy'r Porth newydd, ceir mynediad at ystod eang o ddata am boblogaeth a gwasanaethau'r rhanbarth. Mae'n sicrhau bod modd inni ddiweddu ein Cynllun yn rheolaidd er mwyn iddo roi sylw i ddatblygiadau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â rhoi adroddiadau am y cynnydd a wnaed i wireddu ymrwymiadau'r Cynllun.

## 6. Cael gafael ar fwy o wybodaeth a dogfennau allweddol

Teitl	Lleoliad
Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru 2018/19	<a href="https://www.wwcp.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/West-Wales-RPB-Annual-Report-2018-19-Final-Cym.pdf">https://www.wwcp.org.uk/wp-content/uploads/2019/06/West-Wales-RPB-Annual-Report-2018-19-Final-Cym.pdf</a>
Adroddiad Blynnyddol yr Uned Gofalwyr	 Carers Unit Annual Report.pdf
Proffil Ieithyddol Ceredigion	<a href="http://www.ceredigion.gov.uk/media/7109/adroddiad-monitro-blynnyddol-safonaur-gymraeg-2019-20.pdf">http://www.ceredigion.gov.uk/media/7109/adroddiad-monitro-blynnyddol-safonaur-gymraeg-2019-20.pdf</a>
Siarter Anableddau Dysgu	<a href="https://www.ldcharter.com/fy-siarter/">https://www.ldcharter.com/fy-siarter/</a>
Cynllun Ardal Gorllewin Cymru 2019-23, 'Cyflawni Newid gyda'n Gilydd'	<a href="https://www.wwcp.org.uk/wp/wp-content/uploads/2019/01/West-Wales-Area-Plan-Welsh-Final-Version-29-03-18.pdf">https://www.wwcp.org.uk/wp/wp-content/uploads/2019/01/West-Wales-Area-Plan-Welsh-Final-Version-29-03-18.pdf</a>
Adroddiad y Cyfarwyddwr 2018-19	

## Additional text – Director of Social Services Annual Report 2019/20

Page 6

The percentage of adult protection enquiries completed within 7 days	Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd cyn pen 7 diwrnod
--	---

Page 7

The rate of delayed transfers of care for social care reasons per 1,000 population aged 75 or over	Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd
The percentage of adults who completed a period of reablement and have a reduced package of care and support 6 months later	Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod adsefydlu a chanddynt becyn gofal a chymorth llai chwe mis yn ddiweddarach
The percentage of adults who completed a period of reablement and have no package of care and support 6 months later	Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod adsefydlu ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach

Page 8

The average length of time (days) adults (aged 65 or over) are supported in residential care homes	Hyd cyfartalog yr amser (dyddiau) y bydd oedolion (65 oed a throsodd) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl
Average age of adults entering residential care homes	Oedran cyfartalog yr oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl
The percentage of adults who have received advice...	Canran yr oedolion sydd wedi cael cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth am chwe mis

Page 10

The percentage of assessments completed for children within statutory timescales	Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau amser statudol
The percentage of children supported to remain living within their family at 31 March	Canran y plant a gynorthwywyd i barhau i fyw gyda'u teuluoedd ar 31 Mawrth
The percentage of looked after children returned home from care during the year	Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn

Page 11

The percentage of re-registrations...	Canran y plant a ailgofrestrwyd ar Gofrestri Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol
The average length of time for all children...	Hyd cyfartalog yr amser yr oedd yr holl blant ar y Cofrestri Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn
The percentage of children seen by a registered dentist...	Canran y plant a welodd ddeintydd cofrestredig cyn pen tri mis ar ôl dechrau derbyn gofal
The percentage of children looked after at 31 March...	Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi'u cofrestru â meddyg teulu cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl eu lleoli

Page 12

Percentage of looked after children who have experienced...	Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnodau pan fônt yn derbyn gofal, ac eithrio am resymau pontio
The percentage of looked after children on 31 March...	Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn

Page 13

The percentage of all care leavers who are in education, training or employment at 12 months after leaving care	Canran yr holl rai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal
The percentage of all care leavers who are in education, training or employment at 24 months after leaving care	Canran yr holl rai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal
The percentage of care leavers who have experienced homelessness...	Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn

Page 21

Social Services Complaints	Cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol
Adults	Oedolion
Children	Plant
Stage 1	Cam 1
Stage 2	Cam 2

Page 22

Stage 1 – Performance	Cam 1 – Perfformiad
Exceeded timescales	Tu hwnt i'r terfynau amser
Within timescales	O fewn y terfynau amser
Stage 2 – Performance	Cam 2 – Perfformiad

## CYD-BWYLLGOR CANOLBARTH CYMRU AR GYFER IECHYD A GOFAL

### ADRODDIAD DIWEDDARU – HYDREF 2021

#### **1. Cyflwyniad**

Cyfarfu Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru mewn modd rhithwir trwy Zoom ar 18 Hydref 2021, a rhoddwyd cyfle i aelodau o'r cyhoedd ymuno â'r cyfarfod 'byw' i arsylwi a gofyn unrhyw gwestiynau/mynegi unrhyw bryderon yn ystod y sesiwn Gwrando Arnoch Chi. Prif ffocws busnes y Cyd-bwyllgor oedd trafod y gwaith parhaus a wnaed mewn perthynas â'r blaenoriaethau a'r cynllun cyflawni ar gyfer 2021-22 a'r cynlluniau adfer sefydliadol Blynnyddol/wedi COVID-19.

#### **2. Blaenoriaethau a Chynllun Cyflawni Canolbarth Cymru 2021-22**

Mae gwaith Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru yn cael ei gydgysylltu gan Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni Canolbarth Cymru, sy'n cael ei arwain gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ei rôl o fod yn Brif Weithredwr Arweiniol Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru. Mae'r grŵp wedi cwrdd ddwywaith yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ar 3 Awst a 28 Medi 2021, a bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ar 6 Rhagfyr 2021. Prif ffocws gwaith y grŵp yw goruchwyliau broses o ddatblygu a gweithredu Blaenoriaethau a Chynllun Cyflawni Canolbarth Cymru 2021-22, a ystyriar ochr yn ochr â chynlluniau sefydliadol unigol, ynghyd ag ystyried unrhyw faterion eraill sy'n dod i'r amlwg ac sy'n gofyn am drafodaeth gydweithredol a dull rhanbarthol o weithredu.

Mae gan Gyd-bwyllgor Canolbarth Cymru Fwriad Strategol cytunedig sy'n cefnogi dull cydlynol o gynllunio a darparu gwasanaethu iechyd a gofal ledled Canolbarth Cymru. Mae'r Bwriad Strategol yn canolbwytio ar gyflawni pum nod trofwaol i gynorthwyo sefydliadau partner i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cyfredol poblogaeth Canolbarth Cymru, yn ogystal â heriau yn y dyfodol. Mae set o feisydd blaenoriaeth penodol i Ganolbarth Cymru a gytunir yn flynyddol yn cefnogi'r nodau hyn, sydd wedi'u nodi'n feisydd a fydd yn darparu gwerth ychwanegol wrth weithio yn ôl troed Canolbarth Cymru, ac sy'n cyd-fynd â Chynlluniau Tymor Canolig Integredig/Cynlluniau Blynnyddol/Cynlluniau Rhanbarthol sefydliadau partner Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru.

Yn amgaeedig yn Atodiad A y mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Flaenoriaethau a Chynllun Cyflawni Canolbarth Cymru 2021-22.

#### **3. Grŵp Cyngori Clinigol Canolbarth Cymru**

Mae Grŵp Cyngori Clinigol Canolbarth Cymru, sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor clinigol a gwneud argymhellion ar sail glinigol, yn cwrdd ddwywaith y mis, ac ar gyfer y cyfnod adrodd hwn mae wedi canolbwytio ar y meysydd gwaith canlynol:

- Cynllun Gweithredu Strategaeth Ysbyty Cyffredinol Bronglais;
- Rhan uchaf llwybr gastroberfeddol Canolbarth Cymru;
- Rhaglen Llesiant Gogledd Powys;
- Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth a'r modd i gydweithredu;
- Y gweithlu, gan gynnwys hyfforddi a datblygu a rolau newydd/ffyrdd newydd o weithio.

Ar gais y Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni, mae'r Grŵp Cyngori Clinigol wedi cynnal trafodaethau cychwynnol ar y ddau/tri llwybr clinigol cytunedig sydd â'r flaenoriaeth uchaf. Nodwyd bod angen canolbwytio ar elfen gofal sylfaenol a chymunedol y llwybr yn ogystal â'r elfen gofal eilaidd. Mae'r llwybrau blaenoriaeth awgrymedig hynny, y gofynnwyd i'r aelodau eu hystyried i'w trafod a'u cytuno'n derfynol yn ei gyfarfod nesaf ar 2 Tachwedd 2021, yn cynnwys:

- Wroleg
- Offthalmoleg
- Niwroleg/arbenigeddau Niwroleg
- Dermatoleg
- Eiddilwch
- Fasgwlaidd
- Gofal Dewisol
- Canolfannau Diagnosteg Gyflym
- Rhagsefydlu
- Atal a sgrinio
- Anadlol
- Iechyd Meddwl
- Gofal Cymdeithasol

## 4. Cynlluniau adfer ar gyfer Canolbarth Cymru

Cyflwynodd y Byrddau Iechyd fersiynau terfynol eu cynlluniau adfer wedi COVID-19 i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mehefin 2021 ac maent bellach yn gweithio ar ddatblygu eu hymateb hirdymor yn rhan o broses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ynghylch y camau nesaf mewn perthynas â bwriadau a strategaethau comisiynu ar gyfer Canolbarth Cymru, ac mae cyfarfod cyntaf cynllunwyr a chomisiynwyr arweiniol y tri Bwrdd Iechyd a Chyb-wyllgor Canolbarth Cymru i'w gynnwl ar 15 Tachwedd 2021. Bydd Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni Canolbarth Cymru yn ystyried allbynnau'r cyfarfod hwn, a datblygiad cynlluniau ar gyfer y dyfodol i gefnogi anghenion poblogaeth Canolbarth Cymru, yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2021.

## 5. Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth yng Nghanolbarth Cymru

Er mis Rhagfyr 2020, mae tri Bwrdd Iechyd Canolbarth Cymru, ynghyd ag Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, wedi bod yn cydweithio i archwilio eu priod ymagweddau at Ofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth, yn ogystal â diffinio'r hyn y mae'n ei olygu i ardaloedd gwledig. Maent hefyd wedi bod yn archwilio'r cyfleoedd a'r manteision cynyddol o gydweithio, ac roedd nifer o ymrwymiadau wedi deillio ohonynt, fel a ganlyn:

- Sefydlu cyd-swydd Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth y penodwyd rhywun iddi, a disgwylir i ddeiliad y swydd ddechrau ym mis Medi 2021. Un o'r darnau cyntaf o waith y bydd yn mynd i'r afael ag ef yw rhedeg rhaglen addysg seiliedig ar achosion i'r tri Bwrdd Iechyd a fydd yn ymwneud â darparu a deall Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth.
- Defnyddio cydweithrediadau academaidd, gan gynnwys swydd athro mewn Economeg Iechyd ym Mhrifysgol Aberystwyth, i ddarparu corff o ymchwil ar beth oedd yr heriau unigryw o ran darparu Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth mewn economi wledig, a'r modd i edrych y tu hwnt i'r heriau hyn.
- Cytundeb i ariannu dau fyfyrwr PhD ym Mhrifysgol Bangor i ddatblygu fframwaith ar gyfer asesu gwerth economaidd Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth.

## 6. Y Gwasanaethau Cymorth sydd ar waith ar gyfer adfer o COVID hir

Mae cryn dipyn o waith yn digwydd ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol i gynorthwyo pobl â syndrom ôl-COVID, sy'n cynnwys cynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol i adnabod y symptomau, cyfeirio pobl i wasanaethau cymorth, a darparu llwybr clir i bobl wrth iddynt fynd trwy'r system gofal iechyd. Un gwasanaeth cymorth allweddol a ddatblygwyd yn genedlaethol yw ap Adfer wedi COVID-19 GIG Cymru, sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhaglen adfer ar-lein yw hon i ddarparu cymorth i gleifion ar ôl COVID-19. Mae'r ap, a ddatblygwyd gan Grŵp Anadlol GIG Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, ar gael i gynorthwyo unigolion ledled Cymru.

Yn lleol, mae gan bob un o dri Bwrdd Iechyd Canolbarth Cymru dudalennau pwrpasol ar eu gwefannau ar gyfer cynorthwyo cleifion wrth iddynt wella o COVID hir, sy'n cynnwys cyfres o ffynonellau gwybodaeth ar gyfer y gwasanaethau cymorth hynny sydd ar gael. Hefyd, mae gan y tri Bwrdd Iechyd wasanaethau sydd naill ai ar waith, neu sy'n agosáu at fod yn barod, ar gyfer cynorthwyo pobl i adfer o COVID hir.

## 7. Cynllun Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer gwasanaethau ambiwlans gwledig

Yn ystod 2019, cynhaliodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru adolygiad galw a chapasiti o ymateb y Gwasanaethau Meddygol Brys i alwadau 999, a hynny ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys. Roedd gan yr adolygiad, a oedd yn canolbwytio ar wella diogelwch cleifion, ffocws penodol ar Ambr, lle mae'r mwyafrif o ddigwyddiadau niweidiol difrifol yn digwydd. Nododd yr adolygiad fod gan yr Ymddiriedolaeth fwch rhwng nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyllidebwyd i lenwi'r amserlenni ymateb, a'r staff cyfwerth ag amser llawn yr oedd yn ofynnol eu cael i lenwi'r amserlenni. Nododd hefyd ystod o arbedion i'r Ymddiriedolaeth, yn benodol ailamserlennu adnoddau ambiwlans ar sail y patrwm galw dyddiol.

Yn ddiweddar, mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi 'gohirio' cam nesaf yr adolygiad o'r amserlen i achub ar y cyfle i adolygu data mwy diweddar ar y system gofal heb ei drefnu, a hynny i lywio'r camau nesaf. Maent hefyd wedi achub ar y cyfle i ystyried adborth gan gyd-weithwyr gweithredol a phartneriaid yn yr Undebau Llafur.

## 8. Iechyd a Gofal Gwledig Cymru

Mae Cynhadledd ddeuddydd Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, 'Pan fydd Heriau'n arwain at Newid – gwelliannau ac arloesedd ym maes Iechyd a Gofal Gwledig', i'w chynnal ar 9 a 10 Tachwedd 2021 ac yn canolbwytio ar y themâu canlynol:

- Effaith a goblygiadau COVID-19 ar Iechyd a Gofal Gwledig;
- Ffurdd newydd o ddarparu gwasanaethau Iechyd a Gofal mewn ardaloedd gwledig;
- Iechyd, Llesiant a Gofal y Boblogaeth Wledig;
- Rôl Cymunedau Gwledig ym maes Iechyd a Gofal;
- Teleiechyd/Telefeddygaeth a darparu gwasanaethau Iechyd a Gofal o bell mewn ardaloedd gwledig;
- Presgripsiynu Cymdeithasol/Gwyrdd;
- Recriwtio, Cadw Staff a Rolau Newydd mewn Ardaloedd Gwledig;
- Addysg, Hyfforddiant a Datblygiad mewn Ardaloedd Gwledig.

Cynhelir y Gynhadledd ar ffurf digwyddiad hybrid a fydd â chynulleidfa lai yn y lleoliad a ffrydio byw y gellir ei gyrchu ar-lein.

Yn dilyn llwyddiant Gweminar cyntaf IGGC a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2021, mae ail Weminar bellach yn yr arfaeth ar gyfer diwedd mis Ionawr 2022. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu rhaglen ar gyfer y sesiwn hon.

Mae adolygiad o Ysbytai Cymunedol ledled Canolbarth Cymru yn tynnu tua'i derfyn, a neilltuwyd rhywfaint o amser i amlinellu'r cefndir i ddatblygiad a darpariaeth Ysbytai Cymunedol. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi cyn hir.

## **9. Gweithgor Craffu ar y Cyd Canolbarth Cymru**

Cyfarfu Gweithgor Craffu ar y Cyd Canolbarth Cymru, y mae ei aelodaeth yn cynnwys aelodau o Bwyllgorau Craffu Cyngorau Ceredigion a Gwynedd, yn y prynhawn ar 18 Hydref 2021 yn dilyn cyfarfod o Gyd-bwyllgor Canolbarth Cymru yn y bore. Roedd yr eitemau i'w trafod yn y cyfarfod fel a ganlyn:

- i) Y Cynllun Adfer mewn ymateb i bandemig COVID-19:
  - Golwg fanwl ar y cynllun adfer a'i flaenoriaethau;
  - Y posiblwrwydd o gyflawni'r cynigion sydd wedi'u cynnwys.
- ii) Gwybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi'r gweithlu yn dilyn pwysau'r pandemig.
- iii) Diweddariad ar y cydweithio rhwng Betsi Cadwaladr, Hywel Dda a Phowys yn y rhanbarth.
- iv) Adolygiad ôl-COVID Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru.

## **10. Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chleifion a'u Cynnwys**

Yn ystod pandemig COVID-19, defnyddiwyd safleoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyd-bwyllgor i barhau i rannu gwybodaeth allweddol â'r cyhoedd, gan drosglwyddo adborth i'r staff perthnasol a gweithredu arno, lle roedd angen.

Wrth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Canolbarth Cymru ymgymryd â'r gwaith o gynnal ymarferion ymgysylltu yn ymwneud â'u hanghenion llesiant, neu baratoi i wneud hynny, cytunwyd y dylid newid y ffocws oddi ar y prosiect peilot gydag aelodau o gyngor Ysgol Penglais i'r gwaith ymgysylltu lleol, sef Asesiad Ceredigion o Lesiant Lleol, a gafodd ei gynnal gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ac a ddaeth i ben ar 8 Hydref 2021.

Mae amserlenni'r ymarferion ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch yr Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer yr ardaloedd hynny yng Nghanolbarth Cymru fel a ganlyn:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion: Daeth yr ymarfer ymgysylltu i ben ar 8 Hydref 2021.
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd ar y Cyd: Disgwylir iddo fynd allan i ymgysylltu ym mis Hydref/Tachwedd 2021. Mae'r amserlen i'w chadarnhau.
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys: Disgwylir iddo fynd allan i ymgysylltu rhwng 1 Tachwedd ac 16 Rhagfyr 2021.

## **11. Adolygiad o Gyd-bwyllgor Canolbarth Cymru**

Mae adolygiad o Gyd-bwyllgor Canolbarth Cymru a'r modd y mae'n gweithredu ar hyn o bryd bellach ar y gweill. Mae hyn yn cynnwys rhaglen o gyfarfodydd ag

aelodau Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru i ofyn am eu hadborth i lywio allbynnau'r adolygiad. Yn dilyn cais gan y Sector Gwirfoddol, cynhelir cyfarfodydd 'nawr hefyd â Chymdeithasau Mudiadau Gwirfoddol Canolbarth Cymru, a hynny ar eu hymgysylltiad a'u cynrychiolaeth yng ngwaith y Cyd-bwyllgor. Cyflwynir adroddiad drafft ar allbynnau'r adolygiad hwn i gyfarfod Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni Canolbarth Cymru ar 6 Rhagfyr 2021 a chyfarfod Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru ar 24 Ionawr 2022.

## Blaenoriaethau a Chynllun Cyflawni Cyd-bwyllgor Canolborth Cymru 2021-22 ym mis Hydref 2021

Y Flaenoriaeth	Amcan(ion) 2021-22	Diweddarriad mis Hydref 2021
Datrysiadau Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer lechyd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu effeithiau ac allbynnau Datrysiadau Cymdeithasol a Gwyrdd ledled y Canolborth.</li> <li>Adolygu ffocws ac amcanion blaenoriaeth y Datrysiadau Cymdeithasol a Gwyrdd.</li> </ul>	<p>Mae gwaith wedi parhau i archwilio'r ddarpariaeth bresennol o ddatrysiadau cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer iechyd ledled y Canolborth, ac mae gwaith parhaus ar ddatblygu fframwaith cenedlaethol dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar fin cael ei gwblhau.</p> <p>Er bod y gwaith archwilio yn mynd rhagddo a bod angen cynnal rhagor o drafodaethau ag Awdurdodau Lleol ledled y Canolborth, byddai'n ddoeth aros am ganlyniad yr ymchwil genedlaethol sy'n ofynnol cyn cwblhau'r adroddiad, gan y bydd angen i'r argymhellion gyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol.</p>
Offthalmoleg	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu darpariaeth a rhestrau aros presennol y gwasanaeth Offthalmoleg ar gyfer y Canolborth er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer llunio dull rhanbarthol i fynd i'r afael â chynlluniau adfer, a hynny gan sicrhau cymorth Gofal Sylfaenol cyson ar gyfer y llwybr Offthalmoleg.</li> <li>Recriwtio i'rôle arweiniol Offthalmoleg Canolborth Cymru er mwyn sicrhau arweinyddiaeth ar gyfer dull gweithredu tîm amlldisgyblaethol ledled y Canolborth.</li> <li>Datblygu atebion arloesol i fynd i'r afael â'r bylchau parhaus yn narpariaeth y gwasanaeth Optometreg ledled ardal De Meirionnydd.</li> </ul>	<p>Oherwydd gwahaniaethau yn setiau data'r Bwrdd lechyd a'r ffaith nad yw adnoddau ar gael ar hyn o bryd, ni fu'n bosibl datblygu set ddata Offthalmoleg gyson i Ganolborth Cymru ar gyfer data'n ymwneud â galw a gweithgarwch. Yn hynny o beth, bydd swydd y Cyd-arweinydd Clinigol ar gyfer gwasanaethau Gofal Llygaid/yr Offthalmolegydd Ymgynghorol ar gyfer Canolborth Cymru yn cael ei ailhysbysebu cyn gynted â phosibl yn swydd ar y cyd rhwng Bwrdd lechyd Addysgu Powys a Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi rhoi gwybod nad ydynt yn gallu ymrwymo i'r swydd ar y cyd nes bod set ddata gyson yn cael ei datblygu a bod gwaith cynllunio galw a chapasiti yn cael ei wneud. Mae'r swydd-ddisgrifiad a'r hysbyseb yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i adlewyrchu'r trefniant rhwng y ddua bartner, ac mae cyfarfod wedi cael ei drefnu ar gyfer 13 Hydref 2021 i gytuno ar y camau sy'n ofynnol er mwyn symud ymlaen i recriwtio ar gyfer y swydd hon.</p> <p>Mae cyfarfod o arweinwyr rheoli a chlinigol Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd lechyd Addysgu Powys ac Ymddiriedolaeth GIG Amwythig a Telford wedi'i drefnu ar gyfer 10 Tachwedd 2021 i drafod y cyfleoedd ar gyfer creu cysylltiadau yn y Gwasanaeth Offthalmoleg rhwng Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Powys ac Ymddiriedolaeth GIG Amwythig a Telford.</p>

Tudalen 274

Y Flauenoriaeth	Amcan(ion) 2021-22	Diweddariad mis Hydref 2021
Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu darpariaeth a rhestrau aros presennol y gwasanaeth deintyddol cymunedol ar gyfer y Canolbarth, a nodi cyfleoedd ar gyfer llunio dull rhanbarthol i fynd i'r afael â chynlluniau adfer.</li> </ul>	<p>Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o statws cyfredol darpariaeth y gwasanaeth deintyddol cymunedol ledled Powys a Cheredigion, a nodwyd cyfleoedd ar gyfer llunio dull rhanbarthol, sy'n cwmpasu 2021-22 a 2022-23, fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Ailddechrau derbyn cleifion llawdriniaeth ar y geg i gael echdyniadau, gan gynnwys Anesthetig Cyffredinol ar gyfer ASA un a dau oedolyn, yn amodol ar dariff cytunedig. Oherwydd ymddeoliad llawfeddyg y geg ymgynghorol Bwrdd lechyd Addysgu Powys, ac oherwydd i'r gwasanaeth yng nghlinig y Drenewydd ddod i ben, mae'n rhaid i holl gleifion Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda (Ceredigion) bellach deithio i Abertawe i gael gwasanaeth llawdriniaeth ar y geg canolradd ar gyfer echdyniadau cymhleth. Penodwyd rhywun i swydd wag llawfeddyg y geg ymgynghorol Bwrdd lechyd Addysgu Powys, ac mae disgwyl iddo ddechrau ar y gwaith ym mis Hydref 2021.</li> <li>Asesu'r gwasanaeth endontig i gloriannu dichonoldeb creu gwasanaeth integredig ar gyfer y gwasanaethau endontig. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i Fwrdd lechyd Addysgu Powys ddal i fyny â'r ôl-groniad cyfredol o gleifion (12 mis ar gyfer triniaeth ar y foment). (Mehefin 2022)</li> <li>Asesu dichonoldeb creu gwasanaeth integredig ar gyfer rhestr Anesthetig Cyffredinol ar y cyd yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais (yn cynnwys staff Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol), gan ddefnyddio cyfleusterau presennol nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn. (Medi 2022)</li> </ol> <p>Disgwylir i Fwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda gynnal ymarfer tendro ar gyfer gwasanaethau mân lawdriniaethau yn y geg. Mae Cyfarwyddwr Rhaglenni Cyd-bwylgor Canolbarth Cymru wedi cwrdd ag Arweinydd Deintyddol Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyfarwyddwr Deintyddol Bwrdd lechyd Addysgu Powys i nodi opsiynau ar gyfer sicrhau bod gan gleifion o Geredigion fynediad at y gwasanaeth hwn yn nes at eu cartref.</p> <p>Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2021, cafodd y Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni adroddiad yn darparu crynodeb o'r sefyllfa bresennol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol y GIG ledled y Canolbarth. Cytunwyd y dylid</p>

Y Flaenoriaeth	Amcan(ion) 2021-22	Diweddariad mis Hydref 2021
		gofyn i Grŵp Deintyddol Canolbarth Cymru, a sefydlwyd i fwrw ymlaen â blaenoriaeth y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, ehangu cwmpas ei waith i gynnwys gwasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG er mwyn nodi'r gwelliannau y gellid eu gwneud wrth ddarparu gwasanaethau ledled y Canolbarth.
Gwasanaethau Allgymorth Cancer a Chemotherapi	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu data gwaelodlin cyfredol yn ymwneud â rhestrau aros er mwyn:             <ul style="list-style-type: none"> <li>a) Datblygu atebion i faterion cyfredol a nodi cyfleoedd ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth ar draws safleoedd cymunedol y Canolbarth gyda'i gilydd</li> <li>b) Datblygu cynllun er mwyn llunio dull ar gyfer Canolbarth Cymru i ddarparu gwasanaethau cemotherapi yn y gymuned.</li> </ul> </li> </ul>	<p>Y meysydd hynny y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan Grŵp Cancer Canolbarth Cymru yw'r rheiny y bydd ffocws arnynt 'hawr, a hynny mewn dull fesul cam yn y drefn ganlynol i) Gastroberfeddol Uchaf ii) Cemotherapi yn y gymuned a iii) Wroleg. Mae Grŵp Cyngori Clinigol Canolbarth Cymru wedi cytuno y dylid symud llwybr Gastroberfeddol Uchaf Canolbarth Cymru yn ei flaen fel mater o flaenoriaeth, ac y dylai'r grŵp i gytuno ar y camau nesaf i'w hargymhell yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd 2021.</p> <p>Cytunodd Bwrdd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2021 i newid lleoliad yr Uned Ddydd Cemotherapi i Uned Ddydd Leri yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais ac i ddatblygu apêl i godi arian ar gyfer Uned Ddydd Cemotherapi newydd. Disgwylir y bydd amserlen y cynllun oddeutu 35 mis o hyd (18 mis o gynllunio ac 17 mis o adeiladu). Y dyddiad arfaethedig i 'fynd yn fyw' yw Mehefin 2024.</p>
Digidol (Gan gynnwys System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) a Telefeddygaeth)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu cynllun y cytunwyd arno'n glinigol ar gyfer datblygiadau digidol sydd i'w rhoi ar waith ledled y Canolbarth yn y dyfodol.</li> <li>• Sefydlu grŵp comisiynu strategol rhanbarthol ar gyfer y Canolbarth.</li> </ul>	<p>Mae adolygiad eisoes wedi'i gynnal i'r llwyfannau digidol a gyflwynwyd ar gyfer y llwybrau clinigol hynny ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ers dechrau'r pandemig. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnwys y datblygiadau hynny a gyflwynwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, fel ei gilydd. Defnyddir yr adolygiad hwn i lywio'r gwaith o ddatblygu cynllun y cytunwyd arno'n glinigol ar gyfer datblygiadau digidol yn y Canolbarth.</p> <p>Dewiswyd Ceredigion yn safle treialu ar gyfer Digidol, ac mae'r cynllun gweithredu ar gyfer Strategaeth Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn cynnwys datblygu Strategaeth Ddigidol yr ysbyty. Defnyddir hwn i gefnogi a llywio Cynllun Digidol Canolbarth Cymru.</p>

Y Flaenoriaeth	Amcan(ion) 2021-22	Diweddariad mis Hydref 2021
Anadol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu Cynllun Anadol Canolbarth Cymru gan amlinellu'r model gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau Anadol ledled y Canolbarth sy'n canolbwytio ar ddarparu gofal yn nes at y cartref, a sefydlu llwybr rhwydweithiol ar draws y gwasanaethau eilaidd a thrydyddol.</li> </ul>	<p>Yn ystod 2021-22, arweiniwyd y flaenoriaeth hon trwy Raglen <i>Breathe Well</i> Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'r flaenoriaeth hon wedi cael ei neilltuo i arweinydd newydd a fydd yn cydgysylltu grŵp bach er mwyn sefydlu cysylltiadau rhwng rhaglen <i>Breathe Well</i> Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a gwaith a chynlluniau anadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a hynny i lywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Anadol ar gyfer Canolbarth Cymru.</p>
Adsefydlu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu cynllun Gwasanaeth Adsefydlu ar gyfer Canolbarth Cymru i ddarparu gwasanaethau adsefydlu i gleifion mewnol, cleifion allanol a chleifion yn y gymuned, ac ystyried y posiblwydd o ddatblygu dull gweithredu tîm amlddisgyblaethol ledled y Canolbarth.</li> </ul>	<p>Y cynllun o ran cyflawni'r flaenoriaeth hon ar gyfer 2021-22 yw canolbwytio ar y camau gweithredu canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ymarfer mapio o'r gwasanaethau adsefydlu ledled y Canolbarth, gan gynnwys modelu gwasanaethau, y ddarpariaeth a'r gweithlu, er mwyn nodi cyfleoedd posibl ar gyfer y Canolbarth.</li> <li>Cynnal gweithdy clinigol yn ystod yr hydref 2021 i adolygu'r ymarfer mapio a nodi'r bylchau a'r cyfleoedd ar gyfer darpariaeth adsefydlu ledled y Canolbarth.</li> </ul>
Wroleg	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu a chytuno ar fodel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau Wroleg yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, ynghyd â gwasanaethau allgymorth ledled y Canolbarth.</li> <li>Rhoi'r model gwasanaeth Wroleg ar waith:             <ol style="list-style-type: none"> <li>Cam 1 – Ailgychwyn gwasanaethau wroleg yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais.</li> <li>Cam 2 – Sefydlu gwasanaethau allgymorth ar draws y Canolfannau Gofal yn y Canolbarth.</li> </ol> </li> </ul>	<p>Mae gwasanaethau wroleg ar gyfer achosion dydd (bob yn ail wythnos) a chleifion allanol wedi ailgychwyn yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Aberystwyth. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb Wroleg ym Mynyng horol Locwm ar safle'r ysbyty am dridiau'r wythnos, gyda chymorth yn cael ei ddarparu gan dîm y Grŵp Rheoli Llawfeddygaeth Gyffredinol.</p> <p>Mae Arweinydd Clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ym maes Wroleg yn gweithio ar lwybrau ar gyfer gofal dewisol a gofal brys, a fydd yn cael eu rhannu â'r timau meddygol ehangach.</p> <p>Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi cael eu cynnal â thîm Gogledd Powys ynghylch cyflwyno treial heb gathetr i'r ardal.</p>
Atebion yn ymwneud â Gweithlu Trawsffiniol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu atebion i sefydlu trefniadau ar gyfer gweithlu trawsffiniol ledled y</li> </ul>	<p>Bydd y cynllun o ran cyflawni amcanion y flaenoriaeth hon ar gyfer 2021-22 yn canolbwytio ar y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllun y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol;</li> </ul>

Y Flaenoriaeth	Amcan(ion) 2021-22	Diweddariad mis Hydref 2021
(yn cynnwys cynllun Gweithlu'r Canolfannau Gofal Integredig ar gyfer y Canolbarth)	<p>Canolbarth, gan gynnwys rhaglenni ymsefydlu a hyfforddiant ar y cyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu cefnogaeth barhaus i'r cynllun i sefydlu canolfan hyfforddi nyrssy yn Aberystwyth a fydd, os yw'n llwyddiannus, yn cynnwys lleoli myfyrwyr mewn ystod o lleoliadau cymunedol gwledig ledled y Canolbarth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfleoedd hyfforddi ar y cyd;</li> <li>Rhaglenni ymsefydlu ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol;</li> <li>Rhaglen brentisiaethau ac argaeledd cyllid ar gyfer ardaloedd gwledig;</li> <li>Cefnogaeth i Ysgol Nyrssio Prifysgol Aberystwyth ac i leoli myfyrwyr mewn lleoliadau gwledig, sydd i gynnwys lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, fel ei gilydd.</li> </ul> <p>Law yn llaw â hyn, bydd cyfarfod clwstwr De Gwynedd, Gogledd Ceredigion a Gogledd Powys ar y cyd yn dechrau trafod cyfleoedd portffolio a chyfleoedd cylchdroi i feddygon teulu o fewn gofal sylfaenol, a hynny ar 22 Tachwedd 2021.</p> <p>Ddiwedd mis Mehefin 2021, cafwyd cadarnhad bod Addysg a Gwella lechyd Cymru wedi dyfarnu contract i Brifysgol Aberystwyth i ddarparu cyrsiau addysg i nyrssy oedolion a nyrssy iechyd meddwl. Bydd y myfyrwyr nyrssio cyntaf yn cyrraedd Prifysgol Aberystwyth i astudio ym mis Medi 2022, a bydd hyn yn cynnwys lleoliadau gyda darparwyr iechyd a gofal ledled y Canolbarth.</p>
Strategaeth Glinigol ar gyfer Gofal a Thriniaeth mewn Ysbyty (gan gynnwys Llwybr Llawfeddygol y Colon a'r Rhefr)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu'r cynllun gweithredu i gynorthwyo i gyflawni strategaeth Ysbyty Cyffredinol Bronglais.</li> <li>Yn unol â'r cynllun cyflawni ar gyfer gweithredu strategaeth glinigol Ysbyty Cyffredinol Bronglais 'Ysbyty Cyffredinol Bronglais: Darparu Gofal Acíwt Gwledig Rhagorol', rhoi'r hyn y gellir ei gyflawni ym mlwyddyn 1 ar waith, ar hynny ar y cyd â datblygu atebion rhanbarthol a thrawsffiniol.</li> </ul>	<p>Mae fersiwn ddrafft Cynllun Gweithredu Strategaeth Ysbyty Cyffredinol Bronglais ar gyfer 2021-24 wedi cael ei datblygu, ac mae'n cwmpasu'r meysydd gwasanaeth canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwasanaethau Gofal wedi'i Drefnu, sydd â chynllun pedwar cyfnod i ddychwelyd i dempled y sesiwn cyn 2016 er mwyn cynorthwyo'r broses o adfer wedi COVID ac yna i ehangu'r gwasanaeth;</li> <li>Gwasanaethau Therapi, y Labordy, y Fferyllfa, a Gwasanaethau Pediatrig a Radioleg</li> <li>Y defnydd gorau posibl o ystadau Ysbyty Cyffredinol Bronglais;</li> <li>Y Tîm Eiddilwch Acíwt;</li> <li>Gofal Brys ar yr Un Diwrnod;</li> <li>Strategaeth ddigidol ar gyfer Bronglais, a Cheredigion wedi'i dewis yn sir beilot Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer gwell technoleg.</li> </ul>

Y Flaenoriaeth	Amcan(ion) 2021-22	Diweddariad mis Hydref 2021
		<p>Mae Grŵp Llywio Gweithredu Strategaeth Ysbyty Cyffredinol Bronglais, a fydd yn arwain y gwaith o ddatblygu'r strategaeth a'i rhoi ar waith, wedi cael ei sefydlu, ac mae bellach wedi cwrdd ddwywaith. Bydd cynrychiolaeth ar y Grŵp Llywio yn cael ei ehangu i gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.</p> <p>Mae Bwrdd Ymgynghorol Ysbyty Cyffredinol Bronglais ar gyfer Canolbarth Cymru, sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd sy'n arbenigwr ym maes iechyd ac a fydd yn bwydo i mewn i Grŵp Llywio Gweithredu'r Strategaeth, wrthi'n cael ei sefydlu.</p> <p>Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch y cynnig i sefydlu is-grŵp i drafod bwriadau a strategaethau comisiynu ar gyfer Canolbarth Cymru.</p> <p>Adroddir ar y cynnydd o ran rhoi Cynllun Gweithredu'r Strategaeth ar waith ar ffurf eitem agenda sefydlog i adborth a mewnbwn clinigol Grŵp Cynghori Clinigol Canolbarth Cymru. Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod Grŵp Gweithredol Cynllunio a Chyflawni Canolbarth Cymru ar 28 Medi 2021 ac i gyfarfod Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru ar 18 Hydref 2021 a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gweithredu Strategaeth 2021-24.</p>

## MID WALES JOINT COMMITTEE FOR HEALTH AND CARE

## Listening to You – Questions received in advance and responses provided

REF	QUESTION	RESPONSE
1021(01)	<p><b>Cllr. Alun Lloyd Jones, Ceredigion County Council</b>            Is Generic price-fixing still causing concern to Hywel Dda Health Board?</p>	<p>Jill Paterson, Director of Primary Care, Community and Long-Term Care, Hywel Dda University Health Board and Jenny Pugh-Jones, Head of Medicines Management, Hywel Dda University Health Board            Thank you for your questions in relation to medicines availability within Hywel Dda University Health Board.</p>
1021(02)	<p><b>Cllr. Alun Lloyd Jones, Ceredigion County Council</b>            Does “Parallel importation” exist now that Brexit has happened, and if so, is it of concern to Hywel Dda?</p>	<p>Medicines shortages occur from time to time and there is no evidence that medicines shortages have become more of a concern following EU exit, this includes parallel imports. Well established contingency measures are in place at a UK level to mitigate the risk of shortages and these are kept under constant review.</p> <p>Locally, where shortages are identified Community Pharmacy, supported by the Health Board Medicines Management team, are in communication with prescribers to consider alternative options as appropriate on an individual patient basis.</p> <p>We currently have no concerns with generic price fixing. Where this has been identified it is taken forward at a UK level.</p>

REF	QUESTION	RESPONSE
1021(03)	<p><b>Cllr. Alun Lloyd Jones, Ceredigion County Council</b>  <b>Supplementary question to 1021(01) and 1021(02)</b></p> <p>Many of my residents tell me that if they are lucky enough to receive a prescription from their GP's, (unable to access GP's), more often than not the chemist is unable to supply. I receive many, many, such complaints and comments on a weekly basis. Can you advise what Hywel Dda UHB are doing to address these issues?</p>	<p><b>PREScription ELEMENT OF QUESTION</b></p> <p>Jill Paterson, Director of Primary Care, Community and Long-Term Care, Hywel Dda University Health Board and Jenny Pugh-Jones, Head of Medicines Management, Hywel Dda University Health Board</p> <p>Reference made to a response provided to a similar question in advance in May 2021 as follows:</p> <p>Over the past 3 to 4 years there have been growing challenges for community pharmacies in securing medicines to fulfil prescription for our patients. There is no single reason for this but a number of things that impact on the supply chain. Pharmacies make every effort to source medicines from a range of suppliers, often spending many hours ringing and chasing companies to secure supplies. The supply market for medicines is extremely complex and as a global market is influenced by events that may occur across the world. I have tried to summarise some of the factors:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) Companies often choose to limit the amount of supply to a pharmacy based on its average monthly usage. This causes problems where a pharmacy may have additional use one month, causing the need to provide an 'owing ticket' requiring the patient to call back again for the remainder of their prescription. While this is constantly flagged as an issue at UK national level, companies are at liberty to determine how much of their stock is directed to which country.</li> <li>b) Generic products and many of the branded products, are made in a number of countries but often by a small number of manufacturers. Where a manufacturer receives an inspection and is required to make immediate improvements, this may result in a number of products no longer being available for several months. This happens on a relatively frequent basis and causes significant supply problems across the world. One unit may make the same products for a range of companies.</li> <li>c) It is difficult to ascertain if any of the current shortages and delays are associated with Brexit as these are not new issues. I am not aware that this has worsened over the past few months, although undoubtedly there will be some drugs that are</li> </ul>

REF	QUESTION	RESPONSE
		<p>impacted by changes to import regulations but generally I understand these paths are clear due to the critical nature of medicines.</p> <p>I cannot give any indication when this will improve but can give assurance that pharmacies are doing everything, they can to maintain supply for patients. Often, they will contact GPs to suggest/agree a similar alternative to the medicine on the prescription. They frequently 'borrow' from each other to meet demands, including for unusual or urgent requests from the hospital pharmacies as well.</p> <p>Also, in addition to the response provided previously if the questioner is willing to share further details such as which medicine and when did this/is this occurring then the Head of Medicines Management would be happy to ask one of their team to look into it further with the local pharmacies and GP practices as appropriate.</p> <p><b>GP ACCESS ELEMENT OF QUESTION</b></p> <p><b>Dr Sion James, Deputy Medical Director, Primary and Community Care Services</b></p> <p>Reference made to a response provided to a similar question in advance in May 2021 as the situation is still the same:</p> <p>Most GP practices are still operating a triage model for Primary Care appointments where patients access services via telephone or email in the first instance. Practices have to balance the difficulties of social distancing in order to keep patients safe with the need to ensure face to face appointments where needed. A clinician will therefore agree with the patient on the most appropriate outcome for them following telephone triage. This may be a remote consultation, signposting to another service or a face to face appointment with a clinician. If a patient feels they have difficulty in accessing services at their practice, then we would encourage them to contact the Hywel Dda University Health Board Concerns team on 0300 0200 159.</p> <p>Patients should expect that access models will change to make more use of digital and remote consultations as part of the future model but that those patients that need to be seen face to face will be.</p>

REF	QUESTION	RESPONSE
1021(04)	<p><b>Cllr. Bryan Davies, Ceredigion County Council</b></p> <p>There has been a lot of attention recently about the ambulance service in Ceredigion being reduced from 6 to 4 ambulances as well as a reduction in RRV (Rapid Response Vehicles) vehicles. This will put additional pressure on the other vehicles within the county and also affect neighbouring counties such as Carmarthenshire, Pembrokeshire and Powys. But the biggest concern is that the life and well-being of the people of Ceredigion is at risk if this vital service is not up to standard that it was in the past. Of course, there is room for improvement with all services, but it is rural places like Ceredigion that are most affected when potential service cuts occur. So, I'd like a reply to this comment, i.e. is there an ambulance service cut in Ceredigion and if so, for what reasons? Thank you for this opportunity and hope that a favourable response will be in the interest of the residents of Ceredigion.</p> <p><b>Note: Question received and responded to in Welsh</b></p>	<p><b>Estelle Hitchon, Director of Partnerships and Engagement, Welsh Ambulance Services NHS Trust</b></p> <p><b>Note:</b> This internal briefing is to be accompanied by a presentation to be provided by Jason Killens to the Mid Wales Joint Committee meeting on 18<sup>th</sup> October 2021.</p> <p><b><i>Internal Briefing provided to Welsh Ambulance Services NHS Trust staff Emergency Medical Services (EMS) Roster Review – Hywel Dda</i></b></p> <p>As many of you will know, we have recently “paused” the next stage of the roster review to take the opportunity to review more recent data on the unscheduled care system to inform next steps. We have also taken the opportunity to consider feedback from operational colleagues and Trade Union partners. The roster review project is focused on improving patient safety, with a particular focus on Amber, where the bulk of our serious adverse incidents occur. The review is part of a package of investment and efficiencies that will see an initial increase of +32.5 full time equivalents (FTEs) in the Hywel Dda area over the period April 2020 to March 2022. The increase in FTEs in Hywel Dda forms part of a national project to close the relief gap, the difference between our budgeted establishment and the FTEs required for our rosters across Wales, with a total investment of +263 FTEs. The re-rostering and closing of the relief gap is about re-basing, but we know further investment and efficiencies will be required in order to effectively meet future patient demand. Following a review of the data, and subsequent discussions with the Chief Ambulance Services Commissioner, we have agreed that we will not reduce the ambulance cover currently offered by today’s rosters, although the configuration may change. We are still considering further data on the unscheduled care system, but we expect workshops to recommence shortly. We will let you know the outcome of this fresh work as and when it is available. National Trade Union leads are on both the EMS Roster Review Project Board and the 2021 EMS Demand &amp; Capacity Review Steering Group. If you have any questions, you can email them to: AMB_RosterReview@wales.nhs.uk or, alternatively, you can speak to your manager or Trade Union representative.</p>

**CYD-BWYLLGOR CANOLBARTH CYMRU**

**Ymateb i gwestiwn a dderbyniwyd ymlaen llaw gan y Cyngorydd Bryan Davies ar 5ed Hydref 2021 ynglyn a gwasanaethau ambiwlans yng Ngheredigion**

**Cwestiwn**

Mae llawer o sylw wedi bod yn ddiweddar am y gwasanaeth ambiwlans yng Ngheredigion yn cael ei leihau o 6 i 4 ambiwlans yn ogystal a lleihad yn y cerbydau RRV (Rapid Response Vehicles). Fydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol i'r cerbydau arall o fewn y sir ac hefyd yn effeithio siroedd gyfagos fel Sir Gar, Sir Benfro a Phowys. Ond y pryder fwyaf yw fod bywyd a lles trigolion Ceredigion mewn risg os na fydd y gwasanaeth hanfodol yma o'r un safon ag y fuodd yn y gorffennol.

Wrth reswm, mae 'na le i wella gyda phob gwasanaeth ond llefudd gwledig fel Ceredigion sy'n cael eu heffeithio fwyaf pan fo toriadau bosib yn digwydd i unrhyw wasanaeth. Felly, hoffwn gael ateb i'r sylw yma, h.y. a oes yna torri ar y gwasanaeth ambiwlans yng Ngheredigion ac os oes, am ba resymau?

Diolch am y cyfle yma gan obeithio daw ymateb ffafriol er lles trigolion Ceredigion.

**Ymateb**

***Neges fewnol wedi'i darparu i staff Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru***

**Adolygiad o Restrau Dyletswyddau Gwasanaethau Meddygol Brys – Hywel Dda**

Fel y bydd llawer ohonoch yn gwybod, rydym wedi "oedi" yn ddiweddar cyn dechrau cam nesaf yr adolygiad o'r rhestrau dyletswyddau, er mwyn achub ar y cyfle i adolygu data mwy diweddar ynghylch y system gofal heb ei drefnu, a fydd yn llywio'r camau nesaf. Rydym hefyd wedi achub ar y cyfle i ystyried adborth gan gydweithwyr gweithredol a phartneriaid mewn undebau llafur.

Nod prosiect yr adolygiad o restrau dyletswyddau yw gwella diogelwch cleifion, gan ganolbwytio'n benodol ar y categori Ambr lle mae'r rhan fwyaf o'n digwyddiadau niweidiol difrifol yn digwydd. Mae'r adolygiad yn rhan o becyn buddsoddi a gwneud arbedion effeithlonrwydd, a fydd yn arwain at gynnydd cychwynnol o +32.5 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn ardal Hywel Dda yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2022.

Mae'r cynnydd yn nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn yn ardal Hywel Dda yn rhan o brosiect cenedlaethol i gau'r bwlcw cyflenwi, sef y gwahaniaeth rhwng nifer y swyddi y cyllidebwyd ar eu cyfer a nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn sy'n ofynnol ar gyfer ein rhestrau dyletswyddau ar draws Cymru, a bydd cyfanswm y buddsoddiad yn cyfateb i +263 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Mae a wnelo'r gwaith o aildrefnu rhestrau dyletswyddau a chau'r bwlcw cyflenwi ag ail-leoli, ond rydym yn gwybod y bydd angen mwy o fuddsoddi ac arbedion effeithlonrwydd er mwyn ateb yn effeithiol y galw gan gleifion yn y dyfodol.

Ar ôl adolygu'r data, ac yn dilyn trafodaethau wedyn â'r Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans, rydym wedi cytuno na fyddwn yn lleihau'r gwasanaeth ambiwlans a gynigir ar hyn o bryd gan restrau dyletswyddau heddiw, er y bydd y modd y caiff y gwasanaeth ei gyflunio efallai'n newid.

Rydym yn dal i ystyried data pellach ynghylch y system gofal heb ei drefnu, ond rydym yn disgwyl y bydd y gweithdai'n aildechrau yn fuan. Byddwn yn rhannu canlyniad y gwaith newydd hwn â chi pan fydd ar gael.

Mae arweinwyr cenedlaethol undebau llafur yn aelodau o Fwrdd Prosiect yr Adolygiad o Restrau Dyletswyddau Gwasanaethau Meddygol Brys ac o Grŵp Llywio'r Adolygiad o Alw ar Wasanaethau Meddygol Brys a'u Capasiti 2021. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch eu hanfon drwy ebost i:  
[AMB\\_RosterReview@wales.nhs.uk](mailto:AMB_RosterReview@wales.nhs.uk) neu, fel arall, gallwch siarad â'ch rheolwr neu'ch cynrychiolydd undeb llafur.

**MID WALES JOINT COMMITTEE****Response to a question received in advance by Cllr Bryan Davies on 5th October 2021 regarding ambulance services in Ceredigion****Question**

There has been a lot of attention recently about the ambulance service in Ceredigion being reduced from 6 to 4 ambulances as well as a reduction in RRV (Rapid Response Vehicles) vehicles. This will put additional pressure on the other vehicles within the county and also affect neighbouring counties such as Carmarthenshire, Pembrokeshire and Powys. But the biggest concern is that the life and well-being of the people of Ceredigion is at risk if this vital service is not up to standard that it was in the past. Of course, there is room for improvement with all services, but it is rural places like Ceredigion that are most affected when potential service cuts occur. So, I'd like a reply to this comment, i.e. is there an ambulance service cut in Ceredigion and if so, for what reasons? Thank you for this opportunity and hope that a favourable response will be in the interest of the residents of Ceredigion.

**Response*****Internal Briefing provided to Welsh Ambulance Services NHS Trust staff Emergency Medical Services (EMS) Roster Review – Hywel Dda***

As many of you will know, we have recently “paused” the next stage of the roster review to take the opportunity to review more recent data on the unscheduled care system to inform next steps. We have also taken the opportunity to consider feedback from operational colleagues and Trade Union partners.

The roster review project is focused on improving patient safety, with a particular focus on Amber, where the bulk of our serious adverse incidents occur. The review is part of a package of investment and efficiencies that will see an initial increase of +32.5 full time equivalents (FTEs) in the Hywel Dda area over the period April 2020 to March 2022.

The increase in FTEs in Hywel Dda forms part of a national project to close the relief gap, the difference between our budgeted establishment and the FTEs required for our rosters across Wales, with a total investment of +263 FTEs. The re-rostering and closing of the relief gap is about re-basing, but we know further investment and efficiencies will be required in order to effectively meet future patient demand.

Following a review of the data, and subsequent discussions with the Chief Ambulance Services Commissioner, we have agreed that we will not reduce the ambulance cover currently offered by today's rosters, although the configuration may change.

We are still considering further data on the unscheduled care system, but we expect workshops to recommence shortly. We will let you know the outcome of this fresh work as and when it is available.

National Trade Union leads are on both the EMS Roster Review Project Board and the 2021 EMS Demand & Capacity Review Steering Group. If you have any

questions, you can email them to: [AMB\\_RosterReview@wales.nhs.uk](mailto:AMB_RosterReview@wales.nhs.uk) or,  
alternatively, you can speak to your manager or Trade Union representative.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach

**DYDDIAD:** 16 Ragfyr 2021

**LLEOLIAD:** Siambr y Cyngor, Penmorfa

**TEITL:** Blaenraglen Waith Ddrafft 2021/2022

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor

**Y RHESWM PAM FOD**

**CRAFFU WEDI GOFYN AM** Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwyllo gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy diliys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisiau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisiau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisiau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymhell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisiau a gwasanaethau sy'n canolbwytio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisiau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu

- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisiau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

## Y SEFYLLFA BRESENNOL:

### Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

### Dewis pynciau

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

## ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):

Adolygu a diweddarwr Blaenraglen Waith bresennol.

Enw Cyswllt:	Dwynwen Jones
Dynodiad:	Swyddog Trosolwg a Chraffu
Dyddiad yr Adroddiad:	1 Rhagfyr 2021
Acronymau:	BW- Blaenraglen Waith FWP- Forward Work Programme

# Tudalen 291

Pwyllgor	Eitem(disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
Cymunedau Iachach			
24 Mehefin	<p>Y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO)</p> <p>Diweddarriad oddiwrth Cadeirydd y Pwyllgor yn dilyn cyfarfod Mai 2021 Cyd-bwyllgor lechyd a Gofal y Canolbarth</p>	Sian Howys	Monitro
17 Medi Arbennig Gwahoddiad I Aelodau Cymunedau sy'n Dysgu 2pm	<p>Y Strategaeth Gydol Oes a Lles</p> <p>Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021: Cyngor Sir Ceredigion</p>	Caroline Lewis  Sian Howys	
22 Medi arbennig	<p>Tipio Anghyfreithlon – esbonio'r weithdrefn</p> <p>Rheoli Plâu</p> <p>Gwasanaethau Canolfannau Lles a'r datblygiadau yng Nghanolfan Lles Llambed</p> <p>Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021</p>	Heddwyn Evans  Anne Louise  Elen James a Carwyn Young  Heddwyn Evans	Ar gais  Ar gais  Cais gan y swyddog  Cyn-Cabinet
6 Hydref	Pryder – rhaid dod o hyd i fwy o ofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg fod yn flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion. Tynnodd aelodau o'r cymunedau iachach sylw at y ffaith bod	Donna Pritchard Nerys Lewis	Cais mewn cyfarfod pan yn trafod adroddiad yr IRO

# Tudalen 292

	<p>plant Cymraeg eu hiaith yn cael eu rhoi gyda theuluoedd Saesneg eu hiaith. Dywedodd Aelod ei fod yn broblem hirsefydlog a bod y plant hyn mewn amgylchiadau rhyfedd iawn yn gorfol newid iaith.</p> <p>Pecynnau Gofal gan gynnwys Dementia</p> <p>Effaith defnydd cyffuriau yn y Sir</p> <p>Adroddiad Swyddog Adolygu Annibynnol cwarter 4 2021</p>	<p>Donna Pritchard a Heather West John Callow Sian Howys</p>	<p>Ar gais Ar gais Monitro</p>
20 Hydref arbennig	<p>Safonau Masnach (scamiau)</p> <p>Adroddiad Blynnyddol Gofalwyr</p>	<p>Anne Louise Lowri Evans</p>	<p>Ar gais Cyn-Cabinet</p>
16 Rhagfyr	<p>Polisi Grantiau a Benthyciadau</p> <p>Lles Anifeiliaid</p> <p>Polisi tynnu Ceoffyl a Chart</p> <p>IRO cwarter 1</p> <p>Adroddiad Blynnyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol</p> <p>CYD-BWYLLGOR CANOLBARTH CYMRU AR GYFER IECHYD A GOFAL ADRODDIAD DIWEDDARU – HYDREF 2021</p>	<p>Llyr Hughes Heddwyn Evans Anne-Louise Davies Sian Howys Donna Pritchard</p>	<p>Cyn-Cabinet Ar gais Cyn-Cabinet Monitro Monitro</p>
<b>2022</b> 24 Chwefror Paratoi'r Gyllideb 9:30am			
16 Mawrth	Diweddariad ar Rheoli Plau	Anne-Louise	

# Tudalen 293

Eitemau i'r dyfodol			
------------------------	--	--	--

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda  
ddydd Mercher, 06 Hydref 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Bryan Davies (Cadeirydd) Gethin Davies, Marc Davies, Elaine Evans, Hag Harris, Alun Lloyd-Jones, Lyndon Lloyd MBE, Dan Potter, John Roberts ac Ivor Williams.

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant, ac Alun Williams

**Swyddogion yn bresennol:** Mrs Nerys Lewis, Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Uniongyrchol; Mrs Donna Pritchard – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal; Ms Sian Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal - Gwasanaethau Plant; Mrs Heather West – Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Tymor Byr wedi'u Targedu; Mr John Callow, Rheolwr Corfforaethol – Camddefnyddio Sylweddau; Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

(10:00 am -12:45pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Paul Hinge a Lynford Thomas am na fedrent ddod i'r cyfarfod

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswilt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim.

**3 Diweddariad ar recriwtio Gofalwyr Maeth yng Ngheredigion sy'n Siaradwyr Cymraeg**

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal a oedd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â Gofalwyr Maeth yng Ngheredigion sy'n siaradwyr Cymraeg. Aelodau'r Pwyllgor oedd wedi gofyn am y diweddariad.

Dywedwyd bod y Gwasanaeth Maethu yng Ngheredigion yn darparu lleoliadau hirdymor a thymor byr ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion. Ystod oedran y gwasanaeth oedd plant o'u geni hyd at 18 mlwydd oed. Ar hyn o bryd, roedd gan Gyngor Sir Ceredigion 31 o Deuluoedd Maeth cofrestredig.

Roedd gan y Sir hefyd 16 o ofalwyr sy'n berthnasau (a oedd hefyd yn cael eu hadnabod fel teulu a ffrindiau) ac roeddent wedi symud ymlaen drwy'r un prosesau â'r Gofalwyr Maeth prif ffrwd. Roeddent wedi'u cofrestru i roi gofal a chefnogaeth i blentyn/plant sy'n derbyn gofal penodol, fel yr amlinellir yn eu cofrestriad unigol. Lleolir y gofalwyr hyn ledled y Deyrnas Unedig.

Ar hyn o bryd, roedd llai na 5 o blant mewn lleoliadau maethu prif ffrwd/maethu gan berthnasau yng Ngheredigion a oedd wedi nodi mai'r Gymraeg oedd yr iaith a ffefrir ganddynt. Fodd bynnag, roedd yna blant a oedd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac roedd y gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant.

Rhannwyd y tabl isod a oedd yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â gallu gofalwyr maeth o ran y Gymraeg;

Lefel ALTE	Gwrando a siarad Cymraeg (nifer y gofalwyr)	Darllen Cymraeg (nifer y gofalwyr)	Ysgrifennu Cymraeg (nifer y gofalwyr)
0	6	11	14
1	9	9	5
2	5	1	2
3	2	0	1
4	0	1	0
5	1	1	1

O ran meysydd gwasanaeth yr oedd angen eu datblygu ymhellach, nodwyd y canlynol:-

- Recriwtio - Elfen allweddol ar gyfer y gwasanaeth wrth symud ymlaen yw gweithio gydag ymgyrchoedd recriwtio Cenedlaethol a Rhanbarthol a fydd yn rhoi ystod o gyfleoedd wedi'u targedu'n benodol sy'n defnyddio adnoddau Cenedlaethol gan gynnwys y cyfryngau e.e. hysbysebion ar S4C ac ITV. Ychwanegir at hyn gan gynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu Sirol a fydd yn canolbwytio ar dargedu ymgyrchoedd penodol wedi'u gyrru gan anghenion dynodedig ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion e.e. ymgysylltu â chlybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr a grwpiau yn y gymuned ehangach.
- Cefnogi laith - rhoi cyfleoedd i Ofalwyr Maeth Ceredigion wella eu sgiliau iaith drwy gael mynediad i hyfforddiant a chyfleoedd a ddarperir drwy Borth Cymorth Cynnar.
- Cefnogaeth ddiwylliannol - datblygu cynllun integreiddio a chymdeithasu blynnyddol gan fanteisio i'r eithaf ar dreftadaeth a diwylliant Ceredigion a rhoi'r wybodaeth a'r mynediad i'r Gofalwyr Maeth i gyfoeth o weithgareddau'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth ac amgylcheddau naturiol yn lleol. Bydd y gwasanaeth yn gweithio mewn cydweithrediad â Phorth Cymorth Cynnar, yr adran Addysg a sefydliadau trydydd sector i ehangu a dathlu'r cyfoeth o ddarpariaeth leol sydd ar gael i Ofalwyr Maeth Ceredigion.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD ynghylch y canlynol:-

(i) nodi'r adroddiad er gwybodaeth;

- (ii) bod adroddiad cynnydd am y Gwasanaeth Maethu yn cael ei gyflwyno yn un o gyfarfodydd y dyfodol;
- (iii) rhoi'r eitem hon ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor; a
- (iv) diolch i'r gwasanaeth am ei holl waith o fewn y Gwasanaeth Maethu

## 4 Darpariaeth Gofal Cartref

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal am y ddarpariaeth Gofal Cartref yng Ngheredigion.

Dywedwyd bod y ddarpariaeth Gofal Cartref dros nifer o flynyddoedd yng Ngheredigion wedi parhau i gael ei ddiwallu drwy'r Fframwaith Comisiynu ar gyfer Caffael, er mwyn darparu gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth unigol. Yr enw ar y broses hon oedd e-dendro. Ar ôl bodloni cyfres o ofynion caffael, roedd holl ddarparwyr Ceredigion yn cael eu cofrestru ar gyfer y Fframwaith ac yna roeddent yn gallu derbyn contractau am wasanaethau gyda Chyngor Sir Ceredigion.

Cyn gynted ag y bo gweithiwr cymdeithasol wedi nodi anghenion gofal cymwys, yn sgil Asesiad yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, byddai cais am wasanaeth yn cael ei wneud. Cyn gynted ag y bo hwn wedi ei gadarnhau, byddai'r hysbysiad yn cael ei roi ar borthol caffael e-dendro ar GwerthwchiGymru. Yna, byddai'r darparwyr a oedd wedi'u cofrestru i ddarparu gofal yng Ngheredigion yn gallu edrych ar y pecynnau gofal oedd eu hangen yn y gymuned a chyflwyno cynigion er mwyn darparu'r gofal hwnnw. Byddai'r cynigion hyn yn cael eu gwneud i'r teulu ac unwaith y byddent wedi'u derbyn, byddai trefniadau yn cael eu gwneud er mwyn dechrau ar y gofal. Os byddai'r teulu yn gwrthod y cynnig (er enghraifft os na fyddai'r amserau gofal yn bodloni eu dewis personol ac os na fyddai modd dod o hyd i gyfaddawd), yna byddai'r cais am ofal yn parhau ar y porthol caffael hyd nes y byddai cynnig arall yn dod i law. O ran anghenion gofal cymhleth iawn, gallai'r pecyn gofal a chymorth gynnwys anghenion gofal a fyddai'n gofyn am 2 aelod o staff gofal am hyd at 4 gwaith y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, 52 wythnos y flwyddyn. Byddai'r anghenion gofal eraill yn cynnwys yr holl anghenion hyd at yr ymyraethau ar lefel is, sef gofal unwaith neu ddwywaith yr wythnos i gynorthwyo gyda rhoi bath a chawod, er enghraifft. Roedd Gofal a Chymorth yn y cartref yn canolbwytio ar gyflenwi sgiliau er mwyn darparu gofal personol ac anghenion llesiant.

Drwy gydol pandemig y Covid-19, roedd y Darparwyr Gofal Cartref wedi gweithio'n ddiflino i ddiwallu anghenion gofal a chymorth ein cymunedau. Roedd y staff yn parhau i ddarparu cymorth i unigolion bregus er eu bod yn cynyddu'r risg iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd wrth iddynt roi gofal a chymorth a oedd yn golygu eu bod yn agos atynt. Roedd ymdrechion y staff hyn wedi eu cydnabod, ac yn parhau i gael eu cydnabod, yn ymdrechion eithriadol ar adeg nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen.

Yn dilyn trafodaeth hir, cynigiodd un o Aelodau'r Pwyllgor argymhelliaid i'r Cabinet a chafodd y cynnig ei eilio gan aelod arall. Nid oedd rhai o'r aelodau yn gyfforddus â'r argymhelliaid hwn am amrywiol resymau ac felly cynhalwyd pleidlais ymhlið aelodau'r Pwyllgor.

Roedd canlyniad y bleidlais fel a ganlyn:- roedd 4 o blaid y cynnig, 1 yn erbyn ac 8 wedi ymatal.

Gan fod 4 o blaid y cynnig, CYTUNWYD i:

- (i) nodi'r adroddiad er gwybodaeth,
- (ii) argymhell i aelodau'r Cabinet eu bod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cyllid o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i ddarparu pecyn ariannu arloesol er mwyn cefnogi'r broses o reciriwtio staff i'r Sector Darparwyr Gofal Cartref lle mae'r angen yn fawr;
- (iii) cefnogi'r broses o gyflwyno Cynllun Taliad Bonws am Atgyfeirio a ddefnyddiwyd mewn cartref Gofal Preswyl i annog gweithwyr i'r maes hwn; a
- (iv) diolch i bawb sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth Gofal Cartref

## 5 Camddefnyddio Sylweddau yng Ngheredigion a'r gwasanaethau a ddarperir

Rhoddwyd cyflwyniad pwynt pŵer i'r Aelodau am gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd ac amlinellwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 (Diwygiwyd mewn Ymateb i Covid-19)
- Y Darlun Cenedlaethol
- Alcohol
- Ystadegau Meddygon Teulu Ceredigion
- Gwasanaethau yng Ngheredigion
- Info Base Cymru- 2019-2020 Hywel Dda Ceredigion
- Barod
- Achosion gerbron Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Cyngor Sir Ceredigion
- Yr Heddlu - mynd i'r afael â chyflenwadau
- Troseddau mediant cyffuriau – Data Heddlu Dyfed-Powys
- Troseddau Masnachu Cyffuriau – Data Heddlu Dyfed-Powys
  - Marwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau fesul Sir
  - Gorddosau sydd ddim yn angheul fesul Sir

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

## 6 Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4, 2020-2021

Ystyriwyd Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4 2020 - 2021. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn monitro cynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal drwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod pedwerydd chwarter 2020/2021. Roedd y wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac roedd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol yngylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/ person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymhell newidiadau i'r cynllun gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/ person ifanc i nodi pobl eraill berthnasol er mwyn iddynt roi cyngor cyfreithiol/ cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen cymryd y cam hwn ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/ person ifanc a gallai gyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn Cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd Amlasiantaethol 'Plant sy'n Derbyn Gofal' sy'n cwrdd bob chwarter; mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill yn ymwneud â'r maes gwaith hwn.

Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Plant a Diwylliant, a chynhelir y cyfarfodydd hyn bob chwarter.

## CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU:

- Ar ddiwedd y Chwarter hwn, sef Chwarter 4, ar 31 Mawrth 2021, roedd 85 o blant yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn gynnydd o ran nifer y plant sy'n derbyn gofal. Ar ddiwedd Chwarter 3 roedd 79 o blant yn derbyn gofal.
- Adolygwyd 58 o blant yn y chwarter hwn. Adolygwyd 89.7% o fewn yr amserlen statudol.
- Dychwelwyd un plentyn adref i'r teulu yn ystod y chwarter hwn, o'i gymharu â phedwar plentyn yn Chwarter 3.
- Roedd y ddarpariaeth o ran lleoli'r plant a adolygwyd yn y chwarter hwn yn amrywio o 20 a leolwyd mewn Darpariaeth Gofal Maeth Awdurdod Lleol, 12 a leolwyd gyda theulu, 9 a leolwyd gyda rhieni, 8 mewn Darpariaeth Gofal Maeth Annibynnol, 3 mewn gofal preswyl a 3 gyda gofalwyr sy'n berthnasau.
- O blith y plant a adolygwyd yn y chwarter hwn, cafodd 87.9% ohonynt ymweliad statudol.
- Roedd 32 o blant a adolygwyd yn destun Gorchymyn Gofal Llawn, roedd 16 yn destun Gorchymyn Gofal Dros Dro, 1 yn destun Gorchymyn Lleoli ac roedd 9 o dan statws cyfreithiol Adran 76.
- Cofnodwyd bod 100% o'r cynlluniau gofal a chymorth yn diwallu anghenion y plant/pobl ifanc a adolygwyd yn y chwarter hwn.
- Nifer a chanran y plant (o ddealltwriaeth ddigonol) a fu'n ymwneud â'u hadolygiad neu yr ymgynghorwyd â nhw, oedd 100%.

- Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael gwasanaeth eiriolaeth, oedd 100%.
- Canran y bobl ifanc a oedd yn gymwys i gael Cynllun Llwybr ac sydd gydag un ar waith, ac ymgynghorydd personol i'w cefnogi, yw 100%.
- Cwblhawyd 25 o Adolygiadau Cynllun Llwybr yn y chwarter hwn. Cwblhawyd 80% o fewn yr amserlen.
- Dangosodd 96% o'r Adolygiadau a wnaed fod y Cynlluniau Llwybr a oedd ar waith yn diwallu anghenion y bobl ifanc.
- Roedd 80% o'r Adolygiadau Cynllun Llwybr a wnaed naill ai'n cynnwys cynrychiolaeth o farn y person yn yr adolygiad neu roedd y person ifanc yn bresennol yn ei adolygiad.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

**7 Drafft Blaenraglen Waith 2021-2022**

Ystyriwyd Blaenraglen Waith 2021-22 fel y'i cyflwynwyd. CYTUNWYD i nodi'r eitemau yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau cynnydd a ofynnwyd amdanynt ynglŷn â recriwtio Gofalwyr Maeth yng Ngheredigion sy'n siaradwyr Cymraeg a'r ddarpariaeth Gofal Cartref.

**8 Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor 17 Medi 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt**

Penderfynodd y Pwyllgor gadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Medi yn rhai cywir.

Materion yn codi

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu  
Cymunedau lachach a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 20 Hydref 2021**

**Cadeirydd:**\_\_\_\_\_

**Dyddiad:**\_\_\_\_\_

## Cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd o bell drwy fideo-gynadledda ddydd Mercher, 20 Hydref 2021

**Yn bresennol:** Y Cyngorwyr Bryan Davies, Gethin Davies, Marc Davies, Odwyn Davies, Peter Davies MBE, Keith Evans, Hag Harris, Alun Lloyd-Jones, Dan Potter, John Roberts, Lynford Thomas ac Ivor Williams.

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cyngorwyr Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Ray Quant, ac Alun Williams

(10.00am – 12.17pm)

### 1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cyngorydd Paul Hinge am na fedrai ddod i'r cyfarfod gan ei fod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor. Hefyd, ymddiheurodd y Cyngorydd Elaine Evans am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

### 2 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu (gan gynnwys datganiadau chwipio)

Dim

### 3 Safonau Masnach (Sgamiau)

Rhoddodd y Rheolwr Safonau Masnach a Thrywyddeddu ddiweddlariad i'r Pwyllgor am sgamiau, materion yn ymwneud â throseddau ar garreg y drws a'r gwaith a wneir gan Safonau Masnach.

Yn gyffredin â'r rhan fwyaf o awdurdodau safonau masnach ledled Cymru a Lloegr, mae Tîm Safonau Masnach Ceredigion, fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, yn defnyddio'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i ddefnyddwyr, a sefydlwyd ac a ariennir yn genedlaethol gan lywodraeth ganolog, i gynnig cyngor sifil i ddefnyddwyr ac i weithredu fel porthol ar gyfer atgyfeiriadau i dimau safonau masnach awdurdodau lleol. Caiff gwybodaeth berthnasol ei throsglwyddo wedyn i bob awdurdod lleol yn ddyddiol iddynt hwy gymryd unrhyw gamau gweithredu priodol. Mae'r Tîm Safonau Masnach yn gofyn ar i 100% o gwynion yngylch sgamiau a throseddau ar garreg y drws gael eu trosglwyddo iddynt.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn defnyddio'r Model Gweithredu Cudd-wybodaeth Cenedlaethol i ddynodi blaenoriaethau ar sail niwed i ddefnyddwyr a bregusrwydd, ac mae sgamiau a throseddau ar garreg y drws yn ymddangos yn gyson yn y 5 maes blaenoriaeth uchaf.

Yn 2019/20 derbyniodd y Tîm Safonau Masnach 552 adroddiad gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i ddefnyddwyr ac roedd 40 o'r rhain yn ymwneud yn benodol â sgamiau a throseddau ar garreg y drws. Derbyniodd y Tîm atgyfeiriadau hefyd gan y Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol. Yn ystod yr un cyfnod, ymdriniodd y Tîm Safonau Masnach â 48 atgyfeiriad gan y Tîm Safonau Masnach Cenedlaethol mewn perthynas â

dioddefwyr sgamiau; caiff pob adroddiad ei frysbennu ac mae'r ymyrraeth yn dibynnu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r unigolyn hwnnw.

Gan fod nifer o bobl wedi gorfol aros gartref yn ystod y pandemig, esboniwyd bod nifer o aelwydydd wedi dod yn ddibynnol ar gysylltedd da â'r rhyngrwyd ar gyfer siopa ar-lein, gweithio gartref, derbyn addysg gartref, tanysgrifiadau i adloniant ar-lein, ac ati, ac roedd y sgamiau cyflenwi ac ar-lein nodweddiadol y byddai twyllwyr yn rhoi cynnig arnynt er mwyn gwneud arian ar draul y cyhoedd diarwybod yn cynnwys:

- Anfon negeseuon testun ac e-bost at bobl i'w hudo i wneud cais am frechlyn Covid-19
- Neges awtomatig yn dweud bod BT yn mynd i atal dros dro y band eang gan fod y cyfeiriad IP wedi'i gyfaddawdu, a neges yn gofyn i'r derbynnydd 'bwys 1' er mwyn parhau.
- Neges awtomatig yn dweud bod yr alwad gan Amazon Prime ac yn honni y byddai tâl o £79 yn cael ei godi am Amazon Prime ar gerdyn y derbynnydd.
- Neges destun, yn ôl pob golwg, gan Y Post Brenhinol, yn datgan bod angen aildrefnu danfon pecyn neu fod eitem yn aros i'w chasglu, ac yn gofyn i'r derbynnydd bwysol dolen 'bit.ly'

O'r 740 adroddiad/cwyn gan ddefnyddwyr a dderbyniwyd gan y Tîm Safonau Masnach ers dechrau'r pandemig, roedd 67 achos yn gysylltiedig â defnyddwyr Ceredigion wedi profi rhyw fath o arfer masnachu annheg uniongyrchol yn sgil Covid-19 e.e. tor contract, gwerthwyr yn gwrthod ad-dalu a dychwelyd blaendaliadau ar wyliau/priodasau/digwyddiadau a ganslwyd neu fethiant i ddarparu gwasanaeth, ac ati.

Cafodd y Pwyllgor hefyd wybodaeth am droseddau ar garreg y drws. Yn aml, pobl oedrannus a phobl fregus sy'n cael eu targedu gan fasnachwyr twyllodrus yn cynnig gwelliannau i'r cartref neu wasanaethau garddio ac ati. Mae troseddau ar garreg y drws yn aml yn ganlyniad i alwad diwahoddiad cychwynnol. Bydd masnachwyr diegwyddor yn gwneud gwaith diangen, eilradd a pheryglus hyd yn oed, ar brydau, ac yna'n defnyddio tactegau cryf i berswadio'r defnyddwyr i dalu symiau mawr o arian am grefftwaith gwael. Mae'r Tîm Safonau Masnach yn gweithio'n agos gyda phartneriaid fel Heddlu Dyfed-Powys i geisio dyrchafu effaith ei weithgareddau i'r eithaf yn lleol ac osgoi dyblygu. Caiff yr holl gudd-wybodaeth sy'n gysylltiedig â sgamiau a throseddau ar garreg y drws ei hychwanegu at gronfa ddata gudd-wybodaeth ganolog a ddosberthir i'r Heddlu ac asiantaethau gorfodi eraill fel y bo'n briodol.

Mae ymateb y Tîm Safonau Masnach i achosion o droseddau ar garreg y drws wedi'i seilio fwy ar orfodaeth ac mae'r Tîm yn ceisio ymateb i bob un yr adroddir arno, gyda chymorth yr heddlu, lle'n bosibl.

Mae ymchwilio i'r math hwn o weithgarwch masnachu twyllodrus ac amddiffyn defnyddwyr bregus rhagddo yn parhau'n flaenoriaeth i'r Tîm Safonau Masnach. Mae gan y Gwasanaeth nifer o ymchwiliadau ar y gweill ar hyn o bryd, ac mae un erlyniad yn aros am ddedfryd. Darparwyd canlyniadau'r erlyniadau diweddaraf mewn perthynas â masnachwyr diegwyddor/twyllodrus i'r Pwyllgor.

Pwysleisiodd aelodau'r Pwyllgor y byddai adnoddau ychwanegol ar gyfer y tîm yn fuddiol, gan fod rhan fwyaf y partneriaid gorfodi yn ei chael hi'n anodd ymdopi â phrinder adnoddau.

Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a CHYTUNWYD i nodi'r adroddiad a'r materion a ddisgrifiwyd.

## 4 Adroddiad Blynnyddol Uned Gofalwyr Ceredigion 2020-21

Rhoddodd yr Aelod Cabinet a'r Rheolwr Tîm – Gofalwyr Gydol Oes a Chymorth Cymunedol adroddiad am Iwyddiannau Uned Gofalwyr Ceredigion a'r cynnydd a wnaed o ran y targedau a'r amcanion a gytunwyd arnynt yn ystod blwyddyn 2020-2021.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi hawl gyfartal i Ofalwyr i asesu eu hanghenion fel y rheini y maent yn gofalu amdanynt. O dan y ddeddf, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cynllun cymorth i helpu Gofalwyr i sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw. Symud ymlaen â chamau i sicrhau bod yr hawliau gwell hyn yn cael eu cydnabod a'u gweithredu'n weithredol. Y 3 blaenoriaeth genedlaethol oedd:

- Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu - Rhaid i bob Gofalwr gael seibiannau rhesymol o'u rôl ofalu i'w galluogi i gynnal eu gallu i ofalu, a chael bywyd y tu hwnt i ofalu.
- Nodi ac adnabod Gofalwyr – Yn hanfodol i lwyddiant cyflawni gwell canlyniadau i Ofalwyr yw'r angen i wella cydnabyddiaeth Gofalwyr o'u rôl ac i sicrhau y gallant gael gafaol ar y cymorth angenrheidiol.
- Rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth - Mae'n bwysig bod Gofalwyr yn cael y wybodaeth briodol a'r cyngor priodol ble a phryd y mae eu hangen arnynt.

Dywedwyd bod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl sy'n canolbwytio ar ganlyniadau i wella bywydau Gofalwyr, ac i wella cefnogaeth, gwasanaethau a chydubyddiaeth Gofalwyr yng Ngheredigion yn barhaus. Mae'r Ddeddf yn rhoi diffiniad o Ofalwr fel "person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl". Mae hyn yn dileu'r gofyniad bod rhaid i ofalwyr roi "swm sylweddol o ofal ar sail reolaidd".

Gofynnodd yr Aelodau gwestiwn am y ddarpariaeth seibiant a oedd ar gael. Soniodd y Swyddog Datblygu Gofalwyr am yr amrywiol opsiynau oedd ar gael. Pwysleisiodd yr Aelodau mor bwysig oedd rhannu gwybodaeth yn enwedig yn yr ysgolion ac yn y meddygfeydd.

Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r adroddiad.

## 5 Adroddiad Blynnyddol Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2020-2021

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet a'r Rheolwr Tîm – Gofalwyr Gydol Oes a Chymorth Cymunedol yr adroddiad a oedd wedi'i baratoi gan Grŵp Datblygu

Gofalwyr Gorllewin Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru i amlinellu'r cynnydd a gyflawnwyd i fodloni blaenor iaethau Gofalwyr Llywodraeth Cymru gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Ym mis Ebrill 2017, cytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru i gynnwys Gofalwyr fel ffrwd waith allweddol, gan adlewyrchu pwysigrwydd y grŵp poblogaeth hwn o fewn cyfrifoldebau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gwnaeth yr adroddiad a gyflwynwyd grynhoi gweithgarwch Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020– 31 Mawrth 2021. Mae Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn is-grŵp ffurfiol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Bwrdd Iechyd), tri Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, yn ogystal â sefydliadau'r Trydydd sector a'r sector Gwirfoddol, a chynrychiolwyr Gofalwyr yng Ngorllewin Cymru.

Mae 2019/20 yn adlewyrchu cyfnod pontio Llywodraeth Cymru rhwng Mesur Strategaethau Gwybodaeth ac Ymgynghori Gofalwyr (Cymru) 2010 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn eu llythyr cyllideb dyddiedig 14 Mawrth 2018 nododd Llywodraeth Cymru eu disgwyliad y bydd iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi gofalwyr o dan y Ddeddf trwy:

- Gefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu - darparu cyfleoedd i ofalwyr gael seibiannau rhesymol o'u rôl ofalu i'w galluogi i gynnal eu gallu i ofalu, a chael bywyd y tu hwnt i ofalu.
- Nodi a chydnabod gofalwyr - gwella cydnabyddiaeth Gofalwyr o'u rôl a sicrhau eu bod yn gallu gafael ar y gefnogaeth gywir.
- Rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth - rhoi cyngor priodol lle a phryd y mae ei angen ar Ofalwyr.

Roedd yr Aelodau yn dymuno tynnu sylw at bwysigrwydd y Gymraeg wrth ofalu am rywun sy'n Gymraeg iaith gyntaf. Hefyd, pwysleisiwyd bod angen i'r byrddau iechyd gysylltu â'i gilydd pan fyddai claf yn cael ei ryddhau o ysbty sydd wedi'i leoli mewn bwrdd iechyd cyfagos er mwyn sicrhau bod y gofal priodol ar gael i'r claf yn ei gartref.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r adroddiad.

## 6 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 22.09.2021 ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt**

Eitem 5 – Nododd y Pwyllgor fod aelodau'r Cabinet a'r swyddogion wedi cwrdd â Thîm Pêl-rwyd Llewod Llambed a Chyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a'u bod yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd.

CYTUNWYD i gadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2021 yn rhai cywir.

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar xxxx 2021**

**Cadeirydd:**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol